Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Comisiwn Ffiniau i Gymru

# Ymgynghoriad Cynigion Diwygiedig: Cynrychiolaethau

Cyfrol 5: 10248 - 10512

**BCW-10248 / [redacted] / Abertawe**

Fel un o breswylwyr Rhos Pontardawe, rwy'n bryderus iawn bod y cynigion hyn ar gyfer newid ffiniau yn golygu y byddwn yn cael ein hepgor o etholaeth Castell-nedd. Byddai hyn yn golygu y byddem yn defnyddio gwasanaethau ac ati nad oes gennym unrhyw ddylanwad drostynt, e.e. gofal iechyd ac ati. Ni fyddem yn defnyddio gwasanaethau yn Aberhonddu oherwydd y pellter a'r ddemograffeg. Gofynnaf yn barchus i hyn gael ei ailystyried.

**BCW-10249 / [redacted] / Llundain**

Mae etholaeth arfaethedig Rhondda yn cynnwys estyniad rhyfedd iawn i lawr i Bencoed (Penprysg, Hendre, Felindre) – sydd heb unrhyw gysylltiadau uniongyrchol ar y ffyrdd, nac unrhyw gysylltiadau economaidd-gymdeithasol penodol, â chymoedd Rhondda. Byddwn wedi gosod yr ardaloedd hyn yn etholaeth Pen-y-bont a throsglwyddo Nant-y-moel, Bro Ogwr a Melin Ifan Ddu i Rondda – sydd hefyd yn llai cysylltiedig â Rhondda ond mae cysylltiadau ar hyd y ffyrdd o Dreorci a Gilfach Goch ac maent yn rhannu mwy o debygrwydd yn economaidd. Rwy'n meddwl y byddai angen i chi drosglwyddo mwy i gyrraedd o fewn +/-5% o'r nifer gofynnol, felly ychydig yn llai delfrydol, gellid trosglwyddo Blaengarw, Pontycymer a Llangeinwyr i Rondda. Mae'r rhain wedi'u cysylltu gan ffordd yr A4093 â Melin Ifan Ddu ac felly'r etholaeth ehangach, ac eto maent yn debycach yn economaidd i Rondda na'r ardal o amgylch Pencoed. Rwy'n meddwl y byddai hyn hefyd yn symud etholaethau Rhondda a Phen-y-bont yn nes at ganol yr ystod darged o ran poblogaeth.

Wedyn, byddwn yn ailenwi etholaeth Rhondda yn "Rhondda ac Ogwr" i adlewyrchu'r ffaith ei bod yn cynnwys cymoedd Ogwr uchaf.

Ac mae'n debygol y byddwn yn ailenwi Pen-y-bont yn "Pen-y-bont a Maesteg" i adlewyrchu'r ddwy brif dref yn yr etholaeth (wrth gwrs, mae Pen-y-bont ar Ogwr yn llawer mwy o faint, ond mae Maesteg yn ddigon gwahanol, yn fy marn i, i gael ei henwi).

**BCW-10250 / [redacted] / Blaenau**

Ni allai Islwyn fod yn fwy datgysylltiedig oddi wrth Orllewin Casnewydd. Mae cysylltiadau trafnidiaeth yn wael ac mae'n ardal wahanol iawn. Roedd y cynnig gwreiddiol, sef Gorllewin Casnewydd yn ymuno â Chaerffili, yn llawer mwy synhwyrol a phriodol.

Felly, mae fy sylw yn wrthwynebiad i'r cynnig diwygiedig.

**BCW-10251 / [redacted] / Castell-nedd**

Mae'n chwerthinllyd. Dylai Sgiwen fod o dan Gastell-nedd Port Talbot.

**BCW-10252 / [redacted] / Pontardawe**

Ym mha ffordd y mae gan Gwm Tawe unrhyw gysylltiad ag ardaloedd gwledig pellennig fel Aberhonddu a Maesyfed, nid yw’n gwneud unrhyw synnwyr o gwbl, a bydd yn gwneud gwasanaethu’r cymunedau hyn yn amhosibl, i bob pwrpas. Mae’n daith o bron i ddwy awr o waelod yr etholaeth newydd arfaethedig i’w brig, a hynny mewn car, heb sôn am geisio defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, nad yw’n bodoli.

Mae’n amlwg nad yw’r Comisiwn Ffiniau wedi ystyried y rhwystrau daearyddol i ffiniau llywodraeth leol, gan ddiystyru’n llwyr y cysylltiadau lleol a fyddai’n cael eu torri pe baem yn cael ein symud o Gwm Tawe i’r etholaeth newydd a gynigir.

**BCW-10253 / [redacted] / y Drenewydd**

Rwy’n cefnogi creu etholaeth newydd Maldwyn a Glyndŵr fel y’i cyflwynwyd ar 19 Hydref 2022.

**BCW-10254 / [redacted] / Pontardawe**

Os na all Pontardawe (a'r cylch) ail ymuno â Gwyr - yna Aberhonddu+ yn syniad ARDDERCHOG.

Roedd y drefn o osod Pontardawe (a'r cylch) yng Nghastell-nedd PT yn syniad hollol wael.

Byddaf yn edrych 'mlarn yn fawr i ymuno â Aberhonddu+..

**BCW-10255 / [redacted] / Wrecsam**

Cofiaf yn dda'r adeg pan oedd cymuned Rhos a Phonciau yn rhan o hen etholaeth Wrecsam cyn i newidiadau gwahanol gael eu gwneud a arweiniodd yn y pen draw at ffurfio etholaeth De Clwyd.

O dan y cynnig gwreiddiol, byddai'r pentref yn dod yn rhan o etholaeth newydd Wrecsam. Fel ardal adeiledig ddiwydiannol, roedd hyn yn eithaf derbyniol gan ein bod yn byw o fewn 4 milltir i ddinas Wrecsam, ac yn rhan o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Rwyf wedi fy ffieiddio i ddarganfod ein bod bellach yn cael ein symud i'r un etholaeth â Machynlleth (nid yw'n fwriad gen i dramgwyddo Machynlleth) sydd tua 60 milltir i ffwrdd. Mae bron y cyfan o'r etholaeth newydd yn wledig ac nid oes ganddi unrhyw beth yn gyffredin â Rhos a Phonciau. Rwy'n gwerthfawrogi'r anawsterau a wynebir gan y Comisiwn Ffiniau ond mae'n gwbl annerbyniol ein gwahanu oddi wrth gymunedau y mae gennym gymaint yn gyffredin â nhw, fel mater o hwylustod. OS GWELWCH YN DDA, ailystyriwch.

**BCW-10256 / [redacted] / Caerffili**

Er gwaethaf anghytundebau, ar y cyfan rwyf o blaid y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau o gymharu â'r cynnig gwreiddiol.

Fel un a geisiodd gynrychioli buddiannau'r gymuned leol a'r fwrdeistref sirol, credaf y dylai Ystrad Mynach a Nelson aros yn rhan o Gaerffili ac rwy'n falch o weld y byddant yn parhau felly.

**BCW-10257 / [redacted] / Machynlleth**

Fel un o breswylwyr Sir Drefaldwyn, cefnogaf y cynigion hyn yn llawn. Mae Sir Drefaldwyn wedi bodoli fel etholaeth ers y 1500au. Mae'n wahanol iawn i weddill Cymru.

**BCW-10258 / [redacted] / Caersws**

Diolch i chi am gadw'r enw Maldwyn. Mae Glyndŵr a Maldwyn yn enwau hanesyddol sy'n darlunio'r ardal hon yn berffaith.

Rwyf wedi bod yn brwydro ers blynyddoedd lawer i gadw ein henw treftadaeth, Maldwyn, ac rwyf mor falch ei fod yn parhau. Dyma fy sir enedigol, wedi fy ngeni a'm magu yma, fel fy nheulu am genedlaethau lawer. Nid person newydd sydd wedi symud i mewn yma, felly mae ein gwreiddiau yn bwysig i ni.

Rwy'n berffaith hapus i gael y ddau enw, Maldwyn a Glyndŵr, ac mae'r ffiniau a gyhoeddwyd heddiw yn gwbl dderbyniol.

Diolch i chi am weld synnwyr cyffredin ar ran pobl Sir Drefaldwyn.

Cofion,

[redacted].

**BCW-10259 / [redacted] / Abertawe**

Cracers, boncyrs, ffolineb llwyr. Rwy'n byw ym Mhontardawe, 5 milltir o Gastell-nedd, 8 milltir o Abertawe, a nawr rydych eisiau ein cynnwys ag Aberhonddu sy'n 40 milltir i ffwrdd. Ydych chi i gyd yn wallgof! Rydym yn byw yng Nghwm Tawe, deallwch hynny, Cwm TAWE.

**BCW-10260 / [redacted] / Castell-nedd**

Ym mha fyd ddylai Sgiwen fod yn yr un etholaeth â Phorthcawl? Mae'r ddwy ardal filltiroedd oddi wrth ei gilydd, o ran lleoliad daearyddol, demograffeg, ac anghenion ariannol a chymdeithasol. Mae hyn yn weithred gan lywodraeth Dorïaidd y DU i wanhau pŵer etholwyr Cymru. Gorau po gyntaf y cawn annibyniaeth o'r hunllef hon.

**BCW-10261 / [redacted] / Pontardawe**

Nid wyf yn cytuno â'r newidiadau hyn i'r ffiniau. Mae Cymru yn haeddu mwy o lais yn y Senedd nid llai!

**BCW-10262 / [redacted] / Wrecsam**

Mae hyn yn warthus, mae etholaeth newydd arfaethedig Maldwyn a Glyndŵr yn llawer rhy fawr, mae rhan ogleddol hen etholaeth De Clwyd wedi'i thorri i ffwrdd yn llwyr oddi wrth Wrecsam, a'i lympio i mewn â Chanolbarth Cymru, mae hyn yn wallgofrwydd. Na Na Na. Newidiwch hyn ar unwaith.

**BCW-10263 / [redacted] / Pontardawe**

Mae'r cynnig hwn yn syfrdanol ac yn ymosodiad ar ddemocratiaeth. Mae rhan uchaf Cwm Tawe bob amser yn dangos cefnogaeth fawr i Blaid Cymru a Llafur ac mae ei lympio i mewn ag etholaeth sydd yn hanesyddol yn pleidleisio'n geidwadol yn enghraifft arall o San Steffan eisiau gwanhau lleisiau dosbarth gweithiol Cymru.

Does dim rheswm i'n ffin newid heblaw am sicrhau mwy o bleidleisiau i'r Blaid Geidwadol gwbl ddi-glem, ac atal pleidleisiau Plaid Cymru a Llafur rhag dod allan o Gymru. STOPIWCH yr ymgais i'n tawelu. Rydym yn gwybod beth rydych chi'n ei wneud, mae'n glir iawn.

**BCW-10264 / [redacted] / Wrecsam**

Pam fyddech chi'n gosod Rhosllannerchrugog, Johnstown a Rhostyllen, sy'n rhan o Wrecsam, 4 milltir a llai o ganol y ddinas, mewn etholaeth gyda Derwen-las a Llangurig, dim ond awr a hanner i ffwrdd mewn car, 70 milltir yn fras. Nid oes unrhyw gysylltiad naturiol rhwng y ddwy ardal, rhaid gyrru i mewn i Loegr i gyrraedd yno (ac nid yw'r ffordd fynyddig allan o Ddyffryn Ceiriog yn cyfrif).

Yr awgrym diwethaf gennych oedd y byddem gyda Wrecsam, a dyna ble mae'r cysylltiadau personol ac economaidd i'r mwyafrif helaeth o bobl yr ardal. Yn sydyn, ac am resymau anhysbys, rydym yn cael ein taflu i mewn gydag ardal lle nad oes unrhyw gysylltiad.

Ymarfer rhifyddeg yn unig yw hyn ac mae a wnelo dim â democratiaeth, gan dorri ar niferoedd yr ASau tra'n chwyddo'n arw nifer yr Arglwyddi presennol.

**BCW-10265 / [redacted] / Y Trallwng**

Nid oes llawer o gysylltiad (diwylliannol/hanesyddol/gwleidyddol/cymdeithasol) rhwng Pontardawe/Cwm Tawe Uchaf ac ardal Aberhonddu a Maesyfed sy'n wledig yn bennaf.

Gwelaf y bydd hyn yn cael effaith andwyol ar gynrychiolaeth gan ASau mewn rhannau gwahanol o'r etholaeth (yn enwedig â'r duedd bresennol i ASau fod â mwy o deyrngarwch i bleidiau yn hytrach nag i'r holl etholwyr).

O leiaf, mae rhywfaint o gysylltiad gwleidyddol hanesyddol rhwng Ystradgynlais a hen etholaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed, felly gallai hynny fod yn ateb cyfaddawd gan nodi'r canllawiau ar boblogaeth etholaethau, yn hytrach na'r cynnig sydd gan y Comisiwn.

**BCW-10266 / [redacted] / Aberteifi**

Rwy'n cytuno'n fras ag etholaeth arfaethedig Ceredigion Preseli ond credaf y dylid cynnwys rhannau o Ddyffryn Teifi sydd yn Sir Gaerfyrddin yn yr etholaeth newydd hon hefyd. Mae gan ardaloedd fel Drefach Felindre, Castell Newydd Emlyn, Pont-tyweli a Llanybydder gysylltiadau economaidd, diwylliannol a daearyddol agos â threfi a phentrefi ar ochr Ceredigion y dyffryn.

**BCW-10267 / [redacted] / Margam**

Rwy'n meddwl ei bod yn gwbl wirion newid y ffiniau ar gyfer Aberafan i gynnwys Porthcawl. Mae'r materion sy'n wynebu pobl sy'n byw yn Aberafan yn ddim byd tebyg i'r rhai sy'n wynebu'r bobl sy'n byw yn ardal Porthcawl, ac felly gall hyn arwain at gynrychiolaeth yn San Steffan nad yw'n adlewyrchu anghenion y bobl mewn unrhyw ffordd. Nid oes gan yr ardaloedd hyn unrhyw beth yn gyffredin ac mae ganddynt safbwyntiau gwleidyddol gwahanol iawn, a bydd gorfodi ardaloedd o amddifadedd i gael eu cyfuno ag ardaloedd o gyfoeth yn arwain at wahaniaethau mwy fyth o ran dosbarthiadau cymdeithasol ac yn gwthio pobl i ffwrdd rhag ymwneud â gwleidyddiaeth.

**BCW-10268 / [redacted] / Wrecsam**

Ni allaf gredu'r penderfyniad i osod Rhosllannerchrugog yn yr etholaeth enfawr arfaethedig sy'n wledig yn bennaf. Rydym ymhell o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam, dim ond 4 milltir o'r ddinas (bellach), mae cysylltiadau economaidd ynghlwm â'r ddinas a'r pentrefi o'i chwmpas a fu'n ddiwydiannol yn wreiddiol (ac yn amlwg nid â'r gefnwlad wledig sy'n ymestyn tua 70 milltir i'r gorllewin!!!). Nid wyf yn glir ym mhle mae'r ffin, hyd yn oed. A yw pentref cyfagos Johnstown – lle cefais fy magu – o fewn etholaeth Wrecsam? Nid yw'n hawdd gweld o'r map. Os felly, mae hyn yn hollol wallgof – mae'n un ardal adeiledig barhaus. Pam mae Wrecsam a'r pentrefi cyfagos yn cael eu gwahanu fel hyn? Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr o gwbl. Mae'n swnio o'r erthygl fod dylanwadau'r Ceidwadwyr ar waith yma. Cyffindwyllo???

**BCW-10269 / [redacted] / Pen-y-bont ar Ogwr**

Rwy'n cefnogi cyfansoddiad newydd etholaeth seneddol "Pen-y-bont". Fodd bynnag, fel un o breswylwyr etholaeth falch a hanesyddol Ogwr, byddwn yn gofyn am ystyried enw gwahanol.

Byddwn yn awgrymu mai dewis arall priodol fyddai "Penybont-ar-Ogwr"

DS. Mae eich system yn ystyried fy mod yn ward "Llangeinwyr", ac fel y cynghorydd ar gyfer ward Nant-y-moel, mae'n fy synnu braidd!

**BCW-10270 / [redacted] / Penfro**

Mae hwn yn gynnig hollol warthus. Mae'n ddim byd ond ymgais gan y Torïaid i wanhau llais Cymru yn San Steffan ac ni fyddwn yn derbyn hyn. Mae dosbarthiad presennol etholaethau Sir Benfro yn iawn fel y mae. Ni fydd y cynnig hwn yn cael unrhyw effaith gadarnhaol o gwbl.

**BCW-10271 / [redacted] / Pontardawe**

Yn bersonol, nid wyf yn meddwl bod ychwanegu Pontardawe at ardal Aberhonddu yn syniad da. Bydd hynny'n newid mynediad at wasanaethau lleol sydd eisoes yn cael trafferthion. Mae hwn yn benderfyniad gwael sy'n dangos diffyg ystyriaeth. Byddai'n well gennyf gadw Pontardawe yn rhan o Gastell-nedd neu ei dychwelyd at Abertawe. Wedi'r cyfan, rydym yn rhan o Gwm Tawe.

O ystyried mai ymgynghoriad cyhoeddus yw hwn, ni fu bron unrhyw gyhoeddusrwydd.

Rwy'n gwbl ymwybodol nad yw'r awdurdodau sydd gennym yn rhoi ystyriaeth i'r cyhoedd, ond mae hwn yn syniad gwirion ac nid yw'n un i'w groesawu.

Gobeithio bod y gwasanaethau ailgylchu yn Aberhonddu cystal os nad gwell na'r rhai a ddefnyddir ar hyn o bryd yng Nghastell-nedd, sydd ymhlith y rhai ehangaf a welais erioed.

**BCW-10272 / [redacted] / Wrecsam**

Rwy'n byw tair milltir o Wrecsam yn Johnstown. Mae'n wir y buom yn rhan o Dde Clwyd, ond mae'r newidiadau hyn i'r ffiniau yn rhoi'r cyfle i fynd i'r afael â hyn a'n cynnwys yn ardal etholiadol Wrecsam. Mae ein cynghorwyr lleol yn ein cynrychioli ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, telir ein treth gyngor i Wrecsam ac mae ein cysylltiadau diwylliannol, ysgolion, ysbytai, siopa ac adloniant i gyd yn gysylltiedig â Wrecsam. Yn yr un modd, dylai ein Haelod Seneddol a'n Haelod o'r Senedd fod yno i gynrychioli ein hanghenion a'n pryderon lleol, gan weithio dros ein cymuned, cymuned Wrecsam. Anghytunaf yn gryf â'r ffiniau a gynigir.

**BCW-10273 / [redacted] / Casnewydd**

Nid wyf yn meddwl bod y newid yn gywir. Nid oes unrhyw beth o'i le â bod yn Islwyn.

**BCW-10274 / [redacted] / Castell-nedd**

Yn bersonol, rwy'n siomedig bod y Llywodraeth wedi penderfynu gwneud gostyngiad cymesurol mor fawr yn nifer yr Aelodau Seneddol i ni yma yng Nghymru, gan leihau ein llais yn y Senedd ymhellach. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod eich bod wedi cael tasg anodd iawn.

Mae bob amser wedi ymddangos yn rhyfedd iawn i mi fod ardal Cyngor Tref Coedffranc wedi'i chynnwys yn etholaeth Aberafan, gan fod ein holl gysylltiadau â Chastell-nedd ac Abertawe. Mae Sgiwen a Jersey Marine fwy neu lai yn faestrefi i Abertawe yn ffisegol, yn economaidd ac yn gymdeithasol. Felly, roedd yn gwneud synnwyr yn y cynigion diwethaf y byddem yn etholaeth Castell Nedd a Dwyrain Abertawe. Rwy'n siomedig iawn i weld y cynigir bellach bod ardal Cyngor Tref Coedffranc yn cael ei gosod yn etholaeth newydd Aberafan Porthcawl. Er ein bod ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, ychydig o gysylltiadau naturiol neu gymdeithasol sydd rhwng Sgiwen a Phort Talbot, ac mae llai fyth rhyngom ni ac ardal Porthcawl.

**BCW-10275 / [redacted] / Pen-y-bont ar Ogwr**

Rwy'n methu deall y rhesymeg dros symud Pencoed o Ogwr i Rondda.

Ein tref agosaf yw Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae grwpiau ieuenctid elusennol lleol fel y Sgowtiaid a'r Geidiaid yn rhan o Ben-y-bont ar Ogwr.

Mae unedau rheoli'r heddlu a'r gwasanaeth tân ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Y grym disgyrchedd sydd â'r prif lwybrau ffyrdd ar gyfer busnes, hamdden a'r ganolfan economaidd yw Pen-y-bont ar Ogwr.

Ein cyfeiriadau post yw Pen-y-bont ar Ogwr.

Rwy'n anghytuno â'r cynnig ac yn annog meddwl ymhellach ac ystyriaeth ehangach.

**BCW-10276 / [redacted] / Castell-nedd**

Mae Sgiwen, Llandarcy, Twyni Crymlyn ac ati yn rhan o GASTELL-NEDD. Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr iddynt fod yn Aberafan Port Talbot!

Mae'n siŵr y byddai defnyddio codau post i alinio yn gwneud mwy o synnwyr. E.e SA10 a SA11 yng Nghastell-nedd. Dwyrain Abertawe ar ei ben ei hun. SA12 a 13 yn Aberafan.

**BCW-10277 / [redacted] / Dinbych**

Bydd etholaeth newydd Gogledd Clwyd yn cael ei dominyddu gan ei phoblogaeth arfordirol sy'n bennaf Seisnig a threfol. Mae Dinbych yn hen dref farchnad gyda nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg a chefnwlad amaethyddol. Ar lefel Cyngor Sir, mae budd pennaf y dref fel arfer yn dod yn ail i alwadau gan etholwyr ar yr arfordir. Mae'r trefi bach gwledig i bob pwrpas wedi'u difreinio wrth eu gosod mewn etholaethau sy'n drwm ag etholwyr sy'n uniaethu â Manceinion a Glannau Merswy ac yn gwybod fawr ddim am fywyd ar ochr bellaf yr A55.

**BCW-10278 / [redacted] / Wrecsam**

Mae cynnwys rhannau o Wrecsam, sydd ar hyn o bryd yn Ne Clwyd, yn etholaeth arfaethedig Maldwyn a Glyndŵr, yn chwerthinllyd, a bod yn onest.

Fel Brymbo a Mwynglawdd, sy'n "rhannu cysylltiadau lleol a chysylltiadau cymunedol â Wrecsam, yn hytrach nag Alun a Glannau Dyfrdwy i'r gogledd", mae'r un peth yn wir am Rostyllyn (tua 1.9 milltir o Wrecsam), Rhosllannerchrugog (3.9 milltir), Rhiwabon (5.2 milltir), Cefn Mawr (7 milltir) a'r Waun (9.6 milltir). Nid oes gan y cymunedau hyn unrhyw "gysylltiadau lleol" â Llandrillo (tua 21.6 milltir o'r Waun), Trefaldwyn (28.9 milltir), Y Drenewydd (34.9 milltir) a Machynlleth (54.7 milltir).

Mae pobl eisiau cael eu cynrychioli gan rywun sy'n adnabod yr ardal leol ac sy'n gallu deall materion lleol. Os yw'r unigolyn a etholir yn dod o Fachynlleth, gyda phob parch, mae'n annhebygol o ddeall arlliwiau lleol Rhosllannerchrugog, er enghraifft (ac i'r gwrthwyneb).

Mae'n ymddangos bod y cynigion hyn wedi'u cyflwyno gan bobl sy'n ystyried nifer yr etholwyr yn bwysicach na'r etholwyr eu hunain. Rwy'n deall bod y nifer yn bwysig ond daw pobl yn gyntaf.

Gyda'r ymgynghoriad wedi cyrraedd cyn belled â hyn, rwy'n amau y bydd sylwadau yn gwneud unrhyw wahaniaeth, ac edrychaf ymlaen at orfod gwneud taith gron o 110 milltir i ymweld â'm Haelod Seneddol "LLEOL".

**BCW-10279 / [redacted] / Caerffili**

Ni allaf ddweud fy mod yn cytuno â phroses sy'n lleihau dylanwad Cymru sydd eisoes yn ddibwys yn San Steffan.

Fodd bynnag, mae'r cynlluniau presennol ar gyfer Caerffili yn welliant sylweddol ar y cynigion gwreiddiol a olygai y byddem yn cael ein taflu i mewn â Gorllewin Casnewydd. Byddai hyn wedi creu cawdel o etholaeth am yr holl resymau yn ymwneud â hanes, daearyddiaeth a diwylliant y mae ymatebwyr i'r cynigion gwreiddiol wedi'u hamlygu.

Diolch yn fawr

**BCW-10280 / [redacted] / Brynaman**

Unwaith eto, rydym ni ym Mrynaman Isaf yn cael ein taflu i mewn ag ardaloedd nad oes gennym unrhyw gysylltiad rhanbarthol â nhw. Mae'n ddigon drwg bod ein hawdurdod lleol wedi'i leoli filltiroedd i ffwrdd, heb i'n AS fod wedi'i leoli yn Aberhonddu, yn ôl pob tebyg. Rydym yn agosach at Abertawe na naill ai Aberhonddu neu Gaerfyrddin, ac mae llawer o'r preswylwyr yn gweithio yn ardal Abertawe. Gêm rifau yn unig yw'r ad-drefnu hwn ac mae'n gwrthod ystyried y gwahaniaeth rhanbarthol.

**BCW-10281 / [redacted] / Wrecsam**

Rwy'n byw yn ward Cefn Mawr, roedd yn ardal a fu'n dibynnu ar ddiwydiant trwm a mwyngloddio. Rwy'n ei chael hi'n anhygoel bod y Comisiwn yn bwriadu ei thaflu i mewn ag ardal amaethyddol yn bennaf heb unrhyw gysylltiadau clir. Dylai ardal Cefn Mawr, Rhosllannerchrugog a Rhiwabon aros gydag etholaeth Dinas Wrecsam. Rwyf o fewn taith 10 munud mewn car i ganol Wrecsam, a 2 awr i ffwrdd o Fachynlleth.

Mewn gwirionedd, rwy'n byw yn nes at Lerpwl, ac ni allaf weld unrhyw reswm dros wahanu'r rhan hon o Dde Clwyd oddi wrth Wrecsam. Mae gan yr ardal hon lawer mwy yn gyffredin â Wrecsam yn hanesyddol ac wrth edrych i'r dyfodol.

Gofynnaf i chi ailystyried y cynnig hwn.

**BCW-10282 / [redacted] / Y Rhws**

Rwy'n gwrthwynebu unrhyw newidiadau yn llwyr.

Rhowch y gorau i wastraffu arian ar ymgynghoriadau diangen, nad ydynt, yn ôl eu golwg, o fudd i etholwyr, ond yn hytrach yn ddim ond ffordd o ddylanwadu ar y 'seddau'.

**BCW-10283 / [redacted] / Ogwr**

1. Mae eithrio Pencoed (Penprysg, Hendre a Felindre) o’r cynnig newydd ar gyfer etholaeth Pen-y-bont a chynnwys Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr yn argymhelliad rhyfedd o ystyried y cysylltiad cymunedol a’r cysylltiad trafnidiaeth ar y ffyrdd a’r rheilffordd i Bencoed o weddill yr etholaeth – mae hyn yn cynnwys yr holl ychwanegiadau newydd eraill i’r dwyrain o Fryntirion, Trelales a Merthyr Mawr.

Mae mwy o raniad rhwng Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr a’r ardaloedd sy’n weddill nag sydd â Phencoed. Dylid nodi hefyd mai’r cysylltiad rhwng Pencoed a’r cymydog agosaf yn etholaeth newydd Rhondda yw Gilfach Goch. Oni bai bod disgwyl i bobl deithio ar hyd lonydd fferm cul, bydd angen iddynt adael yr etholaeth er mwyn gallu dychwelyd iddi eto. Nid yw hyn yn rhywbeth y dylai ddigwydd o ran cysylltedd cymunedol.

2. Mae wir yn dristwch mawr gweld yr etholaeth yn cael ei henwi’n Ben-y-bont, ac enw Ogwr yn cael ei hepgor. O ystyried mai Ogwr yw mwyafrif ehangdir yr etholaeth arfaethedig yn seiliedig ar y ffiniau presennol, dylid ystyried Ogwr ac nid Pen-y-bont fel yr enw ar yr etholaeth honno, neu o leiaf ei galw’n Ben-y-bont ac Ogwr (Bridgend and Ogmore yn Saesneg). Nid yn unig y dylid ystyried hyn oherwydd yr ehangdir, ond hefyd oherwydd hanes etholiadol. Sefydlwyd Ogwr ym 1918 a Phen-y-bont ar Ogwr ym 1983, gydag Ogwr yn rhoi enwau nodedig i’r DU fel Vernon Hartshorn a Walter Padley.

Yn ogystal, gall yr enw Pen-y-bont ar yr etholaeth greu rhaniad o ystyried enw tref Pen-y-bont ar Ogwr, sy’n dynodi ei phwysigrwydd dros weddill yr etholaeth, ac er nad oes enw lle o’r enw Ogwr yn unig, ceir Cwm Ogwr, nid yw mor arwyddocaol o ran maint a phoblogaeth o gymharu â Phen-y-bont ar Ogwr i fod ag unrhyw awgrymiadau o bwysigrwydd dros y gweddill.

Yn gryno, dylid hepgor Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr (6,574) o’r etholaeth newydd a chynnwys Pencoed (7,736) a dylid galw’r etholaeth yn Ogwr neu Ben-y-bont ac Ogwr.

Diolch i chi ac ymddiheuraf yn ddiffuant am roi ymateb ‘negyddol’ ychwanegol i’r arolwg.

**BCW-10284 / [redacted] / Anhysbys**

Rwy'n pryderu bod y Torïaid wedi llygru'r holl broses hon, gan weithredu'n annidwyll ac yn ôl yr arfer er budd atal pleidleiswyr, cyffindwyllo a hunan-les pleidiol. Dylai'r gwaith hwn fod wedi'i wneud gan gorff egwyddorol o annibynnol sy'n cadw hyd braich, mewn modd cwbl agored a thryloyw. Ni ellir byth ymddiried yn y Torïaid i weithredu'n ddidwyll neu er budd y cyhoedd gan fod eu haerllugrwydd a'u hymdeimlad o hawl yn golygu mai anaml y gallant wahaniaethu rhwng hunan-les pleidiol a budd y cyhoedd. Rwy'n gobeithio y bydd llywodraeth yn y dyfodol yn lansio ymchwiliad i'r holl broses hon o adolygu ffiniau er mwyn datgelu unrhyw ddrwgweithredu a phob drwgweithredu, a gwneud argymhellion cadarn yn seiliedig ar esiamplau enghreifftiol o arferion gorau yn rhyngwladol.

**BCW-10285 / [redacted] / Wrecsam**

Ar ôl yr ymddygiad ofnadwy a welwn bob tro maen nhw'n eistedd yn Nhŷ'r Cyffredin, gorau po leiaf o ASau. Mae'n wenwynig ac yn lleihau ffydd y cyhoedd ynddynt. Mae'n ymddangos hefyd fod y farchnad ariannol a'r wasg 'effro' yn llywodraethu'r wlad.

**BCW-10286 / [redacted] / Dinbych-y-pysgod**

Dymunaf gofrestru fy ngwrthwynebiad i'r enw Saesneg arfaethedig ar gyfer etholaeth newydd "Mid and South Pembrokeshire".

Mae'n ymddangos i mi nad yw eich teitl arfaethedig yn cyd-fynd â phob etholaeth arall yng Nghymru sydd â theitl sir ac enw'r ardal i ddilyn. Er enghraifft: "Cardiff North", "Clwyd East" a "Swansea Central and North". Ym mhob teitl arfaethedig arall y sir neu'r ddinas a ddaw gyntaf – pam nid felly ar gyfer Sir Benfro?

Hyderaf y byddwch yn rhoi'r ystyriaeth lawnaf i'm cwyn ac y byddwch yn diwygio'r teitl arfaethedig hwn.

**BCW-10287 / [redacted] / Abertawe**

Symud Pontardawe i Bowys yw'r newid mwyaf aneffeithiol i'r ffiniau rwyf wedi'i weld. Byddai'n golygu y byddai'n rhaid i'r AS ar gyfer Powys ymdrin â bwrdd iechyd ar wahân (Bae Abertawe yn hytrach na Bwrdd Iechyd Addysgu Powys), rhanbarth heddlu ar wahân (De Cymru yn hytrach na Dyfed Powys) ac Awdurdod Lleol ar wahân (Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn hytrach na Phowys).

Fel rhywun sy'n byw ym Mhowys (ond ar y ffin), rwy'n fwy nag ymwybodol o'r problemau mae hyn yn eu creu. Mae Powys eisoes yn rhy fawr ac yn rhy amrywiol i'w rheoli'n effeithiol ac ni allaf weld sut bydd cyflwyno tref ôl-ddiwydiannol, sydd â mwy o gysylltiadau â Chastell-nedd ac Abertawe, yn gwella'r sefyllfa. Mae'n ymddangos mai 'tynnu llinell ar fap' yn unig yw hyn i gael y niferoedd cywir, yn hytrach nad adolygiad dilys o'r ardaloedd a'r gynrychiolaeth sydd ei hangen.

Mae hwn yn waith gwael iawn a dylid ei sgrapio.

**BCW-10288 / [redacted] / Hwlffordd**

Dyma'r syniad mwyaf chwerthinllyd i lympio gogledd Sir Benfro â Cheredigion, yn fy marn i. Pwy ar y ddaear sy'n meddwl am y syniadau gwirion hyn? Plîs gadewch i ni fod a dewch o hyd i rywbeth pwysicach i'w wneud!

**BCW-10289 / [redacted] / Cynwyd Corwen**

Mae'r newidiadau i'r argymhellion yn gwneud pethau yn waeth nag erioed i ward Edeirnion, Sir Ddinbych (hen wardiau Corwen a Llandrillo).

Edrychwch ar y map. Nid oes yr un ffordd yn arwain o ward Edeirnion i rannau eraill o'r etholaeth arfaethedig.

Mae'r cynig yma yn warthus, ac nid yw'n cynnig tegwch i bobl ward Edeirnion. Rhowch ni hefo Dwyfor Meirionnydd, lle mae nifer o'r plant yn mynd i'r ysgol, a'r boblogaeth yn cymdeithasu, gweithio a siopa, neu rhowch ni yng Nwyrain Clwyd.

**BCW-10290 / [redacted] / Corwen**

Mae'r newidiadau i'r ffiniau yn hurt. Pam cynnwys Rhiwabon ac ati gyda ni ond symud Llangollen i etholaeth arall? Byddai'n gwneud mwy o synnwyr i gynnwys Corwen a'r pentrefi cyfagos yn un a'n symud i Ddwyfor.

**BCW-10291 / [redacted] / Abertawe**

Mae'r ardal yn rhy fawr o lawer!

Ni fyddai'r AS yn gallu cynnig y gwasanaeth y mae ei (h)etholwyr yn ei haeddu!

**BCW-10292 / [redacted] / Corwen**

Nid yw hyn yn gwneud unrhyw synnwyr. Yn fy marn i, byddai bod yn rhan o Ddwyfor Meirionnydd neu Ddwyrain Clwyd yn well o lawer. Mae ward arfaethedig Maldwyn-Glyndŵr yn chwerthinllyd.

**BCW-10293 / [redacted] / Wdig**

Nid wyf yn deall pam eich bod eisiau chwalu ffiniau hanesyddol Sir Benfro. Nid yw cysylltu gogledd Sir Benfro â Cheredigion yn gwneud unrhyw synnwyr. Mae ffiniau Sir Benfro a Cheredigion wedi bodoli ers cannoedd o flynyddoedd ac maent yn adlewyrchu'r ffaith bod y bobl yn wahanol.

**BCW-10294 / [redacted] / Pontardawe**

Rwy'n teimlo ei fod yn hollol amhriodol i'm cymuned leol gael ei grwpio mewn ardal ddaearyddol mor fawr. Pa fanteision a ddaw i'r bobl yn fy nghymuned i yn sgil ailstrwythuro'r ardaloedd?

**BCW-10295 / [redacted] / Prestatyn**

Gwastraff llwyr o arian trethdalwyr unwaith eto. Sawl newid arall i'r ffiniau sydd ei angen arnom??? A'r gost a'r llanastr sy'n cyd-fynd â hynny i fodloni'r meistri gwleidyddol ar y pryd.

**BCW-10296 / [redacted] / Wrecsam**

Mae fy nghyfeiriad i'n cynnwys 'Wrecsam', sef yr ardal y dylai'r lleoliad hwn fod yn rhan ohoni. Mae'r cynnig hwn i gynnwys y lleoliad hwn fel rhan o Fachynlleth, nad ydw i hyd yn oed yn siŵr lle ydyw, yn hollol amhriodol. Rwy'n ofni y bydd y gymuned hon yn cael ei hanghofio fel rhan o'r cynnig hwn ar gyfer y ffiniau newydd, ac na fydd yn cael ei chefnogi fel y dylai fel rhan o etholaeth Wrecsam.

Nid wyf yn cytuno â'r cynnig hwn nac yn ei gefnogi.

**BCW-10297 / [redacted] / Caerfyrddin**

Rwy'n teimlo ei fod yn beth da i gael Caerfyrddin fel y dref sirol ag un AS.

**BCW-10298 / [redacted] / Pen-y-bont ar Ogwr**

Mae rhoi Porthcawl â Phort Talbot yn warthus.

Mae hyn yn nodweddiadol o'r Blaid Lafur.

Mae Llafur yn gwybod y bydd unrhyw ardal ffiniol sy'n cael ei rhoi â Phort Talbot yn cael ei llyncu ac y bydd hynny'n gwneud pleidlais y dref yn dda i ddim.

Mae hefyd yn gwanhau'r siawns o gadw'r Blaid Lafur allan o Ben-y-bont ar Ogwr.

Mae Llafur yn gwneud hyn fel na fyddant fyth yn colli'r bleidlais yng Nghymru.

**BCW-10299 / [redacted] / Corwen**

Rwy'n gwrthwynebu'r newid i'n ffiniau ac nid wyf yn deall sut y gallwn ni gael ein rhoi â Threfaldwyn! Byddai'n gwneud llawer mwy o synnwyr i ni naill ai fod yn rhan o Ddwyfor Meirionnydd neu Dde Clwyd. Mae'n chwerthinllyd sut mae pobl yn penderfynu ar y ffiniau hyn gan nad oes gennym ni unrhyw hanes na chysylltiad â Maldwyn!

**BCW-10300 / [redacted] / Corwen**

Mae'n hurt nad yw Corwen, Carrog a Glyndyfrdwy wedi'u cynnwys yn Nwyrain Clwyd, gan mai dyna ble maent wedi'u lleoli'n naturiol. Pwy sy'n gwneud y penderfyniadau gwirion hyn a pham ein rhoi ni â Sir Drefaldwyn?

**BCW-10301 / [redacted] / Aberystwyth**

Nid yw'r newid arfaethedig i Geredigion yn addas ar gyfer etholaeth fodern ac rwy'n ei wrthwynebu'n llwyr. Mae'r pellter o ogledd Ceredigion i dde Mynyddoedd y Preseli yn enfawr. Sut ar wyneb y ddaear allwn ni yn Aberystwyth ystyried ein AS etholedig yn ymgeisydd lleol? Mi fyddwn i'n dyfalu mai dim ond tua 5% o boblogaeth gogledd Ceredigion sy'n ymweld â Mynyddoedd y Preseli. Nid yn unig hynny, ond heblaw am gefn gwlad a chenedligrwydd, beth yw'r cysylltiadau rhwng gogledd Ceredigion a Sir Benfro? Anaml iawn rydym yn gweld yr AS presennol fel y mae!!! Fodd bynnag, rwy'n siŵr fod hyn oll yn gwneud synnwyr perffaith i Gaerdydd...Caerdydd...Caerdydd!

**BCW-10302 / [redacted] / Pen-y-bont ar Ogwr**

Mae'n benderfyniad twp i symud ardal Penprysg o Ogwr i Rondda Cynon Taf wrth newid y ffiniau, gan fod ein cyfeiriad post a'n holl wasanaethau yn Ogwr, Pen-y-bont ar Ogwr, felly bydd hyn yn achosi llawer o ddryswch i bobl ac nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr.

**BCW-10303 / [redacted] / Castell-nedd**

Mae hyn yn hollol warthus. Ar hyn o bryd, Cwm Tawe yw'r rhan anghofiedig o etholaeth Castell-nedd, ond byddai ein symud i Aberhonddu a Maesyfed yn drychinebus. Ni fyddem yn cael ein cynrychioli o gwbl.

**BCW-10304 / [redacted] / Alltwen**

Rwy'n anghytuno'n llwyr â symud y ffiniau. Mae gan fy merch anghenion ychwanegol ac mae'n mynd i'r ysgol yng Nghastell-nedd ond yn byw yn Alltwen. Rwyf innau'n byw yng Nghastell-nedd. Byddai hyn yn effeithio ar addysg fy mhlant ac yn golygu bod gennyf 2 blentyn dan un etholaeth ac un arall dan etholaeth ar wahân.

**BCW-10305 / [redacted] / Caernarfon**

Er mwyn sicrhau cynrychiolaeth dda mewn etholiadau ac felly democratiaeth gryfach, rwy'n credu bod rhaid i ddaearyddiaeth etholiadol gysylltu'n agos â chymunedau diwylliannol, darpariaeth gwasanaethau'n ymarferol a daearyddiaeth ffisegol sylfaenol.

Dylai Bangor aros mewn etholaeth yn debyg i Arfon-Dwyfor-Ynys Môn.

Mae gan Fangor gysylltiadau llawer cryfach o ran cymuned, gwasanaethau a thopograffeg â Chaernarfon i'r de a Bethesda i'r dwyrain nag â Llandudno i'r gogledd.

Ar ôl gweithio ym maes cynllunio defnydd tir strategol ar gyfer awdurdod lleol am flynyddoedd lawer, nid yw'r syniad o gysylltu Bangor â Llandudno at ddibenion pleidleisio yn gwneud unrhyw synnwyr o gwbl. Mae'n gadael chwa amlwg o gyffindwyllo, gan addasu'r ffiniau at ddibenion gwleidyddol a fydd yn gwanhau democratiaeth er anfantais i lawer o bobl.

**BCW-10306 / [redacted] / Pont-y-pŵl**

Dydych chi ddim yn defnyddio data cywir na chyfredol ar y boblogaeth ac fe wyddoch chi hynny.

**BCW-10307 / [redacted] / Aberdâr**

Byddwn yn erfyn yn gryf arnoch i roi'r enw Merthyr Tudful ac Aberdâr i'n hetholaeth newydd, yn hytrach na Merthyr Tudful a Chynon Uchaf.

Mae'n fwy cryno a byddai'n dynodi'r etholaeth yn fwy effeithlon nag unrhyw gyfeiriad diystyr at "Cynon Uchaf", nad oes iddo unrhyw ddilysrwydd hanesyddol.

Mae gan Aberdâr hanes seneddol balch. Ar un adeg, roedd yn rhan o etholaeth Merthyr Tudful a wasanaethwyd gan Keir Hardie, felly mae cynsail hanesyddol.

Byddai'n plesio llawer o bobl yn Aberdâr i weld enw'r dref yn cael ei gydnabod yn y ffordd hon, gan fod Aberdâr yn etholaeth seneddol ynddo'i hun ar un adeg.

Yn ddaearyddol, mae Aberdâr yn cyd-fynd yn union â'r ardal sy'n cael ei chwmpasu gan yr hyn rydych chi'n ei alw'n "Cynon Uchaf". Am y rhesymau hyn, byddai'n ddewis llawer mwy priodol o ran enw.

Diolch yn fawr - [redacted]

**BCW-10308 / [redacted] / Caerdydd**

Gadewch lonydd – nid yw'n cyfiawnhau'r gwariant sy'n mynd law yn llaw â newid arall!

**BCW-10309 / [redacted] / Pont-y-clun**

O ystyried ein bod mewn cyfnod o gyni eithafol a'n bod wedi cael gwybod bod y cyni hwn yn debygol o effeithio ar y gyllideb, rwyf o'r farn bod rhaid gwneud arbedion, nid yn unig gan drigolion pob rhanbarth/ardal, ond gan y rhai sy'n honni eu bod yn llywodraethu yn ein henw hefyd, beth bynnag fo'u gwleidyddiaeth neu swydd. Bydd y newidiadau hyn yn golygu cynnydd sylweddol i gostau pobl anweithredol ac yn effeithio ar anghenion gwirioneddol trigolion Cymru!

Mae galw am gynildeb yn hytrach nag ehangu'n fiwrocrataidd. Os yw Cymru am dynnu ei hun allan o'r sefyllfa y mae ynddi ar hyn o bryd a sefydlu dyfodol llwyddiannus i BOB dinesydd a chenhedloedd y dyfodol, rhaid diwygio'r cynlluniau i fynd i'r afael â hyn. Caiff y dyfodol ei ddinistrio trwy symud cyfrifoldeb ymhellach oddi wrth y rhai sy'n gyfrifol am ei sicrhau!

**BCW-10310 / [redacted] / Pontypridd**

Stopiwch ymyrryd.

Gadewch bethau fel y maent.

Nid oes unrhyw gyfiawnhad go iawn am fwy o newid eto fyth.

**BCW-10311 / [redacted] / Castell-nedd**

Rwy'n gwrthwynebu'r cynigion cyfredol. Does bosib ei fod yn gywir cynnwys rhan o etholaeth mewn cyngor cyfagos pan nad yw ardal sy'n cysylltu ei hun yn draddodiadol â Chastell-nedd, sef Sgiwen, lle mae'r rhan fwyaf o bobl yn ystyried eu hunain yn rhan o Gastell-nedd yn hytrach na Phort Talbot (Bwrdeistref Sirol Castell-nedd gynt), wedi'i chynnwys. Mae'r ffin yn hepgor Sgiwen ac yn cynnwys rhan o Gyngor Dinas Abertawe – mae'n wallgof. Mae'n amlwg nad oes gan yr unigolyn a luniodd y ffiniau arfaethedig hyn unrhyw gysylltiad â'r ardal. Byddai'n anodd iawn i AS gynrychioli dwy ardal wahanol mewn siroedd gwahanol. Mae'n hurt bost.

**BCW-10312 / [redacted] / Llanrwst**

Fel un o drigolion Llanrwst, rwy'n gwrthwynebu cynnwys Aberconwy gyda Bangor. Yn hanesyddol ac yn ddiwylliannol, nid oes unrhyw gysylltiad â Bangor, nac yn wir â gorllewin Sir Gaernarfon. Yn wir, yn y gorffennol, bu'r dref farchnad hynafol hon yn rhan o Sir Ddinbych ac mae ei gwreiddiau hanesyddol yn fwy yn y fan honno. Fodd bynnag, mae wedi'i lleoli yn Nyffryn Conwy felly, yn ddaearyddol, mae'n briodol ei chynnwys â Chonwy. Fodd bynnag, ni allaf weld unrhyw gyfiawnhad o gwbl dros ehangu'r ffin bresennol a'i hymestyn mor bell i'r gorllewin ar draws gogledd Cymru i Fangor i leihau cynrychiolaeth seneddol. Yn wir, byddwn yn mynd ymhellach ac yn dweud bod angen MWY o etholaethau ar Gymru, nid llai. Mae Llywodraeth y DU wedi aflonyddu digon ar gymunedau hanesyddol Cymru dros y blynyddoedd trwy 'ailwampio'r' ffiniau a newid eu henwau i foddio eu hagendâu gwleidyddol. Beth nesaf? Lleihau nifer yr etholaethau yn fwy fyth a gwneud Cymru'n un etholaeth?

**BCW-10313 / [redacted] / Aberdâr**

Ni ddylai Cwm Cynon gael ei rannu a dylem aros mewn un etholaeth. Un cwm ydym ni a dylid ein trin felly. Mae gwneud hyn yn wahaniaethol. Gadewch y cwm ynghyd i ymuno naill ai â Merthyr neu Bontypridd, gan y byddwn yn cael ein trin fel perthynas dlawd os caniateir i hyn fynd rhagddo. Nid oes angen y camddarluniad hwn o gwbl; cadwch Gwm Cynon ynghyd.

Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr i wneud hyn ac mae'n annheg iawn i breswylwyr Cwm Cynon gael eu trin mor annheg.

**BCW-10314 / [redacted] / Borth**

Rwy'n anghytuno'n gryf. Mae Ceredigion eisoes yn amrywiol, gyda'r de â chysylltiadau â de Cymru a'r gogledd â chod post Yr Amwythig a chysylltiadau â Machynlleth. Bydd cryfhau'r cysylltiad â de Cymru yn debyg i'r hen Ddyfed, pan gymerwyd adnoddau o ganolbarth a gogledd y sir, roedd arian yn cael ei dynnu a gosodwyd disgwyliadau amhriodol ar yr awdurdod lleol. Aberystwyth ddylai fod yn brifddinas Cymru. Machynlleth oedd hen brifddinas Cymru. Pan mae'r bwrdd iechyd yn galw canolbarth Cymru'n ymylol, rydym ni'n gwybod ein bod wedi colli ein llais yn barod. Gallai Ceredigion gynnwys Machynlleth, ond peidiwch â gwneud canolbarth Cymru hyd yn oed yn fwy difreintiedig trwy'r cyffindwyllo hwn.

**BCW-10315 / [redacted] / Y Drenewydd**

Rwyf o blaid ffiniau newydd Maldwyn a Glyndŵr.

**BCW-10316 / [redacted] / Dinas Powys**

Rwy’n byw yn Ninas Powys, sy’n eistedd yn naturiol â Bro Morgannwg yn hytrach na Grangetown, Y Bae a Thremorfa. Rwy’n amau mai math o gyffindwyllo yw hyn i sicrhau gweinyddiaeth Lafur barhaol.

**BCW-10317 / [redacted] / Y Rhyl**

Mae gennyf bryderon am ffin Dwyrain Clwyd. Er bod y ffin yn debyg iawn i ffin yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, mae’n fawr yn ddaearyddol a bydd yn cyfyngu ar gynrychiolaeth gan un AS. Mae gan rai o’r cymunedau yn ne’r ardal arfaethedig nodweddion hollol wahanol i’r gogledd, a bydd swyddog etholedig yn cael ei dynnu rhwng safbwyntiau gwahanol ei etholwyr. Mae anghydbwysedd gwleidyddol amlwg hefyd, a fydd yn golygu bod yr ardal yn un Geidwadol yn bennaf – mae bron yn teimlo fel petai’r ffiniau’n cael eu pennu am resymau gwleidyddol.

Dewis arall i’r ffin hon fyddai rhannu’r ardal yn Ninbych. Os bydd yr etholaeth arfaethedig hon yn sefyll, bydd yn croesi ffiniau sirol a bydd dryswch o ran ffiniau Aelodau o’r Senedd hefyd. Felly, efallai y byddai’n werth edrych ar y ffiniau sirol unwaith eto a rhoi Trelawnyd a Gwaenysgor yn ôl yn Sir Ddinbych. Mae cynrychiolaeth wleidyddol eisoes yn peri dryswch heb yr ystyriaeth ychwanegol hon.

**BCW-10318 / [redacted] / Rhydaman**

Mae'r cynnig ar gyfer Aberhonddu yn chwerthinllyd. Rydym ni eisoes yn cael trafferth ag opsiynau ailgylchu gan ein bod ar ffin Castell-nedd Port Talbot, sy'n golygu bod rhaid i ni ddefnyddio canolfan ailgylchu sydd tua 30 munud i ffwrdd mewn car, neu i gael gwared ar fwrdd plastr mae'n rhaid i ni fynd i Bort Talbot, sydd 40 munud i ffwrdd. Byddai'r newid hwn yn golygu bod rhaid i ni fynd trwy Aberhonddu i gael gwared ar fwrdd plastr, sydd dros awr i ffwrdd ac yn ein gorfodi i yrru trwy Fannau Brycheiniog i gyrraedd yno. Rydym ni eisoes yn cael trafferth â dryswch yn ymwneud â'r Bwrdd Iechyd, gan fod y meddygfeydd ym Mhowys a/neu Sir Gâr yn bennaf, felly mae'n rhaid i ni deithio awr i ysbyty yn Sir Gâr yn hytrach nag 20 munud i'r un yn Abertawe. Rydym ni eisoes yn cael trafferth â diffyg gwasanaethau bws i Bontardawe neu Abertawe, sef ein trefi mawr agosaf, ac rydym eisoes yn cael trafferth manteisio ar wasanaethau cyhoeddus lleol oherwydd ein lleoliad ar y ffin rhwng cynghorau Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Powys a Sir Gâr. Mae Parc Cenedlaethol enfawr rhyngom ni ac Aberhonddu, mae'n cymryd dros awr i yrru yno, sef 33 milltir i ffwrdd sy'n weddol bell, mae'n amhosibl cyrraedd yno ar drafnidiaeth gyhoeddus ac nid oes ganddi unrhyw hanes o gwbl â ni. Ar y llaw arall, rydym ni 15 milltir i'r gogledd o Abertawe, 11 milltir i'r gogledd o Bontardawe, 5 milltir i'r dwyrain o Rydaman, 20 milltir i'r gogledd-ddwyrain o Lanelli, 13 milltir i'r gogledd o Gastell-nedd... mae hyn yn hurt bost! Dylai ffin ddeheuol Bannau Brycheiniog ffurfio ffin isaf etholaeth Aberhonddu. Nid yw symud y ffin mor bell i'r de â hyn yn gwneud unrhyw synnwyr o gwbl! Rydym yn byw mewn ardal sydd â chysylltiadau cymdeithasol a hanesyddol agos iawn ag Abertawe, Castell-nedd a Llanelli, lle mae tir trefol, adeiladau, pentrefi poblog, diwydiant, busnes ac ati bob milltir neu ddwy yn ddi-ffael yr holl ffordd i Rydaman, Llanelli, Abertawe a Chastell-nedd, ond rydych chi'n cynnig ein symud i etholaeth sydd â 30 milltir o barc cenedlaethol a mynyddoedd llythrennol rhyngom ni a'r ardal rydych am i ni fod yn rhan ohoni!

**BCW-10319 / [redacted] / Pontardawe**

Rwy'n ysgrifennu atoch i fynegi pryderon am y cynnig i drosglwyddo sawl ward sydd yn etholaeth Castell-nedd ar hyn o bryd i etholaeth Aberhonddu a Maesyfed. Nid oes unrhyw gysylltiad hanesyddol rhwng yr ardaloedd hyn a Sir Frycheiniog, ac rwy'n teimlo y byddai unrhyw newid tebyg yn difreinio etholwyr yn fy ardal i.

**BCW-10320 / [redacted] / Pen-y-bont ar Ogwr**

Rwy'n cytuno â'r newidiadau arfaethedig i'r ffiniau sy'n effeithio ar fy etholaeth i alluogi'r gostyngiad yn nifer yr etholaethau.

**BCW-10321 / [redacted] / Abertawe**

Bydd creu ‘Gŵyr a Gorllewin Abertawe’ (sy’n uno 2 etholaeth bresennol sylweddol wahanol, mewn gwirionedd – un wledig ac un drefol) yn golygu, ar unrhyw adeg benodol, na fydd tua 50% o’r etholwyr yn cael eu cynrychioli. Rwy’n tybio bod anghenion a blaenoriaethau trigolion Gŵyr yn wahanol iawn i anghenion trigolion trefol. Ni fyddai unrhyw ddarpar AS yn gallu cydbwyso’r cyferbyniadau hyn yn ddigonol a chynrychioli ei etholwyr yn effeithiol.

Mae’r cyfuniad gwrthnysig hwn o etholwyr gwledig a threfol wedi’i ailadrodd wrth greu ‘Canol a Gogledd Abertawe’ – rwy’n cael trafferth gweld sut y gellir bodloni anghenion y rhai sy’n byw yn Llwyn-gweno ar yr un pryd ag anghenion y rhai sy’n byw yn Uplands.

Mae uno ochr ddwyreiniol Abertawe i gyd â Chastell-nedd yn hurt bost – bydd yr etholaeth yn croesi dau gyngor, sydd eisoes yn gwneud pethau’n wahanol iawn i’w gilydd.

**BCW-10322 / [redacted] / Pontardawe**

Hoffwn gofnodi fy ngwrthwynebiad i'r ailstrwythuro arfaethedig i'r ffiniau, a fyddai'n gweld Alltwen/Pontardawe, sy'n rhan o Gastell-nedd Port Talbot ar hyn o bryd, yn dod yn rhan o Aberhonddu a Maesyfed yn lle hynny.

Rwy'n caru Aberhonddu. Mae'n rhan brydferth iawn o Gymru. Nid oes gennyf unrhyw beth yn ei herbyn fel ardal, ond sut gellir cyfuno dwy ardal sydd â safbwyntiau gwleidyddol mor wahanol? Mae Aberhonddu yn ardal Geidwadol yn draddodiadol ac Alltwen/Pontardawe yn ardal Lafur yn draddodiadol. Mae'n ymddangos yn wallgof y bydd un o'r ardaloedd hynny'n cael ei gwasanaethau gan blaid wleidyddol nad yw'n cynrychioli ei safbwyntiau gwleidyddol, yn fwy na thebyg.

Rwy'n poeni'n fawr y byddai gennym awdurdod lleol gwahanol i'r etholaeth ar gyfer etholiadau San Steffan, felly gallem fod ag AS Ceidwadol wedi'i ddewis gan ffermwyr ac ati yn Aberhonddu a Maesyfed, ond cyngor a chynghorwyr lleol mwy sosialaidd.

Rwyf ar ddeall y mynegwyd pryderon am gyffindwyllo gan y Torïaid, gan y byddai'r cynigion hyn, o edrych ar dueddiadau pleidleisio hanesyddol, yn arwain at fwy o gadarnleoedd Torïaidd trwy ddiddymu seddi traddodiadol Llafur neu Blaid.

Mae gan yr ardaloedd wahaniaethau enfawr o ran diwylliant, diwydiant a hanes.

Mae gan Allt-wen/Pontardawe fwy yn gyffredin â Chastell-nedd ac Abertawe na gororau Cymru.

Rwyf o'r farn bod hyn yn hollol groes i ewyllys y ddwy ardal ac y dylid cael gwared ar y newidiadau enfawr hyn ar unwaith.

**BCW-10323 / [redacted] / Rhisga**

Felly, mae'n bosibl y bydd yn digwydd ar ôl yr holl flynyddoedd o fyfyrio, bydd Rhisga (a'r ardaloedd cyfagos) yn cael eu huno â Chasnewydd.

Amser a ddengys sut bydd hyn yn effeithio arnom.

**BCW-10324 / [redacted] / Pontardawe**

Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr i roi Pontardawe gydag Aberhonddu a Maesyfed – rydym ni mor wahanol i ganol Brycheiniog.

Mae Pontardawe'n ffurfio rhan o Gyngor Bwrdeistref Sirol gwahanol, heddlu gwahanol a bwrdd iechyd gwahanol i'r mwyafrif o ardal etholaeth wreiddiol Aberhonddu a Maesyfed.

Fel ardal ôl-ddiwydiannol, mae Cwm Tawe yn wynebu problemau sy'n llawer mwy cyffredin â Chwm Nedd nag ardal Powys, sy'n wledig yn bennaf.

Mae gennym lawer mwy yn gyffredin ag Abertawe (neu Gastell-nedd, mae'n siŵr) nag sydd gennym ag ardal wledig Aberhonddu a Maesyfed.

Rwy'n tybio bod Pontardawe wedi'i hychwanegu i roi XX,XXX miloedd o bobl yn yr etholaeth arfaethedig.

Hoffwn gofnodi fy ngwrthwynebiad i'r cynnig hwn.

**BCW-10325 / [redacted] / Pont-y-clun**

Rwy'n gwerthfawrogi y mae'n rhaid ei fod yn anodd i bobl nad ydynt yn rhan o gymuned ddeall sut mae cymuned leol wedi'i gogwyddo. Caiff hyn ei waethygu yng Nghymru os nad yw'r rhai sy'n darllen y mapiau yn deall cyfuchliniau a'r ddaearyddiaeth ffisegol a hanesyddol.

A ydynt wedi dod o hyd i unrhyw un ym Mhont-y-clun sy'n ystyried ei hun yn un o ddinasyddion Caerdydd, neu unrhyw un yn Llanhari, Pont-y-clun sy'n credu ei fod yn byw yn y Rhondda? Pam rhoi ffin rhwng Llanhari a Phont-y-clun pan mae ganddynt yr un cod post ac maent yn defnyddio'r un siopau?

Mae'n rhaid i chi roi ffin rywle, ond mae'n edrych fel nad oes gan y rhai sy'n gwneud y cynigion hyn fawr o ddealltwriaeth o sut mae gan y bobl hyn "ymdeimlad o berthyn".

**BCW-10326 / [redacted] / Abertawe**

Mae gennyf bryderon mawr am ychwanegu Rhos, Alltwen a Phontardawe (Cwm Tawe) at Aberhonddu a Maesyfed. Rwy'n gweithio ar draws Abertawe, Castell-nedd a Phowys ac ni allai'r cymunedau fod yn fwy gwahanol.

Felly, ni fyddai cynrychiolydd etholedig ar gyfer yr ardal gyfun hon yn gallu adlewyrchu a chynrychioli safbwyntiau'r cymunedau hyn yn gywir – mae gan Aberhonddu a Maesyfed bocedi llawer mwy o gyfoeth a phoblogaeth lawer hŷn o gymharu â Chwm Tawe. Mae Aberhonddu yn arbennig yn dibynnu'n drwm ar letygarwch i greu incwm ac mae'r ystyriaethau a'r trafferthion sy'n cael eu teimlo yn wahanol iawn i rai'r cymoedd. Mae hanes diwydiannol a glofaol Cwm Tawe yn wahaniaeth amlwg arall e.e. roedd trychineb pwll glo'r Gleision bron i 11 mlynedd yn ôl yng nghymuned Cilybebyll, ac mae'n wahanol iawn. Mae gennym fwy yn gyffredin ag Abertawe a Chastell-nedd. Mae cipolwg ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn dangos hyn. Mae'r dull hwn yn ymddangos yn ddi-drefn iawn, yn fy marn i, ac nid wyf yn cefnogi'r cynnig hwn.

**BCW-10327 / [redacted] / Caersŵs**

Mae'r ardal newydd ar gyfer Maldwyn a Glyndŵr yn od iawn.

Pam mae cymaint o newid o ran geometreg a chymeriad yn y 'talp' yng ngogledd-ddwyrain yr ardal newydd hon? Mae Wrecsam ac i'r de-orllewin ohoni wedi'u rhannu'n ddarnau.

Nid yw arferion pleidleisio canolbarth Cymru yn debyg i rannau o Wrecsam, sydd â chysylltiadau â hen ddiwydiannau a thraddodiadau.

Rwy'n awgrymu y dylid edrych ar hyn eto. Ar hyn o bryd, nid wyf yn cytuno â'r ffiniau newydd.

**BCW-10328 / [redacted] / Llanilltud Faerdref**

Rwy'n anghytuno â lleihau nifer y seddi o 40 i 32 yng Nghymru.

Mae'n golygu y bydd llai o lais i Gymru yn San Steffan, gyda'r posibilrwydd y cawn ni ein hanwybyddu ymhellach. Efallai mai dyna yw eu bwriad. I ble fydd hynny'n arwain? A fydd gan Gymru 1 sedd yn unig yn San Steffan yn y pen draw? A yw'n arwain at ddiddymu Senedd Cymru a Chymru'n dod yn rhan o Loegr yn y pen draw? Mae'n amhosibl meddwl am hynny.

Nid wyf yn cytuno â'r awgrym bod y ffiniau wedi'u penderfynu yn ôl cyfrif pennau. Bydd angen i'r bobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwy tenau eu poblogaeth deithio ymhellach os oes angen iddynt ymweld â chymhorthfa'r AS. Mae angen mwy o seddi, nid llai.

**BCW-10329 / [redacted] / Castell-nedd**

Mae Sgiwen yn rhan o Gastell-nedd, gan mai dyna ein tref agosaf.

**BCW-10330 / [redacted] / Crucywel**

Unwaith eto, mae Cymru'n cael ei thwyllo gan y Blaid Geidwadol. Am ffordd dda i gael gwared ar ambell i sedd felltith nad yw'n Geidwadol. Mae Cymru'n wahanol i lawer o weddill y DU, gan fod ganddi ardaloedd mawr llai dwys eu poblogaeth ac ychydig o ardaloedd trefol/diwydiannol mwy dwys o lawer. Yn y gorffennol, mae hyn wedi arwain at rai etholaethau afresymegol er mwyn ceisio cadw nifer yr etholaethau yn rhesymol. Mae lleihau'r nifer gyffredinol yn sylweddol, a hynny ar sail mathemateg yn unig, yn gwneud hynny'n waeth o lawer. Mae Aberhonddu a Maesyfed yn enghraifft dda o hyn, gan ei bod yn ardal wledig enfawr a gwasgarog gan mwyaf, ond o leiaf mae rhywfaint o unffurfiaeth o ran ei chymeriad (gwledig/ffermio), hyd yn oed os yw Rhaeadr Gwy filltiroedd i ffwrdd ac nad yw'n berthnasol iawn i Grucywel, er enghraifft. Serch hynny, dan yr hen system, roedd Ystradgynlais wedi'i hychwanegu at yr etholaeth fel pigyn anghysbell, er nad yw hynny'n gwneud unrhyw synnwyr o gwbl gan ei bod wedi'i gwahanu gan fwlch mawr ac mae iddi gymeriad hollol wahanol i weddill y gogledd. Nawr, mae hyd yn oed mwy o Gwm Tawe, hyd yn oed ymhellach i lawr y pigyn anghysbell hwn, wedi'i ychwanegu. Felly, mae'r gwiriondeb cyfredol yn cael ei waethygu er mwyn ceisio cadw at ddull mathemategol llym nad oes ganddo unrhyw berthynas â'r realiti ar lawr gwlad. Yn hytrach na bod yn rhan o'r ffolineb hwn, dylai'r Comisiwn Ffiniau i Gymru gyndynnu a mynnu y gellir cyfiawnhau defnyddio etholaethau gwarchodedig mewn sawl lle yng Nghymru er mwyn cael canlyniadau synhwyrol ac amddiffynadwy. Mae Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe yn methu ar bob cyfrif a does bosib y gellir ei chyflwyno fel un etholaeth. Ni fydd trigolion Cwm Tawe yn cael eu gwasanaethu'n dda gan y cynnig hwn a rhaid ei wrthod fel ateb. Wn i ddim sut y gellir cysoni hynny ag unrhyw beth arall, gan fod y dull mathemategol llym, nad yw'n rhoi unrhyw ystyriaeth i ddwysedd na maint/cymeriad, wedi'i wthio arnom ac wedi arwain at benderfyniadau amhosibl. Yn syml, ni ddylid gwneud y penderfyniadau hyn os nad oes modd eu cyfiawnhau. Dylai fod yn Aberhonddu a Maesyfed ac ni ddylai unrhyw ran o Gwm Tawe gael ei chynnwys.

**BCW-10331 / [redacted] / Pen-y-bont ar Ogwr**

Nid wyf am i Bencoed fod yn rhan o ardal y Rhondda. Hoffwn i aros o fewn CBS Pen-y-bont ar Ogwr.

**BCW-10332 / [redacted] / Llandudno**

Mae'r cynnig hwn yn ofnadwy. Mae angen mwy o gynrychiolaeth ar Gymru yn San Steffan, nid llai. Byddai hyn yn lleihau cyfanswm yr ASau yng Nghymru ac yn cael effaith niweidiol ar Gymru. Rwy'n gwrthwynebu hyn yn gryf.

**BCW-10333 / [redacted] / Caerffili**

Cadwch y ffiniau fel y maent gan eu bod yn gweddu'r cymunedau sy'n bodoli.

**BCW-10334 / [redacted] / Ystradgynlais**

Mae cynnwys Pontardawe ac Ystalyfera yn Aberhonddu a Maesyfed yn ffolineb llwyr. Nid oes gan yr ardaloedd hyn unrhyw beth yn gyffredin â chymunedau ffermio gwledig ym Mhowys. Mae angen newid hyn gan fod eu hanghenion yn hollol wahanol i'w gilydd!

**BCW-10335 / [redacted] / Altrincham**

Rwy’n synnu bod etholaeth arfaethedig Maldwyn a Glyndŵr wedi’i chadw yn y cynigion diwygiedig. Fel y nodais yn fy nghyflwyniad gwreiddiol ar gyfer gogledd Cymru (BCW-9002), nid oes unrhyw gysylltiadau trafnidiaeth uniongyrchol rhwng y ddwy ran o’r etholaeth hon. Fel y crybwyllwyd gan ymatebwyr eraill hefyd, gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd dan BCW-9622 (t.15 y ddogfen PDF gyntaf) a BCW-10070 (t.19), mae Mynyddoedd y Berwyn yn ffurfio gwahanfur naturiol. Yr unig ffordd o deithio rhwng y ddwy ran yw mynd trwy Groesoswallt yn Sir Amwythig (nad yw yng Nghymru hyd yn oed!). A dweud y gwir, mae’r cynigion diwygiedig yn waeth fyth na’r cynigion gwreiddiol, gan fod Corwen wedi’i gwahanu oddi wrth weddill “Glyndŵr” erbyn hyn, gan i Langollen gael ei symud i Ddwyrain Clwyd.

Er mwyn cywiro’r diffyg difrifol hwn yng nghyfansoddiad yr etholaethau yng ngogledd Cymru, roedd y tri chyflwyniad yn argymell creu etholaeth Maldwyn a Meirionnydd. Nodaf for y Comisiynwyr Cynorthwyol wedi argymell hyn, ond bod eu cynnig yn cynnwys rhan o Glyndŵr o hyd i ddigolledu am gynnwys rhannau o sedd bresennol Sir Drefaldwyn yn sedd ddiwygiedig Aberhonddu a Maesyfed (canolbarth a de Powys – y mae’r Comisiwn, yn gywir yn fy marn i, wedi’i gwrthod). Mae’r effaith ganlyniadol ar weddill yr ardal yn arwain at etholaethau gwell, efallai heblaw gorfod gwahanu tref Wrecsam oddi wrth yr ardaloedd adeiledig i’r gogledd a’r gorllewin.

Yn ei adroddiad (t.139, paragraff 22.3), dywed y Comisiwn y cafodd “gryn gefnogaeth i’r cynnig cychwynnol; roedd y gefnogaeth hon yn canolbwyntio ar gadw etholaeth bresennol Montgomeryshire.” Fodd bynnag, rwy’n amau na fyddai preswylwyr Y Waun, er enghraifft, wedi cefnogi cyfansoddiad yr etholaeth hon. Hefyd, “Dywedodd llawer o’r ymatebwyr fod gan Sir Drefaldwyn gysylltiadau da â’r ardaloedd yn Ne Clwyd i’r gogledd o’r etholaeth bresennol.” Nid wyf yn siŵr beth yw’r cysylltiadau hyn a pha dystiolaeth a gyflwynwyd i gadarnhau’r datganiad hwn, gan mai cadwyn o fynyddoedd yw’r ffin rhwng y ddwy ardal!

Cyfeiriaf at fy nghyflwyniad gwreiddiol, yr wyf wedi’i ai-atodi, ynghyd â map ategol o’r ap *Boundary Assistant*. Wrth gwrs, gellir addasu’r rhain yn ôl yr angen i ystyried cysylltiadau lleol. Fodd bynnag, y prif bwynt yw bod Sir Drefaldwyn yn rhan o un etholaeth o hyd, er ei bod wedi’i hehangu.

Rwy’n erfyn ar y Comisiwn i ailystyried cyfansoddiad yr etholaethau yn yr ardal hon, hyd yn oed mor hwyr â hyn yn y broses.

Mae etholaeth arfaethedig Maldwyn a Glyndŵr yn ddiffygiol, gan nad oes unrhyw gysylltiadau trafnidiaeth uniongyrchol rhwng y rhan ym Mhowys (etholaeth bresennol Sir Drefaldwyn) a'r rhan yng nghyngor Wrecsam (rhan o etholaeth bresennol De Clwyd). I unioni hyn, rwy'n cynnig y dylid cyfuno Sir Drefaldwyn â Meirionnydd (rhan o etholaeth bresennol Dwyfor Meirionnydd), ac y dylid ychwanegu "Glyndŵr" at etholaeth Wrecsam. Mae hyn yn arwain at newidiadau sylweddol i'r etholaethau arfaethedig eraill yng ngogledd Cymru.

I ddisodli etholaethau arfaethedig y Comisiwn, sef Aberconwy, Alun a Glannau Dyfrdwy, Clwyd, Delyn, Dwyfor Meirionnydd, Maldwyn a Glyndŵr, a Wrecsam, rwy'n cynnig y canlynol:

1. Aberconwy – yn cynnwys Bwrdeistref Sirol Conwy i gyd, ac eithrio wardiau Bryn, Capelulo, Pandy a Phant-yr-afon/Penmaenan yng ngogledd-orllewin y fwrdeistref, a wardiau Bae Cinmel, Llansannan a Thywyn yn nwyrain y fwrdeistref.

2. Alun – yn cynnwys:

(i) y wardiau canlynol yn Sir y Fflint sydd yn etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy ar hyn o bryd: Brychdyn (2 ward), Bwcle (4 ward), Pentrobin, Caergwrle, Kinnerton Uchaf, Yr Hôb, Llanfynydd, Penyffordd a Threuddyn;

(ii) y wardiau canlynol yn Sir y Fflint sydd yn etholaeth Delyn ar hyn o bryd: Argoed, Gwernaffield, Gwernymynydd, Coed-llai, Yr Wyddgrug (4 ward) a New Brighton;

(iii) y wardiau canlynol ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam sydd yn etholaeth Wrecsam ar hyn o bryd: Gwersyllt (3 ward), Llai ac Yr Orsedd; a'r

(iv) wardiau canlynol ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam sydd yn etholaeth De Clwyd ar hyn o bryd: Brymbo, Bryn Cefn, Coedpoeth, Gwenfro, Y Mwynglawdd a New Broughton.

3. Delyn a Glannau Dyfrdwy – yn cynnwys y wardiau hynny yn Sir y Fflint nad ydynt wedi'u cynnwys yn etholaeth arfaethedig Alun.

4. Dwyfor, Arfon a Chonwy – yn cynnwys:

(i) y wardiau canlynol yn sir Gwynedd sydd yn etholaeth Dwyfor Meirionnydd ar hyn o bryd: Aberdaron, Abererch, Abersoch, Botwnnog, Clynnog, Criccieth, Dolbenmaen, Efail-newydd/Buan, Llanaelhaearn, Llanbedrog, Llanengan, Llanystumdwy, Morfa Nefyn, Nefyn, Penrhyndeudraeth, Porthmadog (3 ward), Pwllheli (2 ward) a Thudweiliog;

(ii) y wardiau hynny yn sir Gwynedd sy'n cynnwys etholaeth bresennol Arfon yn ei chyfanrwydd; a

(iii) wardiau Bryn, Capelulo, Pandy a Phant-yr-afon/Penmaenan ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

5. Maldwyn a Meirionnydd – yn cynnwys:

(i) y wardiau hynny yn sir Powys sy’n cynnwys etholaeth bresennol Sir Drefaldwyn yn ei chyfanrwydd; a’r

(ii) wardiau yn sir Gwynedd nad ydynt wedi’u cynnwys yn etholaethau arfaethedig Dwyfor, Arfon a Chonwy.

6. Dyffryn Clwyd – yn cynnwys:

(i) Sir Ddinbych yn ei chyfanrwydd, ac eithrio wardiau Corwen, Llandrillo a Llangollen; a

(ii) wardiau Bae Cinmel, Llansannan a Thywyn ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

7. Wrecsam a Glyndŵr – yn cynnwys:

(i) y wardiau hynny ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam nad ydynt wedi’u cynnwys yn etholaeth arfaethedig Alun; a

(ii) wardiau Corwen, Llandrillo a Llangollen yn Sir Ddinbych.

Mae hyn yn cysylltu tref Wrecsam ag ardal “Glyndŵr”, y mae’r Comisiwn yn cynnig ei chynnwys â Maldwyn. Mae fy nghynnig i’n darparu cysylltiadau trafnidiaeth llawer gwell rhwng y ddwy brif dref, sef Wrecsam a Llangollen.

Rwyf o’r farn bod fy nghynigion i’n darparu cyfluniad gwell o’r etholaethau yng ngogledd Cymru, o gymharu â chynigion y Comisiwn.

Atodaf daenlen yn dangos fy nghynigion ar gyfer etholaethau yng ngogledd Cymru, gan gynnwys y wardiau a nifer yr etholwyr.

| Etholaeth | Ward | Awdurdod lleol | Etholwyr |
|---|---|---|---|
| **Etholaeth Sirol Aberconwy** | | | **76,277** |
| | Abergele Pensarn | Conwy | 1,959 |
| | Betws yn Rhos | Conwy | 1,623 |
| | Betws-y-coed | Conwy | 967 |
| | Caerhun | Conwy | 1,677 |
| | Colwyn | Conwy | 3,373 |
| | Conwy | Conwy | 3,295 |
| | Craig-y-Don | Conwy | 2,685 |
| | Crwst | Conwy | 1,581 |
| | Deganwy | Conwy | 3,289 |
| | Eglwysbach | Conwy | 1,257 |
| | Eirias | Conwy | 2,800 |
| | Gele | Conwy | 3,997 |
| | Glyn | Conwy | 3,088 |
| | Gogarth | Conwy | 2,795 |
| | Gower | Conwy | 850 |
| | Llanddulas | Conwy | 1,353 |
| | Llandrillo yn Rhos | Conwy | 6,110 |
| | Llangernyw | Conwy | 1,104 |
| | Llansanffraid | Conwy | 1,814 |
| | Llysfaen | Conwy | 1,906 |
| | Marl | Conwy | 3,539 |
| | Mochdre | Conwy | 1,425 |
| | Mostyn | Conwy | 2,758 |
| | Penrhyn | Conwy | 3,874 |
| | Pensarn | Conwy | 2,274 |
| | Pentre Mawr | Conwy | 2,861 |
| | Rhiw | Conwy | 4,991 |
| | Trefriw | Conwy | 1,026 |
| | Tudno | Conwy | 3,591 |
| | Uwch Conwy | Conwy | 1,276 |
| | Uwchaled | Conwy | 1,139 |
| **Etholaeth Sirol Alun** | | | **73,721** |
| | Argoed | Sir y Fflint | 2,167 |
| | Gogledd-ddwyrain Brychdyn | Sir y Fflint | 1,723 |
| | De Brychdyn | Sir y Fflint | 3,325 |
| | Bwcle: Dwyrain Bistre | Sir y Fflint | 2,653 |
| | Bwcle: Gorllewin Bistre | Sir y Fflint | 3,182 |
| | Mynydd Bwcle | Sir y Fflint | 2,555 |
| | Bwcle: Pentrobin | Sir y Fflint | 4,181 |
| | Caergwrle | Sir y Fflint | 1,225 |
| | Gwernaffield | Sir y Fflint | 1,646 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gwernymynydd | Sir y Fflint | 1,399 |
| | Kinnerton Uchaf | Sir y Fflint | 1,373 |
| | Yr Hôb | Sir y Fflint | 2,042 |
| | Coed-llai | Sir y Fflint | 1,627 |
| | Llanfynydd | Sir y Fflint | 1,483 |
| | Yr Wyddgrug: Broncoed | Sir y Fflint | 2,134 |
| | Dwyrain yr Wyddgrug | Sir y Fflint | 1,556 |
| | De'r Wyddgrug | Sir y Fflint | 2,201 |
| | Gorllewin yr Wyddgrug | Sir y Fflint | 1,956 |
| | New Brighton | Sir y Fflint | 2,414 |
| | Penyffordd | Sir y Fflint | 3,543 |
| | Treuddyn | Sir y Fflint | 1,346 |
| | Brymbo | Wrecsam | 3,021 |
| | Bryn Cefn | Wrecsam | 1,543 |
| | Coedpoeth | Wrecsam | 3,482 |
| | Gwenfro | Wrecsam | 1,217 |
| | Dwyrain a De Gwersyllt | Wrecsam | 3,601 |
| | Gogledd Gwersyllt | Wrecsam | 1,995 |
| | Gorllewin Gwersyllt | Wrecsam | 2,263 |
| | Llai | Wrecsam | 3,513 |
| | Y Mwynglawdd | Wrecsam | 1,870 |
| | New Broughton | Wrecsam | 2,842 |
| | Yr Orsedd | Wrecsam | 2,643 |
| **Etholaeth Sirol Delyn a Glannau Dyfrdwy** | | | **72,032** |
| | Aston | Sir y Fflint | 2,508 |
| | Dwyrain Bagillt | Sir y Fflint | 1,413 |
| | Gorllewin Bagillt | Sir y Fflint | 1,625 |
| | Brynffordd | Sir y Fflint | 1,789 |
| | Caerwys | Sir y Fflint | 2,050 |
| | Cilcain | Sir y Fflint | 1,519 |
| | Canol Cei Connah | Sir y Fflint | 2,213 |
| | Cei Connah: Golftyn | Sir y Fflint | 3,688 |
| | De Cei Connah | Sir y Fflint | 4,494 |
| | Cei Connah: Gwepra | Sir y Fflint | 1,647 |
| | Ewlo | Sir y Fflint | 4,327 |
| | Ffynnongroyw | Sir y Fflint | 1,474 |
| | Y Fflint: Y Castell | Sir y Fflint | 1,426 |
| | Y Fflint: Cwnsyllt | Sir y Fflint | 2,938 |
| | Y Fflint: Oakenholt | Sir y Fflint | 2,538 |
| | Y Fflint: Trelawny | Sir y Fflint | 2,710 |
| | Maes-glas | Sir y Fflint | 1,983 |
| | Gronant | Sir y Fflint | 1,257 |
| | Helygain | Sir y Fflint | 1,427 |
| | Penarlâg | Sir y Fflint | 1,623 |


| | | | |
|---|---|---|---|
| | Canol Treffynnon | Sir y Fflint | 1,465 |
| | Dwyrain Treffynnon | Sir y Fflint | 1,383 |
| | Gorllewin Treffynnon | Sir y Fflint | 1,762 |
| | Mancot | Sir y Fflint | 2,516 |
| | Mostyn | Sir y Fflint | 1,458 |
| | Llaneurgain | Sir y Fflint | 2,596 |
| | Northop Hall | Sir y Fflint | 1,398 |
| | Queensferry | Sir y Fflint | 1,248 |
| | Saltney Cyffordd yr Wyddgrug | Sir y Fflint | 1,100 |
| | Saltney Stonebridge | Sir y Fflint | 2,672 |
| | Sealand | Sir y Fflint | 2,026 |
| | Dwyrain Shotton | Sir y Fflint | 1,219 |
| | Shotton Uchaf | Sir y Fflint | 1,669 |
| | Gorllewin Shotton | Sir y Fflint | 1,464 |
| | Trelawnyd a Gwaenysgor | Sir y Fflint | 1,496 |
| | Chwitffordd | Sir y Fflint | 1,911 |
| **Etholaeth Sirol Dwyfor Arfon** | | | **70,850** |
| | Bryn | Conwy | 1,390 |
| | Capelulo | Conwy | 1,284 |
| | Pandy | Conwy | 1,463 |
| | Pant-yr-afon/Penmaenan | Conwy | 2,167 |
| | Aberdaron | Gwynedd | 698 |
| | Abererch | Gwynedd | 986 |
| | Abersoch | Gwynedd | 519 |
| | Arllechwedd | Gwynedd | 1,091 |
| | Bethel | Gwynedd | 1,025 |
| | Bontnewydd | Gwynedd | 865 |
| | Botwnnog | Gwynedd | 734 |
| | Cadnant | Gwynedd | 1,514 |
| | Clynnog | Gwynedd | 736 |
| | Criccieth | Gwynedd | 1,280 |
| | Cwm-y-Glo | Gwynedd | 753 |
| | Deiniol | Gwynedd | 920 |
| | Deiniolen | Gwynedd | 1,463 |
| | Dewi | Gwynedd | 1,301 |
| | Dolbenmaen | Gwynedd | 900 |
| | Efail-newydd/Buan | Gwynedd | 1,026 |
| | Garth | Gwynedd | 556 |
| | Gerlan | Gwynedd | 1,696 |
| | Glyder | Gwynedd | 1,257 |
| | Groeslon | Gwynedd | 1,374 |
| | Hendre | Gwynedd | 940 |
| | Hirael | Gwynedd | 1,066 |
| | Llanaelhaearn | Gwynedd | 1,187 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Llanbedrog | Gwynedd | 709 |
| | Llanberis | Gwynedd | 1,613 |
| | Llanengan | Gwynedd | 847 |
| | Llanllyfni | Gwynedd | 915 |
| | Llanrug | Gwynedd | 1,396 |
| | Llanwnda | Gwynedd | 1,507 |
| | Llanystumdwy | Gwynedd | 1,547 |
| | Marchog | Gwynedd | 1,579 |
| | Menai (Bangor) | Gwynedd | 1,548 |
| | Menai (Caernarfon) | Gwynedd | 1,724 |
| | Morfa Nefyn | Gwynedd | 945 |
| | Nefyn | Gwynedd | 1,003 |
| | Ogwen | Gwynedd | 1,697 |
| | Peblig (Caernarfon) | Gwynedd | 1,603 |
| | Penisa’r-waun | Gwynedd | 1,365 |
| | Pentir | Gwynedd | 2,159 |
| | Penygroes | Gwynedd | 1,369 |
| | Penrhyndeudraeth | Gwynedd | 1,826 |
| | Dwyrain Porthmadog | Gwynedd | 1,178 |
| | Gorllewin Porthmadog | Gwynedd | 1,329 |
| | Porthmadog-Tremadog | Gwynedd | 933 |
| | Gogledd Pwllheli | Gwynedd | 1,528 |
| | De Pwllheli | Gwynedd | 1,310 |
| | Seiont | Gwynedd | 2,233 |
| | Talysarn | Gwynedd | 1,399 |
| | Tregarth a Mynydd Llandygai | Gwynedd | 1,628 |
| | Tudweiliog | Gwynedd | 668 |
| | Waunfawr | Gwynedd | 1,298 |
| | Y Felinheli | Gwynedd | 1,803 |
| **Etholaeth Sirol Maldwyn a Meirionnydd** | | | **71,795** |
| | Aberdyfi | Gwynedd | 907 |
| | Abermaw | Gwynedd | 1,591 |
| | Y Bala | Gwynedd | 1,413 |
| | Bowydd a Rhiw | Gwynedd | 1,235 |
| | Brithdir a Llanfachreth/Ganllwyd/Llanelltud | Gwynedd | 1,132 |
| | Bryn-crug/Llanfihangel | Gwynedd | 772 |
| | Corris/Mawddwy | Gwynedd | 1,023 |
| | Diffwys a Maenofferen | Gwynedd | 779 |
| | Gogledd Dolgellau | Gwynedd | 953 |
| | De Dolgellau | Gwynedd | 1,072 |
| | Dyffryn Ardudwy | Gwynedd | 1,169 |
| | Harlech | Gwynedd | 1,516 |
| | Llanbedr | Gwynedd | 768 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Llandderfel | Gwynedd | 1,135 |
| | Llangelynnin | Gwynedd | 1,625 |
| | Llanuwchllyn | Gwynedd | 686 |
| | Teigl | Gwynedd | 1,355 |
| | Trawsfynydd | Gwynedd | 1,088 |
| | Tywyn | Gwynedd | 2,476 |
| | Banwy | Powys | 847 |
| | Aberriw | Powys | 1,102 |
| | Blaen Hafren | Powys | 1,876 |
| | Caersŵs | Powys | 1,831 |
| | Yr Ystog | Powys | 1,292 |
| | Dolforwyn | Powys | 1,652 |
| | Ffordun | Powys | 1,215 |
| | Glantwymyn | Powys | 1,701 |
| | Cegidfa | Powys | 1,827 |
| | Ceri | Powys | 1,607 |
| | Llanbrynmair | Powys | 798 |
| | Llandinam | Powys | 1,155 |
| | Llandrinio | Powys | 1,763 |
| | Llandysilio | Powys | 1,441 |
| | Llanfair Caereinion | Powys | 1,301 |
| | Llanfihangel | Powys | 895 |
| | Llanfyllin | Powys | 1,217 |
| | Llanidloes | Powys | 2,149 |
| | Llanrhaeadr-ym-mochnant/Llansilin | Powys | 1,815 |
| | Llansanffraid | Powys | 1,563 |
| | Llanwddyn | Powys | 846 |
| | Machynlleth | Powys | 1,701 |
| | Meifod | Powys | 1,069 |
| | Trefaldwyn | Powys | 1,107 |
| | Canol y Drenewydd | Powys | 2,122 |
| | Dwyrain y Drenewydd | Powys | 1,401 |
| | Y Drenewydd Gogledd Llanllwchaearn | Powys | 1,796 |
| | Y Drenewydd Gorllewin Llanllwchaearn | Powys | 1,447 |
| | De’r Drenewydd | Powys | 1,215 |
| | Rhiwcynon | Powys | 1,724 |
| | Trewern | Powys | 1,066 |
| | Y Trallwng: Castell | Powys | 962 |
| | Y Trallwng Gungrog | Powys | 1,995 |
| | Y Trallwng Llanerchyddol | Powys | 1,602 |
| **Etholaeth Sirol Dyffryn Clwyd** | | | **75,993** |
| | Bae Cinmel | Conwy | 4,607 |
| | Llansannan | Conwy | 1,495 |
| | Tywyn | Conwy | 1,845 |
| | Bodelwyddan | Sir Ddinbych | 1,612 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Dinbych: Canol | Sir Ddinbych | 1,462 |
| | Dinbych Isaf | Sir Ddinbych | 3,483 |
| | Dinbych Uchaf/Henllan | Sir Ddinbych | 2,265 |
| | Dyserth | Sir Ddinbych | 1,882 |
| | Efenechtyd | Sir Ddinbych | 1,321 |
| | Llanarmon-yn-Iâl/Llandegla | Sir Ddinbych | 2,033 |
| | Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal | Sir Ddinbych | 1,170 |
| | Llandyrnog | Sir Ddinbych | 1,765 |
| | Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern | Sir Ddinbych | 1,830 |
| | Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch | Sir Ddinbych | 1,496 |
| | Canol Prestatyn | Sir Ddinbych | 2,829 |
| | Dwyrain Prestatyn | Sir Ddinbych | 3,162 |
| | Prestatyn Alltmelyd | Sir Ddinbych | 1,529 |
| | Gogledd Prestatyn | Sir Ddinbych | 4,729 |
| | De-orllewin Prestatyn | Sir Ddinbych | 2,861 |
| | Rhuddlan | Sir Ddinbych | 2,913 |
| | Dwyrain y Rhyl | Sir Ddinbych | 3,693 |
| | De'r Rhyl | Sir Ddinbych | 2,874 |
| | De-ddwyrain y Rhyl | Sir Ddinbych | 6,253 |
| | De-orllewin y Rhyl | Sir Ddinbych | 3,732 |
| | Gorllewin y Rhyl | Sir Ddinbych | 3,283 |
| | Rhuthun | Sir Ddinbych | 4,260 |
| | Dwyrain Llanelwy | Sir Ddinbych | 1,472 |
| | Gorllewin Llanelwy | Sir Ddinbych | 1,290 |
| | Trefnant | Sir Ddinbych | 1,503 |
| | Tremeirchion | Sir Ddinbych | 1,344 |
| **Etholaeth Sirol Wrecsam a Glyndŵr** | | | **75,760** |
| | Corwen | Sir Ddinbych | 1,799 |
| | Llandrillo | Sir Ddinbych | 931 |
| | Llangollen | Sir Ddinbych | 3,302 |
| | Acton | Wrecsam | 2,177 |
| | Parc Borras | Wrecsam | 1,968 |
| | Bronington | Wrecsam | 2,620 |
| | Brynyffynnon | Wrecsam | 2,477 |
| | Cartrefle | Wrecsam | 1,545 |
| | Cefn | Wrecsam | 3,768 |
| | Gogledd y Waun | Wrecsam | 1,846 |
| | De'r Waun | Wrecsam | 1,503 |
| | Dyffryn Ceiriog | Wrecsam | 1,685 |
| | Erddig | Wrecsam | 1,444 |
| | Esclusham | Wrecsam | 2,013 |
| | Garden Village | Wrecsam | 1,656 |
| | Dwyrain a Gorllewin Gresffordd | Wrecsam | 2,337 |
| | Grosvenor | Wrecsam | 1,698 |

| | | |
|---|---|---|
| Hermitage | Wrecsam | 1,544 |
| Holt | Wrecsam | 2,479 |
| Johnstown | Wrecsam | 2,461 |
| Acton Fechan | Wrecsam | 1,843 |
| Llangollen Wledig | Wrecsam | 1,631 |
| Maes-y-dre | Wrecsam | 1,420 |
| Marchwiel | Wrecsam | 1,830 |
| Marford a Hoseley | Wrecsam | 1,824 |
| Offa | Wrecsam | 1,428 |
| Owrtyn | Wrecsam | 2,710 |
| Pant | Wrecsam | 1,528 |
| Pen-y-cae | Wrecsam | 1,525 |
| Pen-y-cae a De Rhiwabon | Wrecsam | 2,026 |
| Plas Madoc | Wrecsam | 1,169 |
| Ponciau | Wrecsam | 3,521 |
| Queensway | Wrecsam | 1,377 |
| Rhosnesni | Wrecsam | 2,827 |
| Rhiwabon | Wrecsam | 2,078 |
| Smithfield | Wrecsam | 1,376 |
| Stansty | Wrecsam | 1,641 |
| Whitegate | Wrecsam | 1,594 |
| Wynnstay | Wrecsam | 1,159 |




1. Aberconwy
2. Alun
3. Delyn a Glannau Dyfrdwy
4. Dwyfor Arfon
5. Maldwyn a Meirionnydd
6. Dyffryn Clwyd
7. Wrecsam a Glyndŵr

**BCW-10336 / [redacted] / Rhydaman**

Bûm yn byw yn Rhydaman er 1967. Mae'n ymddangos bod ein cymuned yn cael ei gwthio o bared i bost o ran newidiadau i'r ffiniau, heb roi fawr o ystyriaeth i'r gymuned. Ar un adeg, roeddem yn rhan o Gŵyr, wedyn Dyffryn Lliw a Chastell-nedd Port Talbot erbyn hyn. Mae gennym fwy yn gyffredin a Chwm Aman nag Aberhonddu a Maesyfed. Gadewch lonydd i ni fyw'n dawel yn ein pentrefi a pheidiwch â'n symud ni i leoedd nad ydym eisiau mynd iddynt!

**BCW-10337 / [redacted] / Hwlffordd**

Gwastraff arian cywilyddus arall. Arian yn cael ei wastraff gan 'Weinyddiaeth' arall. Nid yw'n mynnu llawer o feddwl i ddeall pam mae'r wlad hon yn destun sbort ledled y byd.

**BCW-10338 / [redacted] / Pen-y-bont ar Ogwr**

Mae cyfuno Pen-y-bont ar Ogwr ac Ogwr yn rhesymegol. Fodd bynnag, nid oes angen addasu ffiniau dwyreiniol a gorllewinol y Fwrdeistref Sirol. Dim ond i gydbwyso'r niferoedd.

A fydd CFfG yn arolygu ffiniau eto pryd bynnag y ceir datblygiadau tai sylweddol?

**BCW-10339 / [redacted] / Deganwy**

Mae llawer gormod o etholaethau yn ardal y de ac nid oes llawer iawn eisoes yn y gogledd.

Rwy'n mynnu bod unrhyw newidiadau ond yn digwydd i leihau'r nifer yn Ne Cymru.

**BCW-10340 / [redacted] / Castell-nedd**

Fel y bu'n wir ers amser maith, nid yw gosod Llansawel gyda Phort Talbot yn gwneud unrhyw synnwyr. Mae pobl Llansawel yn siopa, yn mynd i dafarnau, yn chwarae mewn ac yn cefnogi clybiau yng Nghastell-nedd ac nid Port Talbot. Yn aml, rhoddir fy nghyfeiriad ar fy mhost fel [redacted], Castell-nedd, ac nid Port Talbot. I gyrraedd rhai rhannau o etholaeth Castell-nedd o Gastell-nedd, mae'n gyflymach teithio drwy Lansawel na thrwy'r etholaeth ei hun – mae hynny'n hollol wirion. Rwy'n dod o deulu sydd wedi byw yng Nghastell-nedd a Llansawel ers dros 200 mlynedd, nid wyf yn teimlo unrhyw gysylltiad â Phort Talbot ac nid wyf erioed wedi gwneud. Yn anffodus, mae'n debygol y bydd hyn yn cael ei dderbyn, ond o leiaf cefais gyfle i leisio barn.

**BCW-10341 / [redacted] / Caerdydd**

Mae'n ymddangos eich bod yn cymryd rhannau o ardaloedd cyfagos.
Dim ond er mwyn galluogi Caerdydd i gadw 4 etholaeth.
Mae gan drefi/dinasoedd o faint cyfatebol yn Lloegr 2 neu 3 etholaeth ar y mwyaf.
Pam y cyffindwyllo o ran maint y ddinas? Mae'n siŵr y gellid defnyddio'r etholaethau ychwanegol yn well yn rhai o'r ardaloedd gwledig enfawr?

**BCW-10342 / [redacted] / Merthyr Tudful**

Rhowch y gorau i ymgais San Steffan i wanhau gwrthwynebiad.

**BCW-10343 / [redacted] / Caerffili**

Dyma ragor o helbul diangen a bydd hyn yn costio llawer o arian i'r cyhoedd mewn cyfnod o chwyddiant enfawr, bydd yn torri'r Cymoedd i drefi glan môr a Dociau a bydd yn effeithio ar ein ASau oherwydd ardaloedd na ellir eu rheoli, rhowch y gorau i'r gweithredu hwn a gadewch i'n hardaloedd fod fel y maent.

**BCW-10344 / [redacted] / Y Rhyl**

Rydych yn dweud: 'Cyhyd ag y bo modd, rydym wedi ceisio ystyried cysylltiadau lleol, ffactorau daearyddol, ffiniau llywodraeth leol (fel yr oeddent ar 1 Rhagfyr 2020), etholaethau presennol, a lleihau'r aflonyddwch a achosir gan y newidiadau arfaethedig'.

Rwy'n dweud: Ceisiwch yn galetach. Mae gosod y Rhyl yn yr un etholaeth â Bae Colwyn y wallgof, o ystyried bod cysylltiadau lleol, ffactorau daearyddol a ffiniau llywodraeth leol yn edrych tua'r dwyrain at Brestatyn.
Bu'r Rhyl a Phrestatyn yn gyrchfannau gefeilliol ers cenedlaethau. Maent yn agosach at ei gilydd yn ddaearyddol, yn ddiwylliannol ac yn economaidd.
Ni allaf gredu, mewn cyfnod o argyfwng ariannol, bod cymaint o arian cyhoeddus wedi'i wario ar hyn.
Cadwch Ddyffryn Clwyd fel y mae!

**BCW-10345 / [redacted] / Wrecsam**

Mae gosod rhannau o Wrecsam â lleoedd fel y Drenewydd yn chwerthinllyd! A oes unrhyw un ohonoch erioed wedi ymweld â lleoedd fel y Bers, Johnstown neu Riwabon? Mae'r lleoedd hyn yn talu eu treth gyngor i DDINAS Wrecsam. Nid oes ganddynt unrhyw gysylltiad o gwbl, boed yn wleidyddol neu'n ddiwylliannol, â lleoedd mor bell i ffwrdd. A ydych chi'n sylweddoli faint o amser mae'n ei gymryd i yrru o Riwabon i Fachynlleth? Mae hyn yn wallgof ac yn tanseilio didueddrwydd a hygrededd tybiedig y Comisiwn Ffiniau yn ddifrifol. Mewn geiriau eraill, rydym yn credu eich bod chi'n twyllo.

**BCW-10346 / [redacted] / Dolgarrog**

Mae’n fy mrawychu bod mater ac ymgynghoriad mor bwysig ond newydd ymddangos ar Facebook. Mae hyn yn rhywbeth a ddylai gyrraedd trwy flwch llythyrau pawb. Mae gennyf wrthwynebiad cryf i ffin newydd Aberconwy. Mae’n ymddangos yn wirion, rhannu Bangor fel y mae ar hyn o bryd, ac ymestyn Conwy mor bell!

**BCW-10347 / [redacted] /Cydweli**

Mae unrhyw beth sy’n gwneud yr etholiad yn gynrychiolaeth decach o’r hyn y mae’r boblogaeth ei eisiau yn beth da.

**BCW-10348 / [redacted] / Wrecsam**

Mae gosod Johnstown, Rhos a Chefn ym Maldwyn a Glyndŵr yn chwerthinllyd. Rydym yn rhan o Wrecsam a dyna lle dylem aros. Beth yw pwynt cymryd y pentrefi hyn oddi wrth Wrecsam? Ai ‘camgymeriad’ oedd hyn ar eich map, oherwydd mewn gwirionedd, dyna sut mae’n edrych!

**BCW-10349 / [redacted] / Wrecsam**

Mae gan ward Cefn Mawr yn etholaeth De Clwyd fwy o gysylltiadau â Wrecsam yn draddodiadol ac mae ei gosod ym Maldwyn yn ffars – mae’r etholaeth yn rhy fawr a bydd yn niweidiol i drigolion o ran mynediad i’w AS ac amser.

**BCW-10350/ [redacted] / Wrecsam**

Bu Cefn Mawr yn gysylltiedig â Llangollen erioed, ac yn draddodiadol roedd yn Sir Ddinbych cyn dod yn rhan o Wrecsam, ac mae gan Gefn fwy o gysylltiadau diwylliannol a thraddodiadol â Llangollen ac felly dylai aros yn agos a bod yn Nwyrain Clwyd ac nid ym Maldwyn.

**BCW-10351 / Cyng Matthew Bailey / Abertawe**

Nid wyf yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i'r ffiniau sy'n gosod Clydach o fewn Castell-nedd a Dwyrain Abertawe. Lleolir Clydach o fewn ardal awdurdod unedol Abertawe. Mae'r holl wasanaethau statudol yng Nghlydach yn cael eu rheoli gan awdurdod lleol Abertawe, megis gofal cymdeithasol, iechyd yr amgylchedd, trwyddedu, addysg, llyfrgelloedd, genedigaethau, marwolaethau a llawer mwy. Er fy mod yn cydnabod bod awdurdod lleol ac etholaeth seneddol yn wahanol, maent yn rhannu'r un buddiannau o ran cynrychioli etholwyr.

Nid oes ots gan etholwyr ble mae'r ffin, maen nhw'n poeni am bwy sy'n mynd i ddarparu'r gwasanaethau y maen nhw'n dibynnu arnynt bob dydd. Byddai cael un ffin ar gyfer awdurdod lleol a ffin arall ar gyfer AS yn achosi dryswch difrifol i etholwyr ac yn debygol o'u dieithrio ymhellach oddi wrth ddemocratiaeth leol.

Byddwn yn cynnig bod yn rhaid i unrhyw newidiadau i ffiniau gael eu halinio â ffiniau awdurdodau lleol. Byddwn hefyd yn awgrymu bod ward Gŵyr yn rhan o arglwyddiaeth hynafol Gŵyr ac felly mae iddi arwyddocâd hanesyddol hefyd.

**BCW-10352 / [redacted] / Wrecsam**

Ar ôl gweld y map yn dangos y ffiniau newydd arfaethedig, rwy'n bryderus iawn bod yr ardal o Rostyllen i'r Waun yn debygol o newid o Wrecsam i Faldwyn a Glyndŵr.

Mae Rhostyllen a'r Bers prin 2 filltir o ganol dinas Wrecsam.

Mae'r ardaloedd ar y map i'r gogledd o'r Waun, h.y. Rhiwabon, Cefn Mawr, Coedpoeth, y Bers a Rhostyllen, yn rhan o hen faes glo Sir Ddinbych a adnabyddir yn lleol fel maes glo Wrecsam.

Roedd gan Wrecsam weithfeydd haearn, gwaith brics, gwaith dur, bragdai, ac mae'r newid yn golygu y bydd rhan fawr o dreftadaeth Wrecsam yn cael ei symud i Faldwyn.

Diolch i chi am roi cyfle i mi roi fy marn.

**BCW-10353 / [redacted] / Abertawe**

Helô

Credaf fod y cynigion presennol ar gyfer yr etholaethau yn ardal Abertawe yn rhyfedd iawn ac na fyddent yn ein cynrychioli'n dda.

I ddechrau, byddai fy etholaeth arfaethedig yn ymuno â Chastell-nedd. Er fy mod yn byw yn Abertawe, byddwn yn rhannu fy mhleidlais â phobl sy'n gyfan gwbl y tu allan i fuddiannau Abertawe.

Ceir sefyllfa debyg â Gorllewin Abertawe yn ymuno â Gŵyr. Mae'n teimlo fel petai'r etholaethau hyn wedi'u cyfuno yn y fath fodd i wanhau pleidlais Abertawe drwy ein gorfodi i rannu ag etholwyr mwy gwledig, sy'n fwy tueddol o bleidleisio dros y Ceidwadwyr tra byddwn ninnau'n pleidleisio dros y Blaid Lafur.

Yn naturiol, gallai hyn fod yn sgîl-effaith y trafferthion o lunio ffiniau sy'n cynnwys 70,000 o bobl, ond mae'n dal i deimlo fel ergyd, a byddwn yn gobeithio gweld mwy o newidiadau yn cael eu gwneud yn hyn o beth.

**BCW-10354 / [redacted] / Tonyrefail**

Helô,
Rwyf newydd gael gwybod y bydd y newidiadau arfaethedig i ffiniau yn gosod fy nhref enedigol yn Rhondda.
Mae fy nhref enedigol wedi'i lleoli yng NGHWM ELÁI ac nid oes unrhyw fan o fewn ei ffiniau, sy'n ehangu drwy'r amser, sydd o fewn ffiniau Rhondda. Pam ar y ddaear y byddai'r Comisiwn Ffiniau yn newid hyn?
Ceir rhai syniadau pam.
1) Gwleidyddiaeth a seddau gwleidyddol.
2) Rhesymau ariannol – bydd ardal fwy o faint yn gorfod rhannu'r un gronfa o arian a roddwyd i'r hyn sy'n etholaeth Rhondda ar hyn o bryd.

Gadewch lonydd i'r ffiniau a threuliwch eich amser yn ddoethach...

**BCW-10355 / [redacted] / Caernarfon**

Does yna ddim cydnabyddiaeth yn enw etholseth Dwyfor-Meirionydd i ran mwyaf poblog yr etholseth, sef Arfon. Mae'r enw felly yn gwbl gamarweiniol.

Dylid newid yr enw i Arfon-Dwyfor-Meirionydd neu Gwynedd.

Diolch

**BCW-10356 / [redacted] / Tregaron**

Mae eich cynulleidfa darged yn glir, ac mae'r cyffindwyllo yn amlwg!
Byddai cipolwg cyflym ar unrhyw fap o ddefnydd iaith ar draws Ceredigion a Phreseli yn dangos yr achos! Gwanhau ardal Ceredigion sydd â diwylliant Cymraeg cryf a llawer o siaradwyr Cymraeg, wrth gyfuno â Saeson cyfoethog wedi ymddeol, sy'n 'dychwelyd i gefn gwlad (sy'n llawer rhatach)' ac yn sefydlu busnes bach clyd, pleidleiswyr Torïaidd Preseli! Ni fyddai llawer o gyfle wedyn i Blaid Cymru, sef pwerdy gwleidyddiaeth genedlaethol Cymru, gyflawni unrhyw wahaniaeth gwirioneddol ac effeithiol o ran diwylliant neu seilwaith, a chyflwyno'r achos dros GYMRU. Dim ond Prydeindod homogenaidd gwan a thenau.
Mae'r cyfan yn rhan o ddymchwel hawliau a CHYNRYCHIOLAETH gan yr hyn a elwir yn Blaid 'Geidwadol' Lloegr.

**BCW-10357 / [redacted] / Wrecsam**

Pam ar y ddaear fod Ward De Ponciau a llawer o'r wardiau eraill sy'n agosach at Wrecsam wedi'u gosod yn yr hyn a elwir yn Ward Maldwyn a Glyndŵr?????? Rydym yn byw yng Ngogledd Ddwyrain Cymru NID Canolbarth Cymru!!

**BCW-10358 / [redacted] / Trebanos**

Nid oes gan Gwm Tawe uchaf unrhyw gysylltiad o gwbl ag Aberhonddu a Maesyfed. Mae angen cadw holl Gwm Tawe gyda'i gilydd, yn ddelfrydol â Chastell-nedd neu Abertawe. Mae ardaloedd Clydach, Pontardawe, Ystalyfera ac Ystradgynlais yn cyd-fynd yn dda. Fel un enghraifft, mae cwpan rygbi ar gyfer Cwm Tawe sy'n cynnwys yr ardaloedd hyn. Cyn y camgymeriad blaenorol â'r ffiniau, roedd disgyblion yr holl ardaloedd, yr holl drefi a phentrefi o amgylch Clydach, Pontardawe ac Ystalyfera, yn mynd i'r un ysgolion cyfun. Mae'r rhan fwyaf o bobl Clydach yn siopa ym Mhontardawe, naill ai yn Tesco, Lidl neu Farm Foods.

Yn ystod y cyfyngiadau symud, cawsom y senario wirion o un stryd wedi'i rhannu rhwng ardaloedd lleol lle gallai person gerdded yn swyddogol dros y ffordd. Ni allai pobl fynd i'r garej leol 10 munud i ffwrdd ar droed i gael petrol, ond roedd yn ofynnol iddynt deithio 4 milltir oherwydd eu bod mewn awdurdod lleol gwahanol.

Mae angen cadw'r cwm cyfan mewn 1 etholaeth. Mae Aberhonddu a Maesyfed yn wledig i raddau helaeth. Mae ardal Pontardawe ac Ystradgynlais yn ddiwydiannol i raddau helaeth. Mae pobl yn teithio i weithio yn Abertawe a Chastell-nedd, nid yn Aberhonddu a Llanfair-ym-muallt.

**BCW-10359 / [redacted] / Castell-nedd**

Rwy'n ei chael hi'n rhyfedd nad yw'r ffiniau newydd yn adlewyrchu'r cynghorau presennol. Mae'r bwrdeistrefi sirol hyn yn adlewyrchu ardaloedd cymunedol ac nid yw'n ymddangos bod y ffiniau newydd wedi ystyried y canlyniad.

Yn flaenorol, roedd Castell-nedd a Chwm Tawe mewn un etholaeth a Phort Talbot mewn etholaeth ar wahân. Mae'r fersiwn newydd wedi gosod rhannau o ddwyrain Abertawe gyda Chastell-nedd ac wedi hepgor Cwm Tawe.

Rwy'n meddwl ei bod yn annoeth newid o gael etholaeth â dwy gymuned sy'n gymoedd, a fydd â llawer yn gyffredin rhyngddynt, i osod cwm gyda maestref dinas.

**BCW-10360 / [redacted] / Porth**

Nid yw'r cynnig i gynnwys hanner ward Gilfach Goch yn Rhondda, yn hytrach na'r ward gyfan, yn gwneud unrhyw synnwyr.

Nid yw cynnwys Heol-y-cyw a Phencoed yn Rhondda yn gwneud unrhyw synnwyr o gwbl – mae'r rhain ym Mhen-y-bont ar Ogwr a bydd y materion sy'n eu hwynebu yn gwbl wahanol i Dreherbert. Mae'r ffiniau yn edrych fel petai rhywun wedi'u gosod ar hap.

Byddai wedi gwneud mwy o synnwyr i gynnwys Llantrisant yn Rhondda!

**BCW-10361 / [redacted] / Aberteifi**

Er mai Aberteifi yw'r dref fwyaf ond un yng Ngheredigion, yn fy marn i, mae gan y cyngor agwedd ei bod yn bell o'r golwg ac yn bell o'r meddwl. Mae hyn bron yn sicr oherwydd ei lleoliad daearyddol ym mhen deheuol eithaf y sir, a bod dwy brif swyddfa'r cyngor wedi'u lleoli yng ngogledd ac yng nghanol ardal y sir.

Byddwn yn cefnogi ymestyn ffin y sir fel y cynigir, yn y gobaith y byddem ni yn Aberteifi yn teimlo'n fwy cynwysedig, yn lle bod ar yr ymylon.

**BCW-10362 / [redacted] / Rhaeadr**

Mae cynnwys ardal Ystradgynlais yn etholaeth Aberhonddu a Maesyfed ac yn sir Powys wedi bod yn anghysondeb erioed. Credaf y dylai holl Gwm Tawe fod yn yr un sir. Mae gosod Ystradgynlais ym Mhowys, ac Ystalyfera a Phontardawe yng Nghastell-nedd Port Talbot, a Threforys yn Abertawe, yn ddwli llwyr. Mae Cwm Tawe yn un gymuned a dylid mynegi hyn yn y ffiniau gwleidyddol ac etholiadol.

**BCW-10363 / [redacted] / Tonyrefail**

Am wn i, mae'n gwneud synnwyr i Donyrefail fod yn rhan o Rondda. Rwy'n gobeithio y bydd rhywfaint o ffocws/cymorth ychwanegol ar gyfer Tonyrefail. Teimlaf ein bod bob amser yn cael ein gadael yn nhir neb rhwng Pont-y-clun a Rhondda.

Mae gosod Pencoed yn Rhondda yn wallgofrwydd llwyr! Mae'n edrych fel petai eich ysgrifbin wedi llithro!

**BCW-10364 / [redacted] / Penfro**

Er mwyn darparu llywodraeth effeithiol yng Nghymru, mae arnom angen mwy o gynrychiolaeth nid llai, a nodau nad ydynt yn symud. Mae'n ffiaidd gennyf eich bod yn bwriadu newid hyn heb ymgynghori'n deg â phoblogaeth Cymru (h.y. refferendwm), a bod Cymru unwaith eto'n destun toriadau ariannol / polisi sydd y tu hwnt i'w rheolaeth. Mae hyn yn edrych yn debyg iawn i ymgais i ddylanwadu ar y rownd nesaf o bleidleisio wrth geisio newid y canlyniad ymlaen llaw ac rwyf YN ERBYN hynny'n llwyr a 100%.
Mae digon o lygredd ac "annhegwch" o fewn system wleidyddol y DU ar hyn o bryd heb ychwanegu ato.
Mae'r rhan fwyaf o boblogaeth y DU eisiau Etholiad Cyffredinol NAWR, nid ymhen 2 flynedd, felly mae codi'r pwynt hwn nawr yn gwbl annerbyniol yn ystod y gweiddi a'r galw cynyddol am Etholiad Cyffredinol. Byddai newid ffiniau etholaethau ar hyn o bryd yn annemocrataidd, yn annheg ac, yn ddiamau, mae'n drewi'n llwyr fel ymgais arall i gipio grym gan Blaid Geidwadol sy'n daer dros osgoi cael eu dileu'n llwyr yn etholiadol, gan symud y nodau ac ad-drefnu etholaethau i roi mantais i ardaloedd sy'n eu cefnogi.
Rwyf wedi fy ffieiddio'n llwyr gan hyn!!! Teimlaf yr un fath am y Blaid Dorïaidd, Gweinidogion ac ASau Torïaidd a phleidleiswyr Torïaidd yn gyffredinol.

Annibyniaeth i Gymru!!!!

**BCW-10365 / [redacted] / Tonyrefail**

Mae symud Tonyrefail a'r ardal gyfagos i etholaeth Rhondda yn gwneud synnwyr gan fod llawer o fewn y boblogaeth leol yn teimlo cysylltiad â Rhondda. Fodd bynnag, nid oes gan ardaloedd Pencoed a Heol-y-cyw unrhyw gysylltiadau o'r fath â Rhondda. Maent yn fwy cysylltiedig â Phen-y-bont ar Ogwr a dylent aros o fewn yr etholaeth honno.

**BCW-10366 / [redacted] / Abertawe**

Rwy'n aelod o'r cyhoedd sydd wedi cymryd rhan mewn canfasio. Bydd y ffaith bod dinas Abertawe wedi'i rhannu'n dair etholaeth, â phob un ag ardal wledig fawr ynghlwm wrthi, yn ei gwneud yn llai tebygol y byddaf yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau etholiadol, yn enwedig heb gar. Mae'n rhyfedd, rhannu ardal mor gul o'r ddinas i greu Canol a Gogledd Abertawe a gwahanu Uplands oddi wrth Sgeti. Bydd rhai ohonom yn cerdded neu'n beicio ar draws 3 etholaeth wrth i ni gymudo, siopa ac ymweld â ffrindiau. Ar y llaw arall, mae rhannau o'r etholaeth newydd arfaethedig yn anodd i mi eu cyrraedd ac i drigolion ymweld â swyddfeydd yr etholaeth.
Hoffwn wneud sylw hefyd ynghylch ychwanegu Pontardawe at Aberhonddu a Maesyfed fel etholaeth newydd. Mae natur y cymunedau hynny'n wahanol iawn, ac mae pobl o Bontardawe yn fwy tebygol o deithio i Gastell-nedd ac Abertawe nag i Aberhonddu.

**BCW-10367 / [redacted] / Rhaeadr Gwy**

Llai o gynrychiolaeth yn San Steffan i Gymru a dim ymgynghoriad/gwybodaeth wirioneddol wedi'i darparu i wneud unrhyw asesiad o'r buddion neu'r colledion mwyaf tebygol. Nid wyf yn cytuno â'r newidiadau sy'n cael eu gwthio drwodd.

**BCW-10368 / [redacted] / Caernarfon**

Pam mae angen i ni wastraffu arian ar newidiadau, mae wedi bod yn gweithio'n iawn, dangosodd etholiadau diweddaraf y cyngor fod pobl wedi colli diddordeb mewn gwleidyddiaeth leol, roedd y Comisiwn Ffiniau wedi newid y ffiniau ar gyfer etholiadau'r cyngor, felly pam mae gennym 65 o Gynghorau Sir o hyd, does dim angen, mae arnom ni'r trethdalwyr, rwy'n siŵr y gallem ddefnyddio'r arian mewn ffordd well. Beth fyddai diben y newidiadau hyn?

**BCW-10369 / [redacted] / Cwmbrân**

Mae'n dda gweld yr ardaloedd anghyson i'r dwyrain o Gwmbrân yn cael eu hychwanegu at yr etholaeth – mae'n amlwg bod Croesyceiliog, Llanfrechfa a Llanyrafon yn rhan o Dorfaen yn hytrach na Sir Fynwy neu Gasnewydd. Mae lleoli Pont-hir yn fwy anodd gan fod y pentref rhwng Cwmbrân a Chaerllion/Casnewydd. Rwy'n meddwl ei fod yn benderfyniad teg.

Mae cael yr un ffin i'r etholaeth ac i'r awdurdod lleol yn gynorthwyol iawn.

**BCW-10370 / [redacted] / Altrincham**

Tynnaf eich sylw at fy sylw gwreiddiol ar y cynigion cychwynnol, BCW-8971, gan ei ailadrodd yn llawn:

“Rwy’n cynnig y dylai ward Sgeti gael ei chynnwys yn etholaeth arfaethedig Canol a Gogledd Abertawe, yn hytrach na Gorllewin Abertawe a Gŵyr. Mae hyn yn darparu ffin naturiol rhwng y ddwy etholaeth ar hyd afon Clun a thrwy goetir. I wneud iawn am hyn, rwy’n cynnig y dylai wardiau gogleddol Llangyfelach, Mawr, Penlle’r-gaer a Phontarddulais gael eu cynnwys yng Ngorllewin Abertawe a Gŵyr. O ganlyniad, gellir newid enw Canol a Gogledd Abertawe i Canol Abertawe. Mae’r cyfluniad hwn yn arwain at lai o aflonyddwch i’r etholwyr presennol ac yn gwella cyfansoddiad y ddwy etholaeth.”

Mae hyn yn debyg i gynnig y Blaid Lafur, ond mae’n gadael ward Mayals yng Ngŵyr a Gorllewin Abertawe (sef yr enw a roddwch erbyn hyn). Mae’n osgoi rhannu cymuned am y rhesymau a nodir uchod. Fodd bynnag, mae’n ymddangos nad ydych wedi ystyried yr awgrym hwn a gofynnaf i chi wneud hynny, gan ei fod yn creu etholaeth fwy cydlynol (Canol Abertawe) ac yn achosi llai o aflonyddwch i gyfluniad presennol y seddau.

Fel sylw cyffredinol, mae’n ymddangos eich bod wedi ystyried gwrthgynigion gan y prif bleidiau gwleidyddol drwy gydol eich adroddiad, ond nid yw’n ymddangos eich bod wedi ystyried gwrthgynigion gan aelodau’r cyhoedd, a ddylai fod â statws cyfartal, hyd y gwn i.

**BCW-10371 / [redacted] / Altrincham**

Rydych wedi gwneud rhai cynigion diwygiedig ar gyfer cymoedd De Cymru i fynd i'r afael â phryderon penodol megis cynnwys ward amddifad Nelson yn etholaeth Merthyr Tudful ac Aberdâr, a chynnwys rhannau o dref Pen-y-bont ar Ogwr yn Aberafan Porthcawl. Er y gellir cyfiawnhau'r newidiadau hyn, mae'r effaith ganlyniadol ar ddwy etholaeth yn anfoddhaol:
1. Wrth gadw'r tair ward sy'n rhan o dref Sgiwen yn Aberafan Porthcawl, mae dwy elfen etholaeth ddiwygiedig Castell-nedd a Dwyrain Abertawe wedi'u gwahanu'n llwyr, â ffin rhwng wardiau heb unrhyw gysylltiadau trafnidiaeth.
2. Mae etholaeth Rhondda ar ôl ei had-drefnu yn cynnwys cymunedau ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sydd wedi'u hynysu'n sylweddol oddi wrth weddill y sedd ac sydd wedi'u cysylltu gan ffordd fach iawn drwy fwlch cul yn y ffin.

Er mwyn unioni'r materion hyn, cynigiaf wneud yr addasiadau canlynol i'r cynigion diwygiedig:
1. Cadw tref Sgiwen yn Aberafan Porthcawl er mwyn cadw'r cysylltiadau ffordd rhwng Castell-nedd a dwyrain Abertawe. Mae hyn yn golygu y gellir dychwelyd ward Glandŵr yn Ninas Abertawe i Gastell-nedd a Dwyrain Abertawe.
2. I wneud iawn am golli'r tair ward a gedwir bellach ym Mhen-y-bont, gellir trosglwyddo wardiau Cefn Cribwr ac Abercynffig i Aberafan Porthcawl.
3. Cadw wardiau Felindre, Hendre a Phenprysg ym Mhen-y-bont, ac yn hytrach, gellir trosglwyddo 6 ward Melin Ifan Ddu, Blaengarw, Llangeinwyr, Nant-y-moel, Bro Ogwr a Phontycymer i Rondda. Er bod y wardiau hyn yn llunio dau gwm bach sydd ar wahân i Rondda, mae cysylltiadau trafnidiaeth da rhyngddynt.

Mae hyn yn arwain at y niferoedd canlynol o etholwyr:
Aberafan Porthcawl - 70,028
Pen-y-bont - 71,218
Rhondda - 71,962

Mae'n bosibl y byddai'n briodol newid enw Rhondda i Rhondda ac Ogwr.

**BCW-10372 / [redacted] / Rhisga**

Cytunaf â mwyafrif llethol y sylwadau yn fy ardal yn ymwneud â'r cynnig i gysylltu Gorllewin Casnewydd ag Islwyn. Ychydig iawn sydd gan y ddwy ardal yn gyffredin. Cytunaf fod gan Dŷ-du a High Cross ac ati fwy yn gyffredin ag Islwyn.

Gofynnaf i chi adolygu hyn, a beth am uno gorllewin a dwyrain Casnewydd?

**BCW-10373 / [redacted] / Casnewydd**

Gwych! Rwy'n hapus i weld gostyngiad yn nifer yr ASau yn San Steffan.

Gan droi at fater arall, mae ein haelod seneddol presennol yn llai na diwerth – mae'n anweledig! Ni wnaeth unrhyw ymgais i ddod yn ôl ataf pan gysylltais â hi.

**BCW-10374 / [redacted] / Pont-y-clun**

Rwy’n cefnogi’r ffiniau etholaethau newydd.

**BCW-10375 / [redacted] / Abertawe**

Nid oes gan bobl Pontardawe a rhan uchaf Cwm Tawe unrhyw gysylltiad ag Aberhonddu a Maesyfed. Rydym mewn hen ardal ddiwydiannol, ac ardaloedd ffermio yw Aberhonddu a Maesyfed.

Nid oes unrhyw gysylltiadau trafnidiaeth i Aberhonddu o Bontardawe. Byddai unrhyw awdurdod yn yr ardal honno wedi’i leoli mor bell o Bontardawe fel y byddai’n gwneud cyswllt yn anodd, os nad yn amhosibl i’r mwyafrif o breswylwyr Pontardawe.

Cafodd swyddfeydd lleol cyngor Castell-nedd Port Talbot ym Mhontardawe eu cau, ond nid yw’n cymryd llawer o amser i gyrraedd y swyddfeydd yng Nghastell-nedd ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Mae’r Comisiwn Ffiniau wedi anwybyddu topograffi’r ardal hon yn llwyr, rydym wedi’n gwahanu oddi wrth Aberhonddu gan fynyddoedd sy’n creu ffin naturiol rhwng y ddwy ardal.

Mae’r holl gysyniad o uno Pontardawe ag Aberhonddu y tu hwnt i chwerthinllyd.

**BCW-10376 / [redacted] / Porthcawl**

Rwy’n meddwl bod uno Porthcawl ag Aberafan sy’n rhanbarth arfordirol arall yn syniad da, ond gellir ychwanegu’r Barri at y cyfansoddiad hefyd gan greu un rhanbarth arfordirol mawr. Efallai y gellir ychwanegu Penarth yn ogystal, mae gan y cyrchfannau hyn fanteision ac anfanteision tebyg gan eu bod yn gyrchfannau glan môr ac efallai y byddai’n fuddiol eu cyfuno mewn un etholaeth enfawr?

**BCW-10377 / [redacted] / Llangollen**

Yn ddaearyddol, mae’n gwneud synnwyr i ni BEIDIO â bod yn rhan o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Nid ydynt eisiau ein gwasanaethu’n dda gan ein bod mewn ardal nad yw’n perthyn mewn gwirionedd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam oherwydd ei phellter o’r ddinas. Rydym yn haeddu perthyn i sir a fydd yn ein cynnwys ni. Diolch yn fawr

**BCW-10378 / [redacted] / Abertawe**

Mae hepgor Pontarddulais o sedd Gŵyr ac ychwanegu Gorllewin Abertawe, yn ei hanfod, yn gyffindwyllo i greu sedd Dorïaidd o sedd Lafur ddiogel. Nid wyf yn cefnogi’r newid hwn. Yn ogystal, mae’n adlewyrchu diffyg dealltwriaeth o’r ardal, a ble a sut mae trefi a phentrefi ymyl ogleddol Gŵyr yn gysylltiedig â’i gilydd.

**BCW-10379 / [redacted] / Rhydaman**

Ni allaf gredu bod ardal ddiwydiannol hanesyddol Dyffryn Aman Uchaf yn cael ei chyfuno ag ardal amaethyddol Aberhonddu a Maesyfed.

A ydych chi wir yn meddwl y bydd ychwanegu Cwm-tawe at yr enw yn tawelu preswylwyr yr ardal yr effeithir arni?

Dyma ymarfer ar bapur a wnaed mewn swyddfa yn rhywle ymhell oddi wrth realiti. Gallwn ddeall pe bai ardal Brynaman a Gwauncaegurwen yn cael ei chynnwys yn ardal etholiadol Caerfyrddin.

Edrychwch ar y map. Ceir gwahaniad daearyddol amlwg, hyd yn oed. Dyma ddwli llwyr.

Mae arian yn cael ei wastraffu ar adeg pan ddylid tynhau'r gwregys.

Ar raddfa ehangach, mae etholaeth Castell-nedd wedi'i darnio – gyda rhai ardaloedd yn Abertawe ac ardaloedd eraill ym Mhorthcawl.

Dyma brawf bod y DU yn prysur ddod yn genedl sy'n gweithredu ar faterion sy'n ddibwys ac yn methu â defnyddio adnoddau lle bo angen, sef:
Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
Gofal Cymdeithasol (a'r effaith ar y GIG)
Addysg (sy'n newid drwy'r amser heb unrhyw welliant)
Trafnidiaeth – cyswllt yr M4, seilwaith lleol.

**BCW-10380 / [redacted] / Cwm-parc**

Mae eich cynigion newydd yn waeth hyd yn oed na'r rhai diwethaf. Heb fodloni ar rannu Cwm Cynon yn ddau hanner a gwthio Merthyr i mewn iddo (gan anwybyddu llif naturiol y ddaearyddiaeth leol yn llwyr, a sicrhau y byddai'r AS newydd yn cynrychioli dwy fwrdeistref sirol), rydych chi bellach wedi gwthio Pencoed i Rondda... a gwneud yn union yr un peth yno, a sicrhau y bydd ail AS Rhondda Cynon Taf bellach yn cynrychioli dwy fwrdeistref sirol.

**BCW-10381 / [redacted] / Castell-nedd**

Rwy'n gwrthwynebu unrhyw wanhau ar gynrychiolaeth Cymru yn San Steffan. Dyma Lywodraeth sydd wedi adeiladu ei sylfaen ar hiliaeth, gwahaniaethu, rhagfarn ac allgáu cymdeithasol... sy'n ceisio dadwneud datganoli... sy'n cyffindwyllo i greu seddau ychwanegol â'r comisiwn ffiniau yn Lloegr gan ostwng cynrychiolaeth yr Alban a Chymru yn San Steffan... ni ellir ymddiriedir ynddynt i weithio er lles gorau ein heconomi, ein cenedl na'n pobl... ni ddylid caniatáu iddynt gynnig y fath anghydraddoldeb sylfaenol am resymau gwleidyddol pleidiol.

**BCW-10382 / [redacted] / Brynbuga**

Gofynnaf i chi symud y ffin fel nad yw'n mynd drwy gronfa ddŵr Llandegfedd. Mae'r gronfa'n ddarn o seilwaith hollbwysig yn ne Cymru ac mae angen delio â dau gyngor er mwyn cwblhau gwaith prosiect yn aneffeithlonrwydd diangen. Gan na fyddai unrhyw eiddo yn cael ei effeithio gan symud y ffin un ffordd neu'r llall, ni ddylai hynny fod yn rhy heriol.

**BCW-10383 / Cyng Jonathan Bishop / Pontypridd**

Dylid symud Ffynnon Taf, Pont-y-clun a Phentyrch i Bontypridd. Mae pob un o'r rhain yn dibynnu ar wasanaethau Clwstwr Taf Elái y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac maent fel arall yn gysylltiedig â Thaf Elái a gwmpasir gan Bontypridd o ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a hen Fwrdeistref Taf Elái.

Dylid symud Abercynon a Phenrhiw-ceibr i Gwm Cynon gan eu bod yn fwy cysylltiedig â'r rhan honno o Rhondda Cynon Taf.

# Parc Canol Group Practice

We work from three surgery premises; our main surgery is in Church Village and we have two branch sites in Beddau and Creigiau. The practice covers Tonteg, Church Village, Llantwit



Fardre, Efail Isaf, Groesfaen, Creigiau, Pentyrch and outlying farms.

Our main site address: Central Park, Church Village, Pontypridd CF38 1RJ

The addresses of our branch sites are:

- Garth View, Beddau, CF38 2DA
- 69 Parc-Y-Bryn, Creigiau, Cardiff, CF15 9SE

11:27 4G
taffelycluster.com

Taff Ely
Primary Care Cluster Services

# Taff-Ely Surgeries

There are 7 GP practices operating in the Taff Ely cluster area, please click below for further info.

ASHGROVE SURGERY

NEW PARK / GWAUNMISKIN SURGERIES

PARC CANOL GROUP PRACTICE

TAFF'S WELL SURGERY

EGLWYSBACH, TONTEG & YNYSYBWL SURGERIE

OLD SCHOOL / LLANHARRY SURGERY

TAFF VALE PRACTICE

**BCW-10384 / [redacted] / Caernarfon**

Felly, rydych chi'n symud Bangor yn ôl i etholaeth Conwy fel yr oedd tua 20 mlynedd yn ôl. Ar y pryd, roeddwn yn gwrthwynebu gosod Bangor yn etholaeth Gwynedd, ond bellach, credaf fod Bangor yn well ei byd o gael ei chynrychioli yn ardal Gwynedd gan mai Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod lleol sy'n gwasanaethu'r ddinas ac mae'n cael ei chynrychioli'n dda ar lefel Seneddol gan yr AS presennol.

**BCW-10385 / [redacted] / Llandudno**

Mae hyn yn creu ffin annaturiol iawn. Byddai afon Conwy yn well. Bu gan Landudno a Bae Colwyn gysylltiadau erioed fel cyrchfannau gwyliau cyfagos ac maent yn cydweithio'n dda. Bydd eu gwahanu yn golygu y bydd Bae Colwyn yn dirywio ymhellach fyth. Nid oes unrhyw gysylltiadau rhwng Llandudno a Bangor, ond mae cysylltiadau'n bodoli rhwng Bangor a Chaernarfon. Defnyddiwch afon Conwy fel ffin a chael hen siroedd Gwynedd a Chlwyd yn unig, ond symudwch y ffin ychydig. Byddai cael dim mwy na 12 sir yng Nghymru yn arbed ffortiwn, gyda digon o boblogaeth i gefnogi'r Cynghorau ac adrannau mwy o faint sy'n gallu darparu'r gwasanaethau gofynnol. Ar ben hynny, dylid cael un gwasanaeth heddlu, un gwasanaeth tân, a dau fwrdd iechyd.

**BCW-10386 / [redacted] / Hwlffordd**

Dylai Cymru gael rhagor o gynrychiolaeth, nid llai. Mae angen llywodraeth gref yn San Steffan i wrthsefyll yr asgell chwith loerig yng Nghaerdydd.

**BCW-10387 / Cyng Jan Butler / Penperllenni**

Fi yw'r Cynghorydd Sir dros Goetre Fawr ac rwy'n cefnogi'n llawn y cynnig hwn a fydd yn ei gwneud yn haws i breswylwyr ddeall y broses ddemocrataidd.

**BCW-10388 / [redacted] / Aberdâr**

ETHOLAETH NEWYDD: CYNONDÂR TUDFUL FECHAN

Yn gyntaf, gadewch i mi fynd i'r afael â mater a ystyrir yn foesol, yn ymwneud â chymuned, hunaniaeth ac undod: am ba bynnag reswm, mae CFfG yn fodlon creu ffin galed yng Nghwm Cynon, ac mae ganddo hanes o ddymuno rhwygo fy etholaeth yn ddarnau yn ôl pob golwg. Rydym yn gwm, nid dinas, ac ni ellir ein rhannu ar ryw system grid.

Mae pob cynnig rwyf wedi'i weld a gyhoeddwyd gan CFfG, gan fynd yn ôl dros ddegawd, wedi bod eisiau gorfodi gwahaniad. Ydych chi'n cofio'r cynnig i'n gwthio i mewn i Rondda - NA!

Fe'm hysbysir gan ffynhonnell ddibynadwy eich bod yn ymwybodol o'r dirmyg llwyr sydd gan breswylwyr tuag at eich cynnig afresymegol a diog, ond rydych yn credu bod eich cynnig yn opsiwn haws, gan adael llonydd i ardaloedd fel Rhondda a Merthyr Tudful.

Dywedir eich bod wedi dweud nad oes opsiwn arall. Nid yw hynny'n wir. Am ryw reswm rhyfedd, rydych chi'n awgrymu gwahanu hanner isaf Cynon a'i osod ym Mhontypridd, ond eto'n cynnwys hanner isaf Merthyr Tudful – felly, nid oes unrhyw bwynt symud Aberpennar ac ardaloedd i'r de.


Ar ben hynny, rydych wedi ystyried bod angen ailenwi'ch cynnig, gan roi enw rhyw le a "Chynon Uchaf", a gadael i frand Pontypridd lyncu hanner isaf Cwm Cynon. Na! Hyd yn oed os yw eich cynnig yn sefyll, mae'n rhaid cael yr enw Cwm Cynon a Merthyr neu Aberdâr a Merthyr. Ond er mwyn eich cynorthwyo, rwyf wedi darparu mapiau sy'n nodi fy nghynnig ar gyfer etholaeth sy'n cadw Cwm Cynon heb unrhyw symudiad cyfandirol yn ein rhwygo'n ddarnau; rwyf hefyd wedi cynnwys rhannau uchaf Merthyr sydd agosaf at Flaenau'r Cymoedd, a nodi'n gywir yr enw hanesyddol ar gyfer yr ardaloedd hynny, gydag ychydig o addasiad, sef CynonDâr Tudful Fechan.


Mae hwn yn gynnig llawer mwy realistig a gallai ddenu mwy o gefnogaeth na'ch cynnig chithau.

Rwy'n sylweddoli y bydd angen i chi fastardeiddio eich ffurfiad ar gyfer Merthyr, ond nid fy mhroblem i yw hynny, ond eu problem nhw a'ch problem chi! Byddwch yn ofalus, oherwydd mae'n RHAID i Gynon barhau fel endid.


| CYNONDÂR TUDFUL FECHAN | planconstnumber | planconstname | planconstelect | primauthcd | primauthnm | wardcode | wardname | electorate | wmcconstcd | wmcname |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CynllunCymru1 | 1 | Cymru 001 | 70973 | W06000016 | Rhondda Cynon Taf | W05000688 | Rhigos | 1370 | W07000070 | Cwm Cynon |
| CynllunCymru1 | 1 | Cymru 001 | 70973 | W06000016 | Rhondda Cynon Taf | W05000672 | Hirwaun | 3167 | W07000070 | Cwm Cynon |
| CynllunCymru1 | 1 | Cymru 001 | 70973 | W06000016 | Rhondda Cynon Taf | W05000684 | Pen-y-waun | 1973 | W07000070 | Cwm Cynon |
| CynllunCymru1 | 1 | Cymru 001 | 70973 | W06000016 | Rhondda Cynon Taf | W05000659 | Gorllewin Aberdâr/ Llwydcoed | 7404 | W07000070 | Cwm Cynon |
| CynllunCymru1 | 1 | Cymru 001 | 70973 | W06000016 | Rhondda Cynon Taf | W05000658 | Dwyrain Aberdâr | 4909 | W07000070 | Cwm Cynon |
| CynllunCymru1 | 1 | Cymru 001 | 70973 | W06000016 | Rhondda Cynon Taf | W05000655 | Gogledd Aberaman | 3609 | W07000070 | Cwm Cynon |
| CynllunCymru1 | 1 | Cymru 001 | 70973 | W06000016 | Rhondda Cynon Taf | W05001017 | De Aberaman | 3541 | W07000070 | Cwm Cynon |
| CynllunCymru1 | 1 | Cymru 001 | 70973 | W06000016 | Rhondda Cynon Taf | W05001020 | Cwm-bach | 3751 | W07000070 | Cwm Cynon |
| CynllunCymru1 | 1 | Cymru 001 | 70973 | W06000016 | Rhondda Cynon Taf | W05001024 | Dwyrain Aberpennar | 2254 | W07000070 | Cwm Cynon |
| CynllunCymru1 | 1 | Cymru 001 | 70973 | W06000016 | Rhondda Cynon Taf | W05000680 | Gorllewin Aberpennar | 3123 | W07000070 | Cwm Cynon |
| CynllunCymru1 | 1 | Cymru 001 | 70973 | W06000016 | Rhondda Cynon Taf | W05000705 | Ynys-y-bwl | 3433 | W07000070 | Cwm Cynon |
| CynllunCymru1 | 1 | Cymru 001 | 70973 | W06000016 | Rhondda Cynon Taf | W05000681 | Penrhiw-ceibr | 4056 | W07000070 | Cwm Cynon |
| CynllunCymru1 | 1 | Cymru 001 | 70973 | W06000016 | Rhondda Cynon Taf | W05000657 | Abercynon | 4441 | W07000070 | Cwm Cynon |
| CynllunCymru1 | 1 | Cymru 001 | 70973 | W06000024 | Merthyr Tudful | W05000895 | Faenor | 2880 | W07000071 | Merthyr Tudful a Rhymni |
| CynllunCymru1 | 1 | Cymru 001 | 70973 | W06000024 | Merthyr Tudful | W05000709 | Dowlais | 5014 | W07000071 | Merthyr Tudful a Rhymni |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CynllunCymru1 | 1 | Cymru 001 | 70973 | W06000024 | Merthyr Tudful | W05000713 | Penydarren | 3818 | W07000071 | Merthyr Tudful a Rhymni |
| CynllunCymru1 | 1 | Cymru 001 | 70973 | W06000024 | Merthyr Tudful | W05000710 | Gurnos | 3477 | W07000071 | Merthyr Tudful a Rhymni |
| CynllunCymru1 | 1 | Cymru 001 | 70973 | W06000024 | Merthyr Tudful | W05000712 | Y Parc | 3296 | W07000071 | Merthyr Tudful a Rhymni |
| CynllunCymru1 | 1 | Cymru 001 | 70973 | W06000024 | Merthyr Tudful | W05000708 | Cyfarthfa | 5457 | W07000071 | Merthyr Tudful a Rhymni |


Plan Builder
New
Open
Save
Export
Settings
Tools
WalesPlan1
Seats 31
Electorate 2270262
Quota 73234
Minimum 69724
Maximum 77062
Unassigned Avg 73310
Assigned Avg 70973
Unassigned 2199289
1 Wales 001 70973 Yes
2 Wales 002 0 -69724
3 Wales 003 0 -69724
4 Wales 004 0 -69724
5 Wales 005 0 -69724
6 Wales 006 0 -69724
7 Wales 007 0 -69724
8 Wales 008 0 -69724
9 Wales 009 0 -69724
10 Wales 010 0 -69724
Powys / Tawe-Uchaf
Electorate: 1763
Active Ward
Name Cyfarthfa 5457
Local Auth Merthyr Tydfil 45081 (0.62 Quotas)
Current Const Merthyr Tydfil & Rhymney 56589
Active Plan Consituency
Name Wales 001
Electorate 70973
Up to 1249 may be removed.
Up to 6089 may be added.
Colour
Opacity 0.75
Update
W05000688 Rhigos 1370
W05000672 Hirwaun 3167
W05000684 Pen-y-waun 1973
W05000659 Aberdare West / Llwydcoed 7404
W05000658 Aberdare East 4909
W05000655 Aberaman North 3609
W05001017 Aberaman South 3541
Leaflet | Boundary data © Ordnance Survey, Copyright and database right 2010-2020
Map data ©2022 Terms of Use
Design © 2020 Kevin Larkin. Contact:
To help keep this website available and up to date please consider making a contribution.



Plan Builder
New
Open
Save
Export
Settings
Tools
WalesPlan1
Seats 31
Electorate 2270262
Quota 73234
Minimum 69724
Maximum 77062
Unassigned Avg 73310
Assigned Avg 70973
Unassigned 2199289
1 Wales 001 70973 Yes
2 Wales 002 0 -69724
3 Wales 003 0 -69724
4 Wales 004 0 -69724
5 Wales 005 0 -69724
6 Wales 006 0 -69724
7 Wales 007 0 -69724
8 Wales 008 0 -69724
9 Wales 009 0 -69724
10 Wales 010 0 -69724
Powys / Tawe-Uchaf
Electorate: 1763
Active Ward
Name Cyfarthfa 5457
Local Auth Merthyr Tydfil 45081 (0.62 Quotas)
Current Const Merthyr Tydfil & Rhymney 56589
Active Plan Consituency
Name Wales 001
Electorate 70973
Up to 1249 may be removed.
Up to 6089 may be added.
Colour
Opacity 0.75
Update
W05000688 Rhigos 1370
W05000672 Hirwaun 3167
W05000684 Pen-y-waun 1973
W05000659 Aberdare West / Llwydcoed 7404
W05000658 Aberdare East 4909
W05000655 Aberaman North 3609
W05001017 Aberaman South 3541
Leaflet | Boundary data © Ordnance Survey, Copyright and database right 2010-2020
Map data ©2022 Terms of Use
Design © 2020 Kevin Larkin. Contact:
To help keep this website available and up to date please consider making a contribution.
CYNONDAR TYDFIL FECHAN

# Pontypridd





(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2022] OS [100047875]

# Pontypridd


CYNONDAR TYDFIL FECHAN
kilometres
Scale 1:90,440
2. Glyncoch (2,006)
3. Mountain Ash East (2,254)
4. Mountain Ash West (3,123)
5. Penrhiwceiber (4,056)
6. Pontypridd Town (2,208)
7. Rhydfelen Central/Ilan (3,037)
8. Talbot Green (1,965)
9. Treforest (2,862)
10. Tyn-y-nant (2,454)
Ynysybwl
(3,433)
Abercynon
(4,441)
Cilfynydd
Ton-teg
(3,183)
Llanharry
(3,221)
© Crown copyright and database rights [2022] OS [100047875]


# Merthyr Tudful a Chynon Uchaf




Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2022] OS [100047875]

## Merthyr Tydfil and Upper Cynon




© Crown copyright and database rights [2022] OS [100047875]

**BCW-10389 / [redacted] / Pen-y-bont ar Ogwr**

Yr hyn rydych chi’n ceisio ei wneud yw rigio etholiadau. Dyna sut mae’n edrych. Pwy sy’n rhoi hawl ddemocrataidd i chi wneud hyn, y cyhoedd y dylech fod yn atebol iddynt Na! Ail-lunio map i wneud llai a chreu un newydd wrth dynnu Port Talbot allan o Gastell-nedd Port Talbot a Phorthcawl y Pîl allan o Ben-y-bont ar Ogwr i greu ardal newydd Aberafan a Phorthcawl. Mae’n edrych fel chwarae ffyliaid a chelwydd wrth greu un arall nad oedd yn bodoli er mwyn cwtogi’r niferoedd rwy’n meddwl na. Mae’n ymwneud â rigio’r system i ffafrio un blaid. Ac nid ydych yn cael eich ethol i wneud newidiadau. Dylai’r cyhoedd gael pleidlais ar hyn. Mae’n ymgais glir i geisio rigio etholiadau.

**BCW-10390 / [redacted] / Meifod**

Cytunaf â’r ffiniau newydd arfaethedig ar gyfer yr etholaeth hon sy’n adlewyrchu hanes a demograffeg yr ardal. Cytunaf y dylid cadarnhau’r newid arfaethedig hwn.

**BCW-10391 / [redacted] / Aberhonddu**

O ystyried y maint daearyddol a’r problemau logistaidd a ddaw yn sgil hynny, rwy’n meddwl mai’r peth olaf sydd ei angen yw ei wneud yn fwy. Nid yw Pontardawe o fewn Sir Powys hyd yn oed. Nid ydym yn gweld yr AS presennol yn aml ar hyn o bryd, ac wrth ychwanegu ardal arall, byddwn yn siŵr o’i gweld yn anamlach fyth.

**BCW-10392 / [redacted] / Trefynwy**

Mae’n ymddangos yn rhesymegol cael y ffin seneddol i gyfateb i ardal y Cyngor Sir. Byddai’n achosi llawer llai o ddryswch i bawb.

**BCW-10393 / [redacted] / Trebannws**

Yn anffodus, nid yw’r ardal newydd a awgrymir yn cynrychioli ein pentref, mae gennym gysylltiadau a gwerthoedd sy’n agos at Abertawe a Chastell-nedd. Mae’r newidiadau hyn yn gosod cymuned faestrefol gyda chymunedau gwledig. Mae gennym anghenion gwahanol iawn ac ni fydd y ffiniau yn ein cynrychioli’n llawn.

**BCW-10394 / [redacted] / Treffynnon**

Mae’r cynnig hwn yn hollol wallgof. Mae’n golygu y bydd AS y sedd yn goruchwylio tri chyngor sir ar wahân. Hefyd, mae’n gwahanu Treffynnon a’r Fflint a’r Wyddgrug. Mae economïau’r trefi hyn yn cydblethu.

Nid oedd unrhyw beth o’i le ar y ffin a gynigiwyd yn flaenorol.

**BCW-10395 / [redacted] / Casnewydd**

Newid yn llechwraidd. Mae'n nodweddiadol o'r llywodraeth hon! Dylid rhoi cyhoeddusrwydd mawr i hyn er mwyn i bobl allu gwneud dewis gwybodus!

**BCW-10396 / [redacted] / Maesteg**

Mae'r cynnig bod Cymru'n colli 20% o'i chynrychiolaeth yn San Steffan yn chwerthinllyd. Mae angen rhagor, nid llai. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth y DU wedi gwneud mwy i hybu annibyniaeth yng Nghymru nag y gallai Plaid Cymru ei wneud erioed, oherwydd y ffocws llwyr ar Loegr. Pam mae etholaethau yn seiliedig ar niferoedd yn unig? Mae hon yn fformiwla or-syml iawn ac mae bron yn siŵr o sicrhau bod gwledydd llai'r DU yn cael eu cosbi. Does dim amheuaeth y bydd Lloegr yn cael mantais. Sylwaf fod Lloegr yn cael 10 sedd ychwanegol a gaiff eu colli gan Gymru a'r Alban, ac ailadroddaf fy mhwynt uchod.

Mewn perthynas ag etholaeth arfaethedig Pen-y-bont. Sylwaf, e.e., yr aliniad rhwng Porthcawl ac Aberafan, a Phencoed a Rhondda. Ar hyn o bryd, mae'r rhain yn ardaloedd awdurdodau lleol gwahanol, felly a yw hyn yn golygu y bydd angen ad-drefnu (â chost ddrud) yr awdurdodau lleol unwaith eto?

Cofiaf hefyd y cafodd etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr ac etholaeth Ogwr eu ffurfio ym 1983 ar ôl i hen etholaeth (Lafur ddiogel) Ogwr gael ei hystyried yn anhreiddiadwy gan y llywodraeth Geidwadol ar y pryd. AS Ceidwadol sydd gan Ben-y-bont ar Ogwr ar hyn o bryd – ni ddywedaf ragor!

Sylwer nad oes llawer sy'n gyffredin rhwng anghenion cymunedau'r cymoedd i'r gogledd o'r etholaeth newydd arfaethedig ac, e.e., tref Pen-y-bont ar Ogwr. Fel yr amlinellir uchod, nid yw defnyddio niferoedd yn unig i bennu'r ffiniau yn cymryd i ystyriaeth, e.e., y gwahaniaethau o ran demograffeg, economeg a heriau.

**BCW-10397 / [redacted] / Wrecsam**

Annwyl swyddogion y Comisiwn Ffiniau

Darllenais â syndod plaen y sylwadau canlynol mewn perthynas â’r man lle’r wyf yn byw ac felly’r ardal lle’r wyf yn pleidleisio, a gymerwyd o Wrexham.com, ynghylch y cynnig i gynnwys ward Ponciau yn ei chyfanrwydd ym Maldwyn a Glyndŵr:

Derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau a oedd yn argymell ychwanegu wardiau etholiadol Ponciau, Pant a Johnstown at y cynnig cychwynnol, er bod llawer o gynrychiolaethau’n dadlau bod gan yr ardal hon gysylltiadau cryf â Wrecsam.

“Cynigiodd y Blaid Geidwadol newidiadau i’r cynnig cychwynnol a theimlwyd y gellid cyflawni canlyniad dymunol wrth rannu ward etholiadol Ponciau a gosod ardaloedd Rhosllannerchrugog a Phonciau ym Maldwyn a Glyndŵr, a gosod ardal Esclusham yn Wrecsam. Roedd cefnogaeth i’r cynnig, ac roedd cynrychiolaethau’n nodi bod rhaniad clir rhwng Rhosllannerchrugog ac Esclusham, felly byddai hon yn ffordd synhwyrol o rannu’r ardal.”

Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau… mae’r Comisiwn yn credu bod cefnogaeth sylweddol dros gadw etholaeth bresennol Maldwyn a’i chyfuno â wardiau i’r gogledd yng Nghlwyd ac ar gyrion Wrecsam. Nid yw’r Comisiwn yn cytuno â’r cynrychiolaethau o blaid rhannu ward etholiadol Ponciau, ac felly mae’n cynnig etholaeth sy’n cynnwys ward etholiadol Ponciau yn ei chyfanrwydd.”

Yn y bôn, mae hyn yn golygu y bydd pentrefi’r Bers a Rhostyllen sydd, ac rwy’n siŵr eich bod yn hollol ymwybodol o hyn, yn ddaearyddol ar yn un ochr â Wrecsam i ffordd yr A483 (sy’n creu marciwr cyfleus) ac sydd ar gyrion Wrecsam yn llythrennol, yn cael eu symud i etholaeth newydd sy’n cwmpasu ardaloedd nad ydym yn rhannu unrhyw gysylltiadau â nhw ac eithrio ein bod o fewn Cymru. Gan dderbyn bod gan y comisiwn waith i’w wneud ac felly bydd y ffiniau’n cael eu hail-lunio, mae colli’r cyfle hwn i roi’r Bers a Rhostyllyn o fewn etholaeth Wrecsam, sy’n llawer mwy rhesymegol, yn ymddangos yn annoeth a difeddwl i mi.

Cyferbynnwch hyn â barn y Comisiwn ar Frymbo a Mwynglawdd (sydd yn llythrennol i fyny’r ffordd ac ar ochr ARALL yr A483), a gymerwyd eto o Wrexham.com:

Mae’r adroddiad heddiw’n nodi rhywfaint o’r adborth lleol, “Derbyniodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau, gan gynnwys gan AS Wrecsam ac AS De Clwyd, a ddywedodd fod wardiau etholiadol Brymbo a Mwynglawdd yn rhannu cysylltiadau lleol a chymunedol â Wrecsam, yn hytrach nag Alun a Glannau Dyfrdwy i’r gogledd. Roedd y cynrychiolaethau hyn yn dadlau na ddylai’r wardiau hyn gael eu cynnwys yn yr etholaeth arfaethedig hon ac y dylent aros o fewn etholaeth Wrecsam.”

“Roedd consensws ymhlith y pleidiau gwleidyddol y dylai wardiau etholiadol Brymbo a Mwynglawdd gael eu dychwelyd i etholaeth arfaethedig Wrecsam. Roedd y Blaid Geidwadol hefyd yn cynnwys ardaloedd Bagillt a’r Fflint yn etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy. Roedd Plaid Cymru’n rhannu’r ardal, gan gynnwys y Fflint yn etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy, a Bagillt yn etholaeth Delyn. Roedd y Democratiaid Rhyddfrydol yn cynnig cadw’r ardaloedd o fewn etholaeth Delyn.”

Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau…. mae’r Comisiwn yn cytuno â’r cynrychiolaethau a ddywedodd y dylid cynnwys wardiau etholiadol Brymbo a Mwynglawdd yn etholaeth Wrecsam, a’r cynrychiolaethau a ddywedodd fod ardaloedd Bagillt a’r Fflint yn rhannu mwy o gysylltiadau lleol â’r wardiau sydd wedi’u cynnwys yn Alun a Glannau Dyfrdwy.”

Fel un o drigolion y Bers, ni allaf gefnogi unrhyw newid i’r ffin sy’n gweld pentrefi sydd ymhellach i ffwrdd o Wrecsam yn cael eu cynnwys yn Wrecsam, a’n pentref ni’n cael ei wahanu, ar sail yr hyn sy’n ymddangos yn ddim mwy na hap rifiadol.

Byddwn yn gofyn i’r Comisiwn ailystyried ei gynigion yn yr achos hwn.

Diolch i chi am gymryd yr amser i ddarllen y farn hon ar y cynnig.

Cofion

[redacted]
Y Bers, Wrecsam.

**BCW-10398 / [redacted] / Maesteg**

1. Mae pobl Cymru eisoes heb gynrychiolaeth ddigonol yn San Steffan i raddau helaeth – byddai lleihau nifer yr ASau Cymreig yn golygu anfantais bellach i Gymru. Mae pwy bynnag fu'n llunio'r cynlluniau hyn wedi dangos diffyg dealltwriaeth a diffyg parch amlwg tuag at bobl Cymru a'r materion y maent yn eu hwynebu a thuedd glir tuag at etholaethau (asgell dde yn gyffredinol) yn Lloegr. A oedden nhw'n meddwl na fyddem yn sylwi?!

2. Mae'r cynllun presennol i gyfuno etholaeth Ogwr â Phen-y-bont ar Ogwr yn dangos yr un diffyg dealltwriaeth amlwg o ddemograffeg gymdeithasol ac economaidd yr ardaloedd gwahanol hyn. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn dref noswylio gymharol gyfoethog sy'n tyfu ac yn newid yn gyson. Mae Maesteg, er enghraifft, yn ardal o amddifadedd cymdeithasol sydd wedi dioddef oherwydd diffyg buddsoddiad. Rwy'n amau a fyddai AS etholedig Pen-y-bont yn canolbwyntio eu hymdrechion y tu hwnt i'r dref honno (ceidwadwr yw AS presennol Pen-y-bont ar Ogwr – a dyna ddweud digon!).

3. Mae'n ymddangos bod isafswm nifer yr etholwyr yn nifer mympwyol a dynnwyd o'r awyr. Byddai gennyf ddiddordeb mewn sut y penderfynwyd ar y nifer hwn. Beth bynnag, fel rwyf wedi'i grybwyll uchod, mae'n rhaid mai natur a demograffeg etholaethau ddylai fod y ffactor sy'n penderfynu, yn hytrach na nifer.

Diolch i chi.

**BCW-10399 / [redacted] / Hwlffordd**

Mae'n ymddangos yn rhyfedd bod Sir Benfro'n cael ei rhannu mewn ffordd wahanol i'r tro diwethaf? Beth am osod Sir Benfro gyfan gyda'i gilydd?

**BCW-10400 / [redacted] / Wrecsam**

Mae'r cynnig hwn i symud Y Waun a'r cyffiniau i Faldwyn yn hollol wirion. Mae gan y Waun gysylltiad hir â Wrecsam gan mai hon yw'r brif dref yn ein hardal. Yn wir, mae gan y Waun fwy o gysylltiad â Chroesoswallt (Lloegr) nag unrhyw dref yn Sir Drefaldwyn. Anogaf y comisiwn i ailystyried y penderfyniad cwbl hurt hwn. Y canlyniad gorau fyddai ailsefydlu etholaeth De Clwyd, neu os na ellir gwneud hynny, symud y Waun a'r cyffiniau i etholaeth Wrecsam.

## BCW-10401 / Cyng Louise Brown / Sir Fynwy

Y Comisiwn Ffiniau

Arolwg 2023 o Etholaethau Seneddol – Cymru

Annwyl Syr/Madam,

Deallaf na fu unrhyw newidiadau ar gyfer Sir Fynwy yn y cynigion diwygiedig hyn ers y cynigion cychwynnol a gyhoeddwyd yn 2021 a'r argymhelliad y bydd yr etholaeth seneddol newydd yn dilyn ffin yr awdurdod lleol yn hytrach na'r sefyllfa drawsffiniol sydd gennym ar hyn o bryd â Dwyrain Casnewydd a Thorfaen.

Rwy'n cefnogi'r cynnig hwn yn fawr, gan ei fod yn gynnig synhwyrol a rhesymegol i gael ffiniau ar gyfer AS sy'n cyfateb i ffiniau Cyngor Sir Fynwy, ac i alw'r etholaeth yn Sir Fynwy hefyd.

Yr eiddoch yn gywir

Cyng Louise Brown
Cynghorydd Sir Fynwy
Ward Drenewydd Gelli-farch

## BCW-10402 / [redacted] / Wdig

Rwyf eisiau aros yn rhan o ogledd Sir Benfro. Mae'r cysylltiadau hanesyddol yn bwysig iawn i mi.

## BCW-10403 / [redacted] / Gwynedd

Fe fydd y newidiadau rhy fawr i'w unrhyw un cynrychioli?

Tebyg iawn i'r hyn mae'r Iechyd wedi ei wneud yn y Gogledd, yn ddearaddyol rhy fawr, ac rydym i gyd yn ymwybodol o drafferthion Betsi. Cadwalader.

Ni fuasa yn deg a'r yr Etholwyr, ac yn amhosib i unrhyw aelod hyd yn oed dod i adnabod yr holl ardal ac ei chynrychioli.

Os am newid Gwynedd a Môn yn unig.

## BCW-10404 / [redacted] / Bae Colwyn

Mae gen i wrthwynebiad llwyr yn erbyn ehangu'r ffiniau. Mewn cyfnod o argyfwng economaidd, y peth olaf sydd ei angen arnom yw cost ychwanegol biwrocratiaeth. Mae ad-drefnu Gorllewin Clwyd yn chwerthinllyd gan ei fod yn cyfuno dwy Sir, a fydd yn ddryslyd beth bynnag. Mae hyn yn wastraff arian llwyr ac mor nodweddiadol o lywodraeth Cymru.

**BCW-10405 / [redacted] / Caerdydd**

Bu gan gymuned Dinas Powys a'r pentrefannau a'r preswylfeydd cyfagos gysylltiadau cryf erioed â'r Barri a Bro Morgannwg wledig. Nid oes unrhyw awydd yn y gymuned i gael ein huno â Gorllewin Caerdydd.

Ein hawdurdod lleol yw Cyngor Bro Morgannwg. Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr i'n cysylltu â phrifddinas Caerdydd.

**BCW-10406 / [redacted] / Clunderwen**

Mae fy ngŵr a minnau'n anhapus iawn â'r cynnig i'n heiddo fod yn ardal newydd Ceredigion Preseli. Os bydd swyddfeydd y cyngor yn aros yn Aberaeron, mae'n rhy bell i ffwrdd oddi wrthym.

Mae'r ffin yn ddryslyd. Pam NA fyddem yn aros yn Sir Benfro, lle'r ydym yn hapus iawn.

**BCW-10407 / [redacted] / Corwen**

Mae'r etholaeth sy'n cael ei chynnig yn hollol warthus o safbwynt wardiau Corwen, Cynwyd a Llandrillo. Nid oes cysylltiad daearyddol na hanesyddol hefo trefi Maldwyn neu bentrefi diwydiannol Wrecsam.

Mae rhan fwya o blant yma yn ardal Llandrillo a Cynwyd yn mynd i'r ysgol uwchradd yn Y Bala (a rhai i Langollen). Corwen a Bala yw'r trefi i siopa a chymdeithasu.

Byddai Dwyfor Meirionnydd yn gartref llawer mwy naturiol i ardal Cynwyd, Llandrillo a Chorwen. Nid oes yr un cysylltiadau hefo Maldwyn!

**BCW-10408 / [redacted] / Caerdydd**

Cyfeiriaf at enw'r etholaeth arfaethedig "Dwyfor Meirionnydd".

Mae rhan fwyaf o gantref Arfon wedi'i gynnwys fel rhan o'r etholaeth newydd yma, gan gynnwys Caernarfon ei hun. Nid yw cymunedau Arfon yn cael eu cynrychioli o gwbl o fewn yr enw "Dwyfor Meirionnydd".

A fyddai modd newid yr enw i adlewyrchu'r ffaith bod cymunedau Arfon, ac felly hefyd Caernarfon, sef tref weinyddol Gwynedd gyfan, yn rhan o'r etholaeth newydd yma?

Byddai enw fel "(Caern)arfon, Dwyfor a Meirion(nydd)" yn adlewyrchu pob un o'r ardaloedd sy'n dod o fewn ffiniau'r etholaeth, nid dim ond dau ardal fel ag y mae'r enw ar hyn o bryd.

Neu, fel enw syml adnabyddus, beth am "Gwynedd"?

**BCW-10409 / [redacted] / Castell-nedd**

Mae cynnwys Cwm Tawe yn etholaeth Aberhonddu a Maesyfed yn gyffindwyllo gwrth-ddemocrataidd digywilydd dros ben. Yn ddiwylliannol, yn wleidyddol ac yn ieithyddol, mae'r cymunedau hyn yn sylfaenol wahanol i'r cymunedau gwledig ym Mhowys sy'n Saesneg eu hiaith ac yn pleidleisio dros y Torïaid. Ond wrth gwrs, dyna'r pwynt, ie? Diddymu'r pleidleisiau Llafur. Bydd cymunedau Cwm Tawe yn cael eu hanghofio, y berthynas dlawd, a chornel anghofiedig heb unrhyw gefnogaeth i'w diwylliant a'i hiaith, a gaiff ei disodli gan ddymuniadau ac anghenion yr etholwyr gwledig, cyfoethocach, hŷn.

**BCW-10410 / [redacted] / Rhydaman**

Rwy'n pryderu bod Cymru'n cael llai o gynrychiolaeth.

**BCW-10411 / [redacted] / Llandudno**

Cyn belled â'i fod yn golygu LLAI o ASau a bod yr arbedion yn cael eu rhoi i addysg a gofal cymdeithasol, mae'n rhaid ei fod yn beth da.

**BCW-10412 / [redacted] / Casnewydd**

Mae gostyngiad yn nifer yr ASau Cymreig yn gostwng llais Cymru ym mhenderfyniadau gwleidyddol y DU a dylid gwrthod unrhyw ostyngiad posibl.

**BCW-10413 / [redacted] / Casnewydd**

Mae gostyngiad yn nifer yr ASau Cymreig yn gostwng llais Cymru ym mhenderfyniadau gwleidyddol y DU a dylid gwrthod unrhyw ostyngiad posibl.

**BCW-10414 / [redacted] / Y Coed-duon**

Hollol chwerthinllyd. Pa dwpsyn fu'n llunio'r ffiniau hyn. Mae Cefn Fforest yn cael ei rhannu'n ddwy. Byddai'n llawer gwell defnyddio ffiniau naturiol megis afonydd i wahaniaethu rhwng llinellau sirol.

## BCW-10415 / Wayne David AS / Caerffili

Annwyl Syr/Madam

Ysgrifennaf i gefnogi'r cynigion diwygiedig gan y Comisiwn Ffiniau mewn perthynas ag etholaethau seneddol Caerffili a Gorllewin Casnewydd.

Rwy'n gwerthfawrogi bod y Comisiwn Ffiniau yn amlwg wedi gwrando ar yr ymchwydd o safbwyntiau'r cyhoedd yng Nghwm Rhymni Isaf yn erbyn cynigion cychwynnol y Comisiwn Ffiniau. Mae'r Comisiwn wedi cydnabod y gwrthwynebiad cryf i'r cynnig i gysylltu Basn Caerffili â Gorllewin Casnewydd. Rydych wedi cydnabod bod yr awgrym hwn yn anghynaliadwy oherwydd roedd yn ceisio cysylltu dwy ardal sydd heb lawer o gysylltiadau daearyddol, cyfathrebol, cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol.

Hefyd, rydych wedi cydnabod ei bod yn llawer mwy synhwyrol, ac yn unol â'r farn gyhoeddus, i gynnal y cysylltiadau rhwng Basn Caerffili a'i gefnwlad gyfagos yn y Cymoedd. Ar yr un pryd, rydych wedi cydnabod bod Dyffryn Sirhywi a Chwm Ebwy yn dangos cyfeiriadedd 'naturiol' tuag at ran orllewinol Casnewydd.

Mae'r cynigion diwygiedig wedi cael croeso cynnes gan yr unigolion a'r grwpiau cymunedol niferus yn y rhan fwyaf o etholaeth bresennol Caerffili a gyflwynodd sylwadau i chi.

Yr eiddoch yn gywir

**Wayne David AS**

**Aelod Seneddol Llafur Caerffili**

[redacted]

### BCW-10416 / Cyng James Pritchard / Caerffili

Annwyl Syr/Madam

Mewn ymateb i'r cynigion diwygiedig gan y Comisiwn Ffiniau mewn perthynas ag etholaethau seneddol Caerffili a Gorllewin Casnewydd, ysgrifennaf i gefnogi'r argymhellion. Roedd etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili wedi denu gwrthwynebiad sylweddol, i raddau oherwydd y gwahaniaethau enfawr o ran cysylltiadau daearyddol, cyfathrebol, cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol.

Rydych hefyd wedi cydnabod ei bod yn fwy priodol cysylltu wardiau o fewn etholaeth newydd â wardiau o fewn yr un Awdurdod Lleol. Mae'r newid hwn i'r cynnig blaenorol i'w groesawu'n fawr. Mae'r cynigion diwygiedig wedi cael croeso cynnes gan lawer o unigolion a grwpiau cymunedol yn yr ardal.

Diolch yn fawr i chi,

Cyng Jamie Pritchard, Dirprwy Arweinydd CBSC ac Aelod Cabinet dros Ffyniant, Adfywio a Newid yn yr Hinsawdd

### BCW-10417 / Cyng Chris Morgan / Caerffili

Annwyl Syr / Madam,

Ysgrifennaf atoch i ddiolch i chi am y cyfle i siarad â chi yn Abertawe yn gynharach eleni ac i ddiolch i chi am wrando.

Rwy'n cefnogi ac yn cymeradwyo'n llwyr eich cynnig diweddaraf ar gyfer etholaeth Caerffili.

Yn gywir,

Chris

Cyng Chris Morgan

### BCW-10418 / [redacted] / Caerffili

Rwyf wedi clywed gan Wayne David AS eich bod yn ystyried adfer y ffiniau seneddol fel bod Caerffili yn aros gyda'i chefnwlad naturiol, sef Llanbradach, Ystrad Mynach, Hengoed a Phontllanfraith. Rwyf mor falch o glywed hyn. Bydd yn cadw cyfanrwydd Caerffili – nid oedd y cynllun arall, yn cysylltu Caerffili â Gorllewin Casnewydd, yn gwneud unrhyw synnwyr o gwbl.

**BCW-10419 / [redacted] / Abergele**

Cefais fy synnu wrth ddarganfod hyn ar Facebook yn unig! Rydym yn byw yn Llanfair Talhaearn ac edrychwn yn naturiol at Abergele a'r arfordir ar gyfer ein holl siopa, ysgolion uwchradd, ysbytai a mynediad at wasanaethau iechyd. Am ryw reswm, cawsom ein 'torri i ffwrdd' / ein heithrio oddi wrth y rhain. Nid oes gennym unrhyw beth yn gyffredin â Bangor, nid ydym yn defnyddio Ysbyty Gwynedd, anaml yr awn mor bell â hynny i'r gorllewin, os awn o gwbl, felly nid wyf yn siŵr sut y bydd un AS yn gallu deall anghenion etholaeth mor amrywiol. Mae'n edrych fel petaem wedi'n gosod yno i fodloni niferoedd!

Pan gawson lifogydd oherwydd Storm Ciara, roedd ein AS lleol yn deall ein hanghenion gan fod ein hardaloedd cyfagos yn dioddef yr un peth – os nad i'r un graddau. Nid yw'r ffiniau hyn yn gwneud unrhyw synnwyr ac maent yn dangos diffyg dealltwriaeth o Ogledd Cymru.

**BCW-10420 / [redacted] / Caerffili**

Annwyl Syr/Madam

Ysgrifennaf i gefnogi'r cynigion diwygiedig gan y Comisiwn Ffiniau mewn perthynas ag etholaethau seneddol Caerffili a Gorllewin Casnewydd.

Rwy'n ddiolchgar bod y Comisiwn Ffiniau wedi gwrando'n amlwg ar farn y cyhoedd yng Nghwm Rhymni Isaf yn erbyn cynigion cychwynnol y Comisiwn Ffiniau. Mae'r Comisiwn wedi cydnabod bod gwrthwynebiad cryf i'r cynnig i gysylltu Basn Caerffili â Gorllewin Casnewydd. Rydych wedi cydnabod bod yr awgrym hwn yn anghynaliadwy oherwydd roedd yn ceisio cysylltu dwy ardal sydd heb lawer o gysylltiadau daearyddol, cyfathrebol, cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol.

Rwyf hefyd yn gwerthfawrogi'n fawr fod y Comisiwn wedi ystyried a chydnabod ei bod yn llawer mwy synhwyrol, ac yn unol â'r farn gyhoeddus, i gynnal y cysylltiadau rhwng Basn Caerffili a'i gefnwlad gyfagos yn y Cymoedd. Ar yr un pryd, rydych wedi cydnabod bod Dyffryn Sirhywi a Chwm Ebwy yn dangos cyfeiriadedd 'naturiol' tuag at ran orllewinol Casnewydd.

Mae'r cynigion diwygiedig wedi cael croeso cynnes gan lawer o unigolion a grwpiau cymunedol yn y rhan fwyaf o etholaeth bresennol Caerffili a gyflwynodd sylwadau i chi.

Yr eiddoch yn gywir

[redacted]

(Fel unigolyn sy'n byw yng Nghaerffili)

**BCW-10421 / [redacted] / Brynaman**

Mae'r ward hon eisoes yn rhan anghofiedig o etholaeth fawr. Nid ydym yn cael unrhyw fudd o gwbl gan ein hawdurdod lleol a chawn ein hanwybyddu i raddau helaeth. Mae cael ein symud i etholaeth lawer mwy o faint, sy'n cwmpasu ardal ddaearyddol mor enfawr, yn codi arswyd arnaf. Byddwn yn mynd o gael ein hanwybyddu i raddau helaeth, i fod yn gwbl anweledig. Sut byddwn ni'n cael ein cynrychioli yn yr ardal newydd hon. Mae'n chwerthinllyd. Mae'r ymgynghoriad hwn wedi cael cyhoeddusrwydd prin ac rwy'n siŵr y bydd newidiadau mawr yn achosi syndod i lawer.

**BCW-10422 / [redacted] / Caerffili**

Bore da

Hoffwn fynegi fy llawenydd ar y newid i'r cynnig a gyflwynwyd yn wreiddiol ar gyfer y ffiniau newydd i Gaerffili. Mae'r cynnig diweddaraf hwn, a hyrwyddwyd gan Wayne David AS, yn gwneud cymaint mwy o synnwyr i ni sy'n byw yn ardal Caerffili.

Cofion
[redacted]
Preswylydd yng Nghaerffili

**BCW-10423 / [redacted] / Aberdâr**

Annwyl dîm,

Ysgrifennaf i ofyn i chi ailystyried yr enw etholaeth arfaethedig MERTHYR a CHYNON UCHAF, a'i newid i Ferthyr ac Aberdâr neu Ferthyr a Chwm Aberdâr.

Cymeradwyir y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau i gyfuno Merthyr ac Aberdâr (a'r ardaloedd adeiledig o'u cwmpas), sy'n synhwyrol oherwydd y cysylltiadau diwylliannol, daearyddol a gwleidyddol hanesyddol rhwng y ddwy ardal, sy'n dyddio'n ôl mor bell â'r Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl gyntaf (1918).

Fodd bynnag, dylid ailystyried yr enw CYNON UCHAF ac ni ddylid ei gynnwys yn y newidiadau hyn am y rhesymau isod:

Yn gyntaf, Aberdâr (gan gynnwys yr ardaloedd cyfagos, Aberaman, Cwm-bach, Abercwmboi, Llwydcoed, Penywaun a Hirwaun) yw'r 13eg ardal tref fwyaf poblog yng Nghymru, a dylid nodi hefyd bod tref ABERDÂR (a'r ardaloedd cyfagos) yn y 97fed safle o ran ardaloedd mwyaf poblog y DU (Ffynhonnell: ystadegau poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Aberdâr, poblogaeth o 30,000+ https://www.nomisweb.co.uk/reports/localarea?compare=W37000399)

Defnyddir ardal Aberdâr ar godau post daearyddol a dyma ffin y post hefyd.

Yn syml, ABERDÂR (a'i hardal) yw'r 13eg ardal fwyaf yng Nghymru, ac er tegwch o ran anghenion cynrychiolaeth a hunaniaeth, dylid cynnwys ei henw (fel un Merthyr) yn y newid arfaethedig i'r ffiniau. Bydd cynnwys enw ABERDÂR yn helpu i gryfhau ymgysylltiad o fewn un o ardaloedd mwyaf Cymru o ran poblogaeth ac ardal ddaearyddol. Nid yw CYNON UCHAF yn enw sy'n gyfystyr, ac nid yw'n bodoli ar gyfer yr ardal ddaearyddol. Mae'n amlwg bod y rhesymu yn mynd yn groes i'r ystyriaethau a restrwch yn eich cyfarwyddebau ar gyfer newid enwau etholaethau.

Gofynnaf i chi ystyried yr enw ABERDÂR neu GWM ABERDÂR yn nheitl yr etholaeth arfaethedig hon. Rydych chi wedi cadw enw Merthyr yn y teitl.

Hefyd, mae ymchwil yn dangos bod eich cynigion wedi cadw llawer o enwau trefi eraill o fewn y teitlau, ac mae gan y trefi hyn tua hanner poblogaeth Aberdâr a'i hardal. Un enghraifft yw ardal tref Caerfyrddin (poblogaeth 15,000), a restraf yma, sy'n dref farchnad fel Aberdâr. Ac eto, mae nifer o'r trefi hyn wedi cadw eu henwau o fewn eich newidiadau i'r ffiniau. Nid yw CYNON UCHAF yn hunaniaeth mewn ystyr ddaearyddol nac ychwaith yn hunaniaeth a gydnabyddir gan bobl o fewn ardal ABERDÂR. Gofynnaf i chi, sut y bydd defnyddio enw nad yw neb yn teimlo ei fod yn eu cynrychioli, ac na ddefnyddir mewn ystyr ddaearyddol, yn helpu'r ardal hon i ymgysylltu â busnes seneddol a phleidleisio yn y dyfodol.

Rydych chi wedi cynnwys Merthyr Tudful. Gofynnaf i chi gynnwys enw Aberdâr neu Gwm Aberdâr yn y teitl.

Hefyd, mae 'Cynon Uchaf' yn derm sy'n rhannu'r cwm ac yn gwahanu daearyddiaeth. Mae'n mynd yn groes i ddaearyddiaeth a bywyd diwylliannol y cwm presennol. Mae'r cysylltiadau o ran daearyddiaeth a hanes seneddol rhwng Merthyr ac Aberdâr i'w cymeradwyo yn eich rhesymu, ac mae teimlad cryf y bydd y newid hwn yn cryfhau'r cysylltiadau, gan fod cysylltiadau hanesyddol cryf rhwng y ddwy ardal hyn a amlygwyd gyntaf yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1918 ac a welwyd mewn Deddfau dilynol yn yr 20fed ganrif.

Fy nymuniad ar gyfer fy mhlant a'r cenedlaethau o'm teulu o ardal ABERDÂR, yw y byddant yn teimlo bod eu tref a'u hardal enedigol yn cael eu cynrychioli yn enw'r sedd seneddol. Edrychwn at ein ASau am ein hunaniaeth seneddol o ddemocratiaeth, a bydd cael cynrychiolaeth i'n henw yn sicrhau ein hunaniaeth ac ymgysylltiad gwleidyddol. Fodd bynnag, byddai diffyg hunaniaeth y geiriad arfaethedig CYNON UCHAF yn y teitl yn ychwanegu at gam-gynrychiolaeth o ran hunaniaeth, daearyddiaeth a phroffilio gwleidyddol, mewn unrhyw sylwadaeth wleidyddol a ddaw yn y cyfryngau, ac o ran ymgysylltiad etholwyr, cynrychiolaeth etholwyr, a busnes seneddol. Yn gryno, mae'n rhaid ystyried cynnwys enw ABERDÂR yn y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau.

Yn olaf, rwy'n unigolyn heb gysylltiadau ag UNRHYW blaid wleidyddol ond ysgrifennaf hyn ag amharodrwydd, ond eto'n angerddol ar ôl darllen am eich newidiadau arfaethedig. Rwy'n breswylydd ac wedi fy ngeni yn yr ardal. Yn y dyfodol, rhaid i fusnes seneddol feithrin balchder cryf parhaus ac ymdeimlad o berthyn i Aberdâr (fel rwy'n dychmygu y bydd preswylwyr Merthyr a threfi eraill yn teimlo ag enw ardal eu tref yn nheitl y sedd seneddol newydd).
Gofynnaf i chi ailystyried yr enw 'MERTHYR a CHYNON UCHAF' a chynnig '**Merthyr a Chwm Aberdâr**' neu '**Ferthyr ac Aberdâr**' fel yr enw newydd a hunaniaeth yr etholaeth seneddol.

Yr eiddoch yn gywir,

[redacted]

Preswylydd yn ardal Aberdâr

**BCW-10424 / [redacted] / Pontllanfraith**

Mae’r ffordd y mae ardal Pontllanfraith / y Coed-duon wedi’i rhannu yn ddwli llwyr a dylent fod yn yr un etholaeth. Rydym yn un gymuned, i bob pwrpas, ac rwy’n cynnwys Oakdale hefyd, a dylem fod â’r un AS er mwyn osgoi pob dryswch. Sylwaf, er fy mod yn byw ar gyrion Pontllanfraith lle byddaf yn pleidleisio fel arfer, ac wedi gwneud ar hyd fy oes, rydych wedi fy ngosod bellach y tu allan i’r gymuned hon. Dylai NP12 fod ym Mhontllanfraith.

**BCW-10425 / [redacted] / Abertawe**

Lle bynnag y bo modd, ni ddylai etholaethau seneddol ymestyn dros fwy nag un ardal awdurdod lleol. Mae hyn yn gwneud ardaloedd ac etholaethau yn haws eu deall ac i etholwyr gael ymdeimlad ohonynt.

Hefyd, mae’n ymddangos i mi mai nod yr holl ymarfer hwn yw lleihau cynrychiolaeth Cymru yn San Steffan, a thrwy hynny, rhoi mwy o ddylanwad i aelodau o Loegr. Ai cynllun gwleidyddol pleidiol yw hwn? Gadawaf hynny fel cwestiwn.

**BCW-10426 / [redacted] / Aberystwyth**

Fel preswylydd yng Ngheredigion, cefnogaf ardal newydd arfaethedig Ceredigion Preseli.

**BCW-10427 / [redacted] / Y Trallwng**

Nid wyf yn cytuno â newid ffiniau fy etholaeth oherwydd credaf mai ystryw yw hyn gan lywodraeth bresennol San Steffan i gynyddu’r tebygolrwydd y bydd y blaid Geidwadol yn ennill etholiadau yn y dyfodol.

**BCW-10428 / [redacted] / Castell-nedd**

Rwy’n anghytuno â’r ffiniau newydd gan eu bod yn gostwng gwerth tref Castell-nedd. Hefyd, ni ddylid cyfuno Llansawel â Phort Talbot, gan fod Llansawel yn rhan o Gastell-nedd. Dywedaf hyn heb ragfarn gan fod AS presennol Castell-nedd wedi bod yn gwbl ddiwerth ac anaml y’i gwelir yn nhref Castell-nedd!

Mae’r ffiniau newydd, sy’n ein cyfuno â dinas fwy Abertawe, yn golygu y bydd Castell-nedd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y cyfuniad newydd ac ni fydd lleisiau’r dref yn cael eu clywed.

**BCW-10429 / [redacted] / Caerffili**

Yn ôl tystiolaeth yr arolwg hwn, mae gan Gymru ormod o ASau.

Mae'n dilyn hefyd NA ddylid ehangu'r Senedd.

Rhaid gweithredu argymhellion yr adroddiad hwn yn llawn.

**BCW-10431 / [redacted] / Wrecsam**

Ar hyn o bryd, mae unrhyw ymholiadau sydd gennyf yn ymwneud â Wrecsam.
Ym mhle fydd y ganolfan newydd ar gyfer gweithrediadau yn cael ei lleoli?

**BCW-10432/ [redacted] Cyngor Tref Pencoed / Pencoed**

Bore da

Gofynnaf i chi dderbyn y neges e-bost hon fel ymateb ffurfiol gan Gyngor Tref Pencoed mewn perthynas â'r uchod sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd

"Mae'n ymddangos bod hyd yn oed mwy o ddryswch ynghylch yr hyn sy'n cael ei gynnig ar gyfer ardal Pencoed gan y Comisiwn Ffiniau, i'r graddau nad yw rhesymeg yn drech, wrth ystyried y cafodd ffin y sir ar gyfer Pencoed ei newid ar gyfer yr etholiadau ym mis Mai 2022. Byddai'r arolwg yn gosod Pencoed yn ardal Rhondda.

Os caiff yr awgrym/cynnig hwn ei dderbyn, mae'n debygol y bydd gennym 3 ffin ar wahân ar gyfer materion etholiadol, h.y. Cymunedol, Bwrdeistrefol a Seneddol. Bydd hyn yn ychwanegu at y dryswch sydd eisoes yn bodoli ymhlith etholwyr. O ganlyniad, mae Cyngor Tref Pencoed yn gwrthwynebu'r newid arfaethedig ac yn gofyn i Bencoed a Phenprysg aros yn rhan o etholaeth newydd Pen-y-bont."

Cofion
[redacted]
Clerc y Dref

**BCW-10433 / [redacted] / Y Barri**

Pam ???

Rhagor o fiwrocratiaeth a gwastraffu arian cyhoeddus.

**BCW-10434 / [redacted] / Rhydaman**

[redacted]

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Hastings
Llys Ffitsalan
Caerdydd
CF24 0BL

22 Hydref 2022

Annwyl Syr/ Madam,

**Ynglŷn ag: Adolygiad o Etholaethau Seneddol**

Ysgrifennaf mewn ymateb i gynigion diwygiedig y Comisiwn Ffiniau i Gymru, a gyhoeddwyd ar 19 Hydref 2022. Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ystyried y sylwadau canlynol, y dylid eu darllen ar y cyd â'm llythyr dyddiedig 24 Hydref 2021. Sylwaf nad yw'r cynigion diwygiedig yn gwyro oddi wrth y cynnig gwreiddiol i drosglwyddo ardaloedd Dyffryn Aman uchaf a Chwm Tawe i Aberhonddu, Maesyfed a Chwm-tawe. Fel y dywedais yn fy llythyr cychwynnol atoch, nid oes gan ardaloedd Dyffryn Aman uchaf a Chwm Tawe unrhyw gysylltiadau traddodiadol ag Aberhonddu a Maesyfed, gan y buont bob amser yn rhan o ardaloedd diwydiannol Gŵyr neu Gastell-nedd. Yn wir, mae'n siomedig dros ben nodi nad yw Dyffryn Aman hyd yn oed yn cael ei grybwyll yn yr adroddiad.

Fel Cynghorydd Castell-nedd Port Talbot wedi ymddeol, roeddwn yn falch o fod wedi cynrychioli pentref Tai'r-gwaith, lle'r oedd y diweddar DJ Williams, AS Castell-nedd, wedi byw. Etholwyd y diweddar DJ Williams i'r senedd am y tro cyntaf yn 1945, ac yn draddodiadol, bu Tai'r-gwaith, sef pentref glofaol blaenorol â thri phwll glo dwfn – East Pit, Maerdy Pit a Steer Pit – naill ai'n rhan o etholaeth Gŵyr neu etholaeth Castell-nedd.

Sylwaf, yn ôl y cynigion diwygiedig, yr ystyrir bod cysylltiadau ffordd da rhwng Pontardawe ac Ystradgynlais. Efallai bod hynny'n wir. Fodd bynnag, pellter o tua 6 milltir yn unig sydd rhwng Pontardawe ac Ystradgynlais. Fel y nodwyd yn fy llythyr blaenorol, yn ôl cynlluniwr siwrnai RAC, mae'r pellter rhwng Trebannws yn ne'r etholaeth newydd arfaethedig a Bugeildy yn y gogledd ychydig dros 79 milltir ac mae'n daith sy'n cymryd 1 awr a 58 munud. Mae hyn yn seiliedig ar deithio mewn car preifat. Mae teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus o Bontardawe i Raeadr yn golygu taith o dros 4.5 awr, un ffordd. Felly, byddai etholaeth y gellid dadlau ei bod eisoes

yn rhy fawr yn ddaearyddol, yn anodd iawn o ran hygyrchedd i aelodau'r cyhoedd sy'n byw yn Nyffryn Aman uchaf ac yng Nghwm Tawe.

O ganlyniad, rhaid imi gofnodi fy ngwrthwynebiad i'r cynigion hyn unwaith eto. Wrth gwrs, rwy'n deall yn iawn, wrth wrthwynebu, y byddai dyletswydd arnaf i roi gwrthgynnig arall. Felly, byddwn yn awgrymu'r canlynol yn barchus:

Dylai ardaloedd Dyffryn Aman uchaf a Chwm Tawe ffurfio rhan o etholaeth newydd Castell-nedd a Dwyrain Abertawe. Wrth ddileu cyfanswm yr etholwyr ar gyfer yr ardaloedd hynny (17,259) dylid trosglwyddo'r ardaloedd canlynol i Aberhonddu a Maesyfed:

De Aberaman (3,541) o Ferthyr Tudful a Chynon Uchaf

Crucornau (1,773) a Llanelly Hill (3,286) o Sir Fynwy

Llanymddyfri (1,963) a Llangadog (1,629) o Gaerfyrddin

Blaen Hafren (1,876), Llanidloes (2,149), Llandinam (1,115), Ceri (1,607) a'r Ystog (1,292) o Faldwyn a Glyndŵr.

Ni fyddai trosglwyddo'r wardiau uchod i Aberhonddu a Maesyfed yn effeithio ar y trothwy gofynnol ar gyfer nifer yr etholwyr yn yr etholaethau dan sylw, e.e.:

Byddai Merthyr Tudful a Chynon Uchaf yn aros ar 71,264

Byddai Sir Fynwy yn aros ar 67,622

Byddai Caerfyrddin yn aros ar 69,091; a

Byddai Maldwyn a Glyndŵr yn aros ar 68,914

Byddai hyn yn rhoi cyfanswm o 67,848 o etholwyr yn Aberhonddu a Maesyfed, ar ôl hepgor Dyffryn Aman uchaf a Chwm Tawe (17,259). Rwy'n derbyn yn llwyr y byddai hyn yn golygu bod cyfanswm nifer yr etholwyr ychydig yn llai na'r trothwy gofynnol. Fodd bynnag, byddai'n parhau i fod o fewn 3% i'r trothwy isaf, ac o ystyried maint daearyddol mawr Aberhonddu a Maesyfed ac anawsterau teithio, credaf yn gryf y dylid rhoi statws arbennig i'r etholaeth, fel y cytunwyd ar gyfer Ynys Môn.

Gan droi at Gastell-nedd a Dwyrain Abertawe, byddwn yn cynnig trosglwyddo St Thomas (5,514) a Glandŵr (4,821) i Ganol a Gogledd Abertawe, gan roi 81,713 o etholwyr yn yr etholaeth honno. Byddai ychwanegu etholwyr Dyffryn Aman uchaf a Chwm Tawe at Gastell-nedd a Dwyrain Abertawe yn rhoi 79,096 o etholwyr.

Unwaith eto, rwy'n gwerthfawrogi y byddai nifer yr etholwyr yng Nghastell-nedd a Dwyrain Abertawe ac yng Nghanol a Gogledd Abertawe ychydig yn uwch na'r trothwy arfaethedig. Fodd bynnag, gan fod maint daearyddol yr etholaethau hynny yn haws ei reoli, byddai'n gynnig llawer mwy derbyniol, a byddai'n cadw'r cysylltiadau hanesyddol sydd gan yr ardaloedd hyn.

Prif ddiben fy nghynigion, fel y bu erioed, yw cadw ardaloedd Dyffryn Aman uchaf a Chwm Tawe mewn etholaeth seneddol lle mae ganddynt gysylltiadau traddodiadol. Rhaid i mi bwysleisio eto nad oes gan Ddyffryn Aman uchaf a Chwm Tawe unrhyw

gysylltiadau agos ag Aberhonddu a Maesyfed ac mae'n fwy priodol eu cynnwys yng nghadarnle diwydiannol de-orllewin Cymru.

Yn ogystal, mae'r newidiadau a awgrymaf wedi'u lleoli o amgylch ffin Aberhonddu a Maesyfed – byddai'r gogledd, y dwyrain a'r de yn cyd-fynd â chyfansoddiad gwledig yr etholaeth. Ar ben hynny, mae'r holl ardaloedd yr awgrymaf eu hychwanegu at Aberhonddu a Maesyfed yn cael eu cynrychioli yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gan eu hawdurdodau lleol priodol. Nid felly Castell-nedd Port Talbot, ac ni fu erioed. Mae hyn yn cryfhau ymhellach yr achos nad oes gan Ddyffryn Aman uchaf a Chwm Tawe unrhyw gysylltiadau o gwbl ag Aberhonddu a Maesyfed. Felly, rwy'n mawr obeithio y bydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn fodlon ystyried a gweithredu'r gwrthgynigion hyn yn eu hadroddiad terfynol.

Diolch am eich cydweithrediad.

Yn gywir,

[redacted]

**BCW-10435 / [redacted] / Cricieth**

Mae'r enw arfaethedig yn gwbl anaddas. Mae'n cyfeirio at yr etholaeth bresennol ac yn eithrio Arfon. Awgrymaf GWYNEDD yn enw mwy priodol ar gyfer yr etholaeth newydd

**BCW-10436 / Cyng Shayne Cook / Caerffili**

Prynhawn da

O ran y cynigion gan y Comisiwn Ffiniau mewn perthynas ag etholaethau seneddol Caerffili a Gorllewin Casnewydd, ysgrifennaf i gefnogi'r argymhellion newydd nad ydynt yn eu cyfuno. Roedd etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili yn amhoblogaidd iawn ymhlith mwyafrif preswylwyr Caerffili oherwydd y diffyg cysylltiadau hanesyddol, cymdeithasol a daearyddol.

Mae'r cynnig newydd ar gyfer Caerffili yn synhwyrol iawn gan fod y preswylwyr a fydd yn cael eu cynnwys o fewn y ffin newydd hon o ardaloedd fel Pontllanfraith eisoes yn rhannu cysylltiadau cymdeithasol a hanesyddol ac maent o fewn yr un awdurdod lleol. I grynhoi, mae croeso cynnes i'r cynigion diwygiedig ac maent yn gwneud synnwyr wrth symud ymlaen.

Cofion

**Cyng Shayne Cook**
Aelod Cabinet dros Dai | Cabinet Member fôr Housing
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Caerphilly County Borough Council

**BCW-10437 / [redacted] / Trecelyn**

Nid wyf yn teimlo y byddai'n bosibl rhoi cynrychiolaeth deg pe bai'r etholaeth yn dod yn Islwyn a Gorllewin Casnewydd, oherwydd mae gan yr ardaloedd hyn anghenion gwahanol iawn. Yn Islwyn, mae nifer sylweddol o gymunedau glofaol blaenorol sy'n parhau i fod angen eu hailddatblygu a buddsoddiad, tra bod Gorllewin Casnewydd yn eithaf cyfoethog. Sut gellir cydbwyso a chysoni'r gwahaniaethau hyn os yw'r un etholaeth yn eu cynrychioli?

**BCW-10438 / [redacted] / Bae Colwyn**

Rwy'n byw ym Mae Colwyn. Mae gennym gysylltiadau agos â Llandudno a Chonwy a llawer llai o gysylltiadau â'r Rhyl, Llanelwy a Dinbych. Dylai Bae Colwyn fod yn yr un etholaeth â Llandudno a Chonwy.

**BCW-10439 / [redacted] / Pontardawe**

Mae'r cynnig presennol ar gyfer Pontardawe yn ein gosod ar gyrion etholaeth newydd arfaethedig Aberhonddu, Maesyfed a Chwm-tawe – ac ychydig dros y ffin o etholaeth newydd arfaethedig Castell-nedd a Dwyrain Abertawe.

Rwy'n sylweddoli y bydd problemau lle bynnag y caiff ffiniau eu gosod, ond rwyf wedi byw yma ers 33 mlynedd, ac mae'r "dynfa naturiol" wedi bod tuag at Gastell-nedd ac Abertawe. Efallai y byddaf yn mynd i Abertawe a / neu Gastell-nedd 3 gwaith yr wythnos, ond i Ystradgynlais 3 gwaith y flwyddyn.

Rwy'n amau bod mwyafrif y bobl sy'n byw ym Mhontardawe yn teimlo'r un peth.

Rwy'n rhagdybio y byddwn yn parhau i fod yn rhan o Fwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, sy'n rheswm arall pam y credaf y byddai'n gwneud mwy o synnwyr i Bontardawe fod yn rhan o Gastell-nedd a Dwyrain Abertawe yn hytrach nag Aberhonddu, Maesyfed a Chwm-tawe.

**BCW-10440 / [redacted] / Aber-carn**

Mae'r newidiadau arfaethedig hyn ar gyfer Islwyn mor eithafol fel fy mod yn teimlo rheidrwydd i rannu fy ymdeimlad o argoelion drwg.

Rwy'n sylweddoli na allwch argymell unrhyw etholaethau sy'n cynnwys llai na 69,724 o etholwyr neu fwy na 77,062 o etholwyr, ond mae cyfuno rhan isaf cwm Islwyn â rhan o ddinas Casnewydd yn afresymol. Mae gan bobl y cwm ychydig iawn yn gyffredin neu ddim o gwbl â phobl Llanfihangel-y-fedw, neu Faerun; o fod yn rhan anghofiedig o Fwrdeistref Sirol Caerffili, byddwn yn ogystal yn dod yn rhan anghofiedig o etholaeth Gorllewin Casnewydd! Roedd gennym lais, o leiaf, fel etholaeth Islwyn; ond rydych eisiau cymryd hwnnw oddi wrthym!

Rwy'n byw yn etholaeth Islwyn ac mae'r ffaith bod dwy etholaeth wedi'u lleoli, yn eu cyfanrwydd, o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili, yn ddefnyddiol iawn i ddemocratiaeth leol. Nid yw uno Gorllewin Casnewydd ac Islwyn yn gynnig cadarn.

Mae'n ymddangos bod y gostyngiad llym a gynigir yn seiliedig ar dynnu llinellau ar fap heb unrhyw ystyriaeth i'r cymunedau oddi mewn, a byddwn yn dadlau nad yw'n gwneud dim dros ddemocratiaeth leol.

**BCW-10441 / [redacted] / Abertawe**

Rwy'n byw yn agos iawn at y ffin bresennol rhwng Powys a Chastell-nedd Port Talbot. Mae hyn yn achosi llawer o broblemau, e.e. mae fy meddyg teulu ym Mhowys, ond daw fy ngofal iechyd o dan fwrdd iechyd Bae Abertawe. Rwyf wedi cael gofal ardderchog sy'n lleol i'm cartref. Pe bai'r ffin yn newid, rwy'n bryderus na fyddai fy ngofal iechyd ar gael yn lleol, ac y byddai'n rhaid i mi newid meddygon ymgynghorol a theithio llawer yn bellach i ysbytai ac ati.

Byddai'r ffin newydd yn fy ngadael rhwng dau awdurdod newydd, a allai achosi mwy o ddryswch. Fel gwyddonydd amgylcheddol a pherson anabl, mae gallu defnyddio cyfleusterau a gwasanaethau lleol yn bwysig iawn, e.e. mae fy llyfrgell leol wedi'i lleoli ym Mhowys ac nid yng Nghastell-nedd Port Talbot, ond yn ffodus, maent wedi cytuno i ganiatáu i mi ymuno a defnyddio eu gwasanaethau. Nid yw gosod hanner Cwm Tawe mewn etholaeth wahanol o unrhyw gymorth, oherwydd yn ymarferol, mae preswylwyr yn uniaethu â'r cwm y maent yn byw ynddo ac mae materion yn aml yn gysylltiedig â'r cwm. Mae rhagor o wybodaeth am ganlyniadau'r newid hwn, nawr ac yn y dyfodol, yn hanfodol, ac mae angen rhagor o ymgynghori cymunedol.

**Oddi wrth:** [redacted]
**Anfonwyd:** 27 Hydref 2022 13:04
**At:** Shereen Williams [redacted]
**Pwnc:** Ynghylch: Cynrychiolaeth BCW-10441 – eglurhad ar newid i Etholaeth Seneddol

Shereen,

Diolch am eich ateb prydlon, mae'n braf gwybod bod y rhain yn cael eu darllen.

Y rheswm y soniais am hyn yw oherwydd bod angen i'r person rwy'n pleidleisio drosto allu dylanwadu ar y gwasanaethau rwyf i ac etholwyr eraill yn eu defnyddio. Os yw'r cynrychiolwyr etholedig mewn etholaeth wahanol i'r gwasanaethau a ddefnyddiaf, sut gallant weithredu'r polisi y maent yn ei hyrwyddo. E.e. gallai fy nghynrychiolwyr etholedig fod yn geidwadwyr, ond fy ngwasanaethau'n cael eu darparu gan awdurdod a arweinir gan lafur? Neu i'r gwrthwyneb, mae'n ddrwg gen i na ddaeth fy mhwynt drosodd yn glir. Mae'n broblem fawr pan rydych chi'n byw ar ffin, cofiwch y problemau ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr yn ystod cyfyngiadau symud COVID. Mae fy ffordd fynediad bengaead wedi'i lleoli ym Mhowys ac mae gwaelod fy ngardd ym Mhowys, a phan ddaeth y cyfyngiadau symud i rym yn ôl Awdurdodau Lleol, pe byddwn wedi dilyn y rheolau byddwn wedi bod yn gaeth i'r tŷ, yn methu â mynd i unman!

Gyda'r ffin ddiwygiedig, byddai fy lleoliad yn goridor cul rhwng etholaethau eraill.

A yw hyn yn gwneud fy mhwynt yn fwy eglur? Os na, rhowch wybod i mi.

Cofion cynnes

[redacted]

**BCW-10442 / [redacted] / Pont-y-cymer**

Rwy'n gwrthwynebu uno etholaeth Islwyn â Chasnewydd. Mae anghenion y ddau leoliad yn hollol wahanol.

Mae Islwyn wedi newid o Gyngor Dosbarth Trefol Rhisga i Islwyn, sy'n lleoliad dyffrynnol. Nid oes gennym lawer yn gyffredin â chymunedau trefol. Mae ein hanghenion a'n dyheadau yn wahanol. Mae'r dref leol, Casnewydd, yn hollol warthus. Cerddwch ar hyd y stryd fawr ac mae'r drysau'n cael eu defnyddio gan bobl ddigartref. Mae siopau wedi cau. Bu ein hardal ni ar waelod ardal y cyngor erioed, ond os cawn ein huno â thref, byddwn yn diflannu'n gyfan gwbl.

**BCW-10443 / [redacted] / Cas-gwent**

Dylai pobl Sir Fynwy bleidleisio ar b'un a ddylai fod yn rhan o Gymru. Nid oedd pleidlais pan gafodd y sir ei hatodi yn y newidiadau cynharach i'r ffiniau yn y 1970au.

**BCW-10444 / [redacted] / Wrecsam**

Pam y cadwyd hyn mor dawel? Ble mae'r ymgynghoriadau cyhoeddus yn cael eu cynnal? Nid oes gan bawb cyfrifiadur. Rwy'n gwrthwynebu. Rwy'n byw yn sir Wrecsam. Rydych chi'n newid y ffiniau o hyd fel petaech yn meddwl amdanom fel darnau gwyddbwyll. Nid ydym ni eisiau hyn. Dan eich arweinyddiaeth chi rydym yn symud tuag at unbennaeth lle mae'n rhaid i ni blygu i'ch ewyllys. Nid oes UNRHYW reswm i newid nifer y siroedd yng Nghymru. Rwy'n gwrthwynebu'r newid hwn.

**BCW-10445 / [redacted] / Tyddewi**

Annwyl Syr/Madam,

Rwy'n gwrthwynebu'r cynlluniau ar gyfer etholaethau newydd Sir Benfro. Canol a De Sir Benfro a Cheredigion Preseli.

Dylai Sir Benfro fod yn un etholaeth unedig, yn hytrach na'i rhannu'n ddwy, yn enwedig o ystyried ardaloedd fel Penrhyn Tyddewi a fydd yn cael eu rhannu rhwng dwy etholaeth.

O leiaf, byddwn yn cynnig y dylai holl Benrhyn Tyddewi, sy'n cynnwys wardiau Tyddewi, Llanrhian a Solfach o fewn y cyngor, fod yn etholaeth Canol a De Sir Benfro, ac y dylai'r ardal o Abergwaun i fyny fod yn etholaeth Ceredigion Preseli.

**BCW-10446 / [redacted] / Wrecsam**


Nid yw'r ffiniau newydd sy'n dileu De Clwyd ac yn ehangu Wrecsam a chreu etholaeth newydd "Maldwyn a Glyndŵr" yn gwneud llawer o synnwyr yn ddaearyddol, yn ddiwylliannol nac yn gyffredinol, ar wahân i fodloni'r meini prawf rhifiadol.

Mae Sir Drefaldwyn yn ardal wledig yn bennaf, ond mae'r rhan fwyaf o ardal De Clwyd yn ddiwydiannol/ôl-ddiwydiannol. Mae'r rhan fwyaf o boblogaeth De Clwyd wedi'i lleoli o fewn ardal cyngor Wrecsam, dyma'r ardal ar gyfer cyfeiriadau post, ac mae'r rhan fwyaf o bobl yn nodi eu bod "yn dod o/yn byw yn" Wrecsam.

Mae ffin Rhostyllen wedi'i lleoli filltir o ganol y ddinas, a Rhosllannerchrugog a Johnstown 1 neu 2 filltir arall. Pentrefi Wrecsam yw'r rhain. Ond bydd swyddfeydd eu hetholaeth 28 milltir i ffwrdd yn y Trallwng, felly bydd democratiaeth a'u AS yn bell i ffwrdd. Yn ogystal, mae'r heriau a'r pryderon sy'n wynebu'r pentrefi hyn yn cyfateb i rai Wrecsam, ac mae'r ardaloedd yn rhannu hanes cyffredin. Mae'r heriau'n hollol wahanol i'r rhai a geir ym Mhowys wledig.

Yr unig fodd o wrthbwyso y gallaf ei awgrymu yw trosglwyddo'r ardaloedd mwy gwledig, sydd i'r dwyrain o'r Ddyfrdwy, i Faldwyn, gan gynnwys Owrtyn, Pandy, Horseman's Green, ac o bosibl Bangor Is-coed ac ati. Er y byddai hyn yn dod â'i heriau ei hun, o leiaf byddai cymeriad yr etholaeth yn fwy cyson.

Rwyf wedi atodi map bras yn amlinellu fy awgrym. Nid wyf wedi gwneud y fathemateg o ran nifer y boblogaeth, ond gellir newid y ffiniau gan barhau i gynnal yr egwyddor o gadw pentrefi trefol/diwydiannol Wrecsam o fewn etholaeth Wrecsam.



**BCW-10447 / [redacted] / Tregynon**

Rwy’n hapus iawn â’r cynnig diwygiedig hwn. Mae’n hanfodol ein bod yn cadw sir ac etholaeth hanesyddol Sir Drefaldwyn yn gyfan, gan ychwanegu cymunedau lleol cyfagos eraill sydd â thirweddau ac anghenion tebyg. Yn ogystal, mae hyn yn cynrychioli demograffeg fodern y boblogaeth yn well; ac mae’r cynnig hwn yn cyflawni hyn.

Mae Sir Drefaldwyn yn rhannu llawer o gysylltiadau cryf â rhannau o Dde Clwyd, gan gynnwys yr ardal o amgylch Llangollen, ac rwy’n falch o glywed y bydd y cynigion presennol yn uno’r ardal hon â Sir Drefaldwyn fel rhan o etholaeth ehangach Maldwyn a Glyndŵr, gan greu etholaeth sy’n debycach i’r cyfartaleddau cenedlaethol o ran nifer yr etholwyr ym mhob etholaeth. Mae’n llawer mwy addas ein bod yn cael ein cynrychioli mewn etholaeth unedig yn hytrach na’n gwahanu a’n rhannu rhwng etholaethau eraill, sy’n bellach i ffwrdd, ac â llai o gysylltiadau rhyngom.

Rwy’n cefnogi’r cynnig ar gyfer Maldwyn a Glyndŵr.

**BCW-10448 / [redacted] / Tregynon**

Croesewir y cynigion diwygiedig gan y Comisiwn Ffiniau. Roeddwn yn bryderus ynghylch y cynigion blaenorol a oedd yn awgrymu rhannu Sir Drefaldwyn. Fel y gwyddoch, mae Sir Drefaldwyn yn gymuned hanesyddol a chlos, ac mae gan lawer o’r bobl gysylltiadau agos ar draws y sir. Mae cynnal Sir Drefaldwyn o fewn etholaeth Seneddol newydd yn dangos cydbwysedd clir rhwng bodloni paramedrau’r comisiynau, a chadw hunaniaeth gymunedol.

**BCW-10449 / [redacted] / Caerdydd**

Mae’r ffiniau presennol yn gweithio’n dda, mae’r rhai arfaethedig yn llawer rhy fawr, yn enwedig Canol Caerdydd. Fodd bynnag, byddwn yn creu ward newydd ar gyfer y Rhath, gan ei bod yn ardal ar wahân oddi wrth Blasnewydd

**BCW-10450 / [redacted] / Abertawe**

Rwy’n gwrthwynebu gwneud Glandŵr yn rhan o Gastell-nedd a Dwyrain Abertawe. Mae Glandŵr yr ochr arall i’r afon, ac yn gwbl ar wahân oddi wrth yr ardaloedd eraill rydych yn eu cyfuno, megis St Thomas a Bôn-y-maen. Nid oes gennym unrhyw beth yn gyffredin â Chastell-nedd Port Talbot, rwy’n amau bod unrhyw un o’r preswylwyr erioed wedi bod i Gastell-nedd gan fod Abertawe ar garreg eu drws. Dylai’r AS gynrychioli eu hardal.

**BCW-10451 / [redacted] / Wrecsam**

Rwyf o'r farn bod y cynigion newydd yn gwbl warthus. Rwy'n byw ychydig dros filltir i'r de o Wrecsam, ac eto bydd fy nghynrychiolydd "lleol" wedi'i leoli yn y Trallwng. Ni all y llywodraeth hon chwarae gemau gwleidyddol â ffiniau etholaethau heb ddisgwyl gwrthryfel yn yr etholiad nesaf.

**BCW-10452 / [redacted] / Brynaman Isaf**

Ni ddylai wardiau Gwauncaegurwen a Brynaman Isaf fod yn rhan o etholaeth newydd Aberhonddu, Maesyfed a Chwm-tawe. Rwyf wedi byw yma bron ar hyd fy oes, a'n tref agosaf ydyw Rhydaman, sydd yn sir Gaerfyrddin. Mae Brynaman Isaf ei hun, er yng Nghastell-nedd, wedi'i lleoli rhwng 2 ward yn Sir Gaerfyrddin. Os oes rhaid gwneud unrhyw symudiad o gwbl, dylid ei gosod yn Sir Gaerfyrddin, yn hytrach na Chastell-nedd. Byddai'r etholaeth yn llawer rhy fawr yn ddaearyddol i un AS ei chynrychioli. Mae ein hanghenion yma yn hollol wahanol i ganol Powys. Os rhywbeth, dylai Ystradgynlais ddod yn rhan o Gastell-nedd, gan fod pellter enfawr oddi yno i ganol Powys. Gofynnaf i chi ailedrych ar hyn, oherwydd ar hyn o bryd mae'r ffiniau a awgrymir yn ddisynnwyr.

**BCW-10453 / [redacted] / Dinas Powys**

Yn hanesyddol ac yn ddaearyddol, ni fu gan Ddinas Powys lawer o synergedd cymdeithasol ac economaidd â Phenarth a Chaerdydd. Tref ym Mro Morgannwg yw Dinas Powys, dyna y bu erioed, a dyna pam mae'r newidiadau arfaethedig i'r ffiniau yn methu cymunedau Dinas Powys, Penarth a Gorllewin Caerdydd. Dylid cymryd y pwyntiau hyn i ystyriaeth er mwyn atal trefi/ardaloedd rhag cael eu hynysu yn yr etholaethau diwygiedig.

**BCW-10454 / [redacted] / Wrecsam**

Nid yw'r newid arfaethedig yn gwneud unrhyw synnwyr pan fydd yn rhaid i rai etholwyr deithio pellter sylweddol i gwrdd â'u ASau. Mae rhai ardaloedd fel Llangollen a Chefn-y-bedd yn nes at Wrecsam na'r dyraniad arfaethedig. Mae hyn yn annheg, yn enwedig o ystyried y cynnydd mewn costau byw a chostau teithio.

Nid wyf yn siŵr iawn pam fod angen y newid hwn. A yw'r newid yn cael ei gynnig mewn gwirionedd er budd y cyhoedd, neu a yw ar gyfer chwarae gwleidyddiaeth?

**BCW-10455 / [redacted] / Ammanford**

1. Does dim cysylltiad naturiol rhwng y darn hyn o etholaeth Castellnedd presennol ag ardal Aberhonddu a Powys. Mae mynyddau enfawr rhyngom a fyddai fe ddim yn ymarferol mynd i weld Aelod Seneddol sy mor bell bant. Mae cysylltiadau pentref Gwaun Cae Gurwen gyda Abertawe a Chastellnedd - trafnidiaeth gyhoeddus, gwasanaethau iechyd, siopau a swyddi.
2. Gyda bod rhan o etholaeth enfawr gwledig ac amaethyddol De Powys, sy hefyd yn tueddu bod yn wleidyddol geidwadol bydd y darn ni o ardal Gwmtawe, sy'n ddinesig, ol-ddiwydiannol a radical mewn gwleidyddiaeth yn cael ei ymylu ac anghofio.
3. Bydd dim cydsynio rhwng y Cyngor Sir ag etholaeth Senedd Cymru gyda'r etholaeth San Steffan bydd yn arwain at gwanhau cynrychiolaeth penodol a chyflawn i'n hardal ni. ee. bydd e'n fwy anodd cydlynu ymatebion effeithiol i broblemau yng ngwasanaethau lleol.
4. A fydd perygl bydd ein gwasanaethau iechyd, heddlu a than yn cael eu darparu o Bowys yn y dyfodol?
5. Pam ddylwn dderbyn unrhyw leihad yn nifer etholaethau Cymru, tan i ni gael setliad ddatganoli cyflawn a theg, sy'n  cynnwys cyfiawnder a phlismona, rheilffyrdd, adeiladwaith ynni sylweddol, diwylliant a chyfryngau, a budd-daliadau?

**BCW-10456 / [redacted] / Abertawe**

Rydym ar ymyl de-orllewinol Canol a Gogledd Abertawe. Yn flaenorol, roeddem yng Ngorllewin Abertawe. Mae’n ymddangos ein bod yn ymuno â grŵp gwahanol iawn o ardaloedd wedi’u gwthio at ei gilydd. Beth yw pwynt y newidiadau hyn? Rhaid bod y gwaith yn gwastraffu llawer o arian.

**BCW-10457 / [redacted] / Treffynnon**

Rwy’n gobeithio na fydd hyn yn effeithio ar faint y grant y mae’r cyngor lleol yn ei dderbyn, gan fod yr ardal yn y cynnig yn fwy gwledig.

Rwyf hefyd yn pryderu ynghylch sut mae’n effeithio ar bleidleisio dros wleidyddion, gan ein bod wedi’n difreinio ar hyn o bryd gan weithredoedd ein AS lleol. Hoffwn weld cynrychiolaeth gyfrannol ar lefel Brydeinig.

Yn ogystal, rwy’n pryderu bod y newidiadau yn ein gwahanu oddi wrth ein ffiniau cymunedol arferol, ac mae’n bosibl bod gennym broblemau gwahanol i’r ardaloedd mwy gwledig, a gall hyn fod yn rhwystr rhag bodloni ein hanghenion.

**BCW-10458 / [redacted] / Wrecsam**

Nid wyf yn hapus y bydd nifer yr ASau sy'n cynrychioli etholwyr yng Nghymru yn gostwng tra bydd y nifer sy'n cynrychioli etholaethau yn Lloegr yn cynyddu. Mae hyn yn lleihau llais Cymru yn San Steffan. Hefyd, mae'n debygol y bydd ein AS wedi'i leoli ymhellach oddi wrthym ac felly'n llai hygyrch i ni. Mae hwn yn ymosodiad ar ein hawl ddemocrataidd i'n llais gael ei glywed yn San Steffan.

**BCW-10459 / [redacted] / Wrecsam**

Ni chredaf y bydd etholwyr sy'n byw yn fy mhentref a'r ardaloedd cyfagos yn elwa o gwbl o fod mewn etholaeth sy'n cynrychioli Canolbarth Cymru. Ein tref agosaf yw Wrecsam ac yno y mae fy mhlant yn mynd i'r ysgol, felly ni fydd cael AS nad yw wedi'i leoli yn yr ardal leol, ac sy'n cynrychioli etholaeth sydd ym Mhowys yn bennaf, o unrhyw ddefnydd o gwbl i'r rhai ohonom sy'n byw yn ardal Wrecsam.

Mae gennyf wrthwynebiad cryf i'r uniad hwn, i'r graddau ei bod yn debygol na fyddwn yn pleidleisio yn yr etholiad cyffredinol am y tro cyntaf erioed!

**BCW-10460 / [redacted] / Casnewydd**

Annwyl Gomisiwn Ffiniau,

Hoffwn leisio fy mhryderon am y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau ar gyfer etholaeth Islwyn. Bu Islwyn yn etholaeth seneddol ers bron i 40 mlynedd ac mae ganddi hunaniaeth etholaethol wirioneddol. Mae'n ymestyn dros ran helaeth o Fwrdeistref Sirol Caerffili, gan gynnwys trefi'r Coed-duon, Trecelyn, Abercarn a Rhisga.

Fodd bynnag, yn ôl y cynigion a ddiwygiwyd yn ddiweddar, byddai'r etholaeth yn peidio â bodoli a byddai'r mwyafrif ohoni'n cael ei boddi yn sedd estynedig Gorllewin Casnewydd.

Roedd y cynigion gwreiddiol ym mis Medi 2021 i ddiwygio map etholiadol Gwent yn gweld Islwyn yn goroesi ac yn cael ei chyfuno â phedair ward yn ardal Caerffili. Byddai ychwanegu Ystrad Mynach, Sant Catwg, Llanbradach a Hengoed at Islwyn yn addas, o ystyried y cymunedau cyfrannol yn yr ardal. Cysylltir Hengoed a Maesycwmer gan y draphont sy'n llifo i Ystrad Mynach a Llanbradach, ac mae Sant Catwg yn ffinio â Phengam. Felly, mae'r cymunedau hyn yn ychwanegiad naturiol i'r etholaeth.

Yn lle hynny, byddai'r gwrthgynnig a fabwysiadwyd yn diwygio etholaethau arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili.

Byddai Pontllanfraith, Cefn Fforest, Maesycwmer a Phengam yn cael eu cymryd o Islwyn, gan greu sedd Caerffili, a byddai'r hyn a elwir yn sedd Gorllewin Casnewydd ac Islwyn yn cael ei chreu o'r hyn sy'n weddill o'r etholaeth bresennol.

Mae gwahanu Trecelyn oddi wrth y Coed-duon a Phontllanfraith yn gwneud dim synnwyr. Mae cysylltiad annatod rhwng ardaloedd Pontllanfraith, Trecelyn a'r Coed-duon o ran eu teuluoedd a'u cymunedau. Nid oes unrhyw ysgolion cynradd yn Islwyn sy'n anfon plant i ysgolion uwchradd y tu allan i'r etholaeth. Mae dalgylch Ysgol Uwchradd Islwyn, sy'n ysgol newydd yn Oakdale, yn cynnwys ysgolion ym Mhontllanfraith. O ran trafnidiaeth, nid oes cyswllt trên rhwng Islwyn a Chasnewydd.

Fel un o breswylwyr Islwyn sy'n pryderu, rwy'n gwrthwynebu'r cynigion newydd hyn ac rwy'n gwrthwynebu'r penderfyniad i ddileu Islwyn fel etholaeth. Nid wyf yn dymuno i'm tref breswyl gael ei chynnwys yng Ngorllewin Casnewydd. Nid wyf yn teimlo bod digon o gysylltiadau lleol, hanesyddol neu ddiwylliannol pwysig â Gorllewin Casnewydd i gyfiawnhau colli etholaeth Islwyn.

Yn gywir,

[redacted]

**BCW-10461 / [redacted] / Wrecsam**

Pam o pam ein bod ni'n caniatáu i lywodraeth Lloegr newid ffiniau etholiadol, gwnaethant hynny yn yr Alban, gwnaethant hynny yng Ngogledd Lloegr, i chwalu pŵer pleidleisio dinasyddion nad ydynt yn poeni amdanynt mewn gwirionedd. Mae'n rhaid i hyn stopio.

**BCW-10462 / [redacted] / Ton Pentre**

Mae etholaeth arfaethedig Rhondda i'w gweld yn iawn o safbwynt un o breswylwyr Cwm Rhondda, ond ni fydd yn gwneud unrhyw synnwyr i un o breswylwyr Pencoed. Hefyd, gall greu anawsterau ymarferol i'r AS.

**BCW-10463 / [redacted] / Pontardulais**

Mae llawer gormod o etholaethau bach yn y de.

**BCW-10464 / [redacted] / Pontardawe**

Nid oes gennym unrhyw beth yn gyffredin â'r ardaloedd eraill yn y cynnig hwn.

Mae mwyafrif poblogaeth Pontardawe heb unrhyw gysylltiadau gwledig/ffermio, yn wahanol i Aberhonddu ac ati, sy'n golygu y bydd yr anghenion yn wahanol iawn, felly ni fydd yr AS yn gallu gwasanaethu'r boblogaeth gyfan.

Mae'n ardal ddaearyddol enfawr sydd hefyd yn ei gwneud yn anhydrin.

Bydd y cynnig hwn yn niweidiol i ardal Pontardawe ac mae'n debygol y byddwn yn cael ein diystyru'n llwyr.

**BCW-10465 / [redacted] / Rhiwabon**

Mae ein gwneud yn rhan o Faldwyn yn chwerthinllyd – ewch i edrych ar y map.

Mae'n amlwg y dylem fod yn rhan o naill ai Wrecsam neu Ddwyrain Clwyd.

Mae hwn yn achos arall o bobl heb unrhyw syniad yn gwneud dim mwy na cheisio cysoni'r niferoedd ar gyfer maint etholaethau. Am ba reswm arall y byddai'r darn bach hwnnw o dir yn cael ei gynnwys ym Maldwyn.

Rydym yn rhan o Wrecsam at ddibenion y dreth gyngor, casglu sbwriel, tai a gwasanaethau meddygol – a ydych chi wedi mynd yn wallgof.

Gadewch i ni anghofio'r cynnig chwerthinllyd hwn a gadael i synnwyr cyffredin gael blaenoriaeth.

**BCW-10466 / [redacted] / Yr Wyddgrug**

Mae'r system bleidleisio bresennol, sef y cyntaf i'r felin, yn methu â darparu cynrychiolaeth i'r rhan fwyaf o'r cyhoedd. Nid yw'r cynigion hyn yn gwneud unrhyw beth i annog pobl i gymryd pan maent yn teimlo mor anniddig â'r system y cyntaf i'r felin.

Mae'r cymunedau sydd wedi'u cynnwys yn Nwyrain Clwyd wedi'u datgysylltu'n ddiwylliannol, â safbwyntiau gwahanol, a bydd y sawl sy'n colli mewn unrhyw etholiad yn teimlo mor anniddig fel y bydd y rhan fwyaf yn datgysylltu'n llwyr oddi wrth y broses wleidyddol. Bydd hyn yn arwain at ymateb cymunedol anrhagweladwy.

**BCW-10467 / [redacted] / Wrecsam**

Nid yw'r cynnig i rannu Wrecsam a De Clwyd yn gwneud unrhyw synnwyr i drigolion sy'n byw yn y cymunedau sydd â chysylltiadau hir a sefydledig iawn â Wrecsam. Ychwanegir pentrefi at ffiniau Glannau Dyfrdwy a Maldwyn sydd heb unrhyw gysylltiad â'r ardaloedd hyn. Bydd yr ASau ar gyfer yr etholaethau hyn wedi'u lleoli'n bell oddi wrth y pentrefi hyn ac yn annhebygol o allu bod mor weithgar yn yr ardaloedd anghysbell hyn a darparu'r cymorth angenrheidiol.

**BCW-10469 / [redacted] / Rhisga**

[redacted]
28ain Hydref 2022

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Ty Hastings
Llys Ffitsalan
Caerdydd
CF24 0BL

https://www.bcw-reviews.org.uk/

Annwyl Gomisiwn Ffiniau,

Gwrthwynebaf yn gryf y cynnig i osod Rhisga yng Ngorllewin Casnewydd.

Hoffwn leisio fy mhryderon am y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau ar gyfer etholaeth Islwyn. Bu Islwyn yn etholaeth seneddol ers bran i 40 mlynedd ac mae ganddi hunaniaeth etholaethol wirioneddol. Mae'n ymestyn dros ran helaeth o Fwrdeistref Sirol Caerffili, gan gynnwys trefi'r Coed-duon, Trecelyn, Abercarn a Rhisga.

Fedd bynnag, yn 61 y cynigion a ddiwygiwyd yn ddiweddar, byddai'r etholaeth yn peidio â bodoli a byddai'r mwyafrif ohoni'n cael ei boddi yn sedd estynedig Gorllewin Casnewydd.

Roedd y cynigion gwreiddiol ym mis Medi 2021 i ddiwygio map etholiadol Gwent yn gweld Islwyn yn goroesi ac yn cael ei chyfuno â phedair ward yn ardal Caerffili. Byddai ychwanegu Ystrad Mynach, Sant Catwg, Llanbradach a Hengoed at Islwyn yn addas, o ystyried y cymunedau cyfrannol yn yr ardal. Cysylltir Hengoed a Maesycwmer gan y draphont sy'n llifo i Ystrad Mynach a Llanbradach, ac mae Sant Catwg yn ffinio â Phengam. Felly, mae'r cymunedau hyn yn ychwanegiad naturiol i'r etholaeth.

Yn lie hynny, byddai'r gwrthgynnig a fabwysiadwyd yn diwygio etholaethau arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili.

Byddai Pontllanfraith, Cefn Fforest, Maesycwmer a Phengam yn cael eu cymryd o Islwyn, gan greu sedd Caerffili, a byddai'r hyn a elwir yn sedd Gorllewin Casnewydd ac Islwyn yn cael ei chreu o'r hyn sy'n weddill o'r etholaeth bresennol.

Mae gwahanu Trecelyn oddi wrth y Coed-duon a Phontllanfraith yn gwneud dim synnwyr. Mae cysylltiad annatod rhwng ardaloedd Pontllanfraith, Trecelyn a'r Coed-duon o ran eu teuluoedd a'u cymunedau. Nid oes unrhyw ysgolion cynradd yn Islwyn

sy'n anfon plant i ysgolion uwchradd y tu allan i'r etholaeth. Mae dalgylch Ysgol Uwchradd Islwyn, sy'n ysgol newydd yn Oakdale, yn cynnwys ysgolion ym Mhontllanfraith. O ran trafnidiaeth, nid oes cyswllt trên rhwng Islwyn a Chasnewydd.

Fel un o breswylwyr Islwyn sy'n pryderu, rwy'n gwrthwynebu'r cynigion newydd hyn ac rwy'n gwrthwynebu'r penderfyniad i ddileu Islwyn fel etholaeth. Nid wyf yn dymuno i'm tref breswyl gael ei chynnwys yng Ngorllewin Casnewydd. Nid wyf yn teimlo bod digon o gysylltiadau lleol, hanesyddol neu ddiwylliannol pwysig â Gorllewin Casnewydd i gyfiawnhau colli etholaeth Islwyn.

Yn gywir,

[redacted]

**BCW-10470 / [redacted] / Abertawe**

Rwyf eisiau cysylltu i sôn am fy ngwrthwynebiad i lond llaw o’r newidiadau a awgrymir i ffiniau etholaethau a gynigir yn y cynigion diwygiedig a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Rwy’n hapus i raddau helaeth â’r cynigion fel y maent ledled y rhan fwyaf o Gymru; ond y ddau fater sy’n achosi’r gofid mwyaf i mi yw etholaeth arfaethedig Castell-nedd a Dwyrain Abertawe ac etholaeth arfaethedig Rhondda. Dechreuaf â Chastell-nedd a Dwyrain Abertawe, mae hepgor Coedffranc o’r etholaeth yn golygu nad yw’r ardal sy’n weddill yn hyfyw fel etholaeth, gan nad yw ward Dyffryn wedi’i chysylltu ar hyd ffordd ag unrhyw un o’r wardiau i’r gorllewin; sy’n golygu nad oes cysylltiad rhwng ardal Cwm Nedd ac ardal Abertawe yn yr etholaeth. O ran Rhondda, nid yw cynnwys Pencoed yn yr etholaeth yn opsiwn ymarferol, oherwydd unwaith eto, ceir diffyg cysylltiad ffordd â gweddill yr etholaeth. Felly, hoffwn gynnig dewisiadau amgen i’r ffiniau hyn, ac rwyf wedi atodi map i ddangos y pum etholaeth rwyf wedi’u diwygio.

Mae’r etholaethau newydd fel a ganlyn:

Gogledd a Chanol Abertawe (gwyrdd) sydd bellach yn cynnwys Glandŵr

Castell-nedd a Dwyrain Abertawe (porffor) sydd bellach yn cynnwys Coedffranc ond yn hepgor Glandŵr a Phelenna


Port Talbot (Aberafan Porthcawl yn flaenorol) (oren) sydd bellach yn cynnwys Maesteg a Phelenna ond yn hepgor Porthcawl a Choedffranc

Pen-y-bont (melyn) sydd bellach yn cynnwys Pencoed a Phorthcawl ond yn hepgor Bro Ogwr a Chwm Garw, a llawer o Gwm Llynfi uchaf

Rhondda-Ogwr (brown) nad yw bellach yn cynnwys Pencoed ond sy’n cynnwys Bro Ogwr a Chwm Garw.

Mae pob un o’r etholaethau arfaethedig hyn yn cynnwys nifer priodol o etholwyr ac maent yn bodloni’r rheolau a’r canllawiau ar gyfer ffiniau a osodwyd gan y Comisiwn Ffiniau.

Rwy’n mawr obeithio y caiff fy nghynigion eu hystyried gan y Comisiwn.


Hands
Ammanford
Ystradgynlais
Ystalyfera
Glynneath
Hirwaun
Pontardawe
Pontarddulais
Aberdare
Resolven
Afan
Forest Park
Gorseinon
Morriston
Neath
Treorchy
Swansea
Tonypandy
Maesteg
Port Talbot
Swansea Bay
Mumbles
Talbot Green
Pontyclun
Pyle
Bridgend
Porthcawl
Ogmore-by-Sea
Cowbridge

**BCW-10471 / [redacted] / Islwyn**

Annwyl Gomisiwn Ffiniau,

Hoffwn leisio fy mhryderon am y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau ar gyfer etholaeth Islwyn. Bu Islwyn yn etholaeth seneddol ers bron i 40 mlynedd ac mae ganddi hunaniaeth etholaethol wirioneddol. Mae'n ymestyn dros ran helaeth o Fwrdeistref Sirol Caerffili, gan gynnwys trefi'r Coed-duon, Trecelyn, Abercarn a Rhisga.

Fodd bynnag, yn ôl y cynigion a ddiwygiwyd yn ddiweddar, byddai'r etholaeth yn peidio â bodoli a byddai'r mwyafrif ohoni'n cael ei boddi yn sedd estynedig Gorllewin Casnewydd.

Roedd y cynigion gwreiddiol ym mis Medi 2021 i ddiwygio map etholiadol Gwent yn gweld Islwyn yn goroesi ac yn cael ei chyfuno â phedair ward yn ardal Caerffili. Byddai ychwanegu Ystrad Mynach, Sant Catwg, Llanbradach a Hengoed at Islwyn yn addas, o ystyried y cymunedau cyfrannol yn yr ardal. Cysylltir Hengoed a Maesycwmer gan y draphont sy'n llifo i Ystrad Mynach a Llanbradach, ac mae Sant Catwg yn ffinio â Phengam. Felly, mae'r cymunedau hyn yn ychwanegiad naturiol i'r etholaeth.
Yn lle hynny, byddai'r gwrthgynnig a fabwysiadwyd yn diwygio etholaethau arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili.

Byddai Pontllanfraith, Cefn Fforest, Maesycwmer a Phengam yn cael eu cymryd o Islwyn, gan greu sedd Caerffili, a byddai'r hyn a elwir yn sedd Gorllewin Casnewydd ac Islwyn yn cael ei chreu o'r hyn sy'n weddill o'r etholaeth bresennol.

Mae gwahanu Trecelyn oddi wrth y Coed-duon a Phontllanfraith yn gwneud dim synnwyr. Mae cysylltiad annatod rhwng ardaloedd Pontllanfraith, Trecelyn a'r Coed-duon o ran eu teuluoedd a'u cymunedau. Nid oes unrhyw ysgolion cynradd yn Islwyn sy'n anfon plant i ysgolion uwchradd y tu allan i'r etholaeth. Mae dalgylch Ysgol Uwchradd Islwyn, sy'n ysgol newydd yn Oakdale, yn cynnwys ysgolion ym Mhontllanfraith. O ran trafnidiaeth, nid oes cyswllt trên rhwng Islwyn a Chasnewydd.

Fel un o drigolion pryderus Islwyn, rwy'n gwrthwynebu'r cynigion newydd hyn ac rwy'n gwrthwynebu'r penderfyniad i ddileu Islwyn fel etholaeth. Nid wyf yn dymuno i'm tref breswyl, Crymlyn, gael ei chynnwys yng Ngorllewin Casnewydd. Nid wyf yn teimlo bod digon o gysylltiadau lleol, hanesyddol na diwylliannol pwysig â gorllewin Casnewydd i gyfiawnhau colli etholaeth Islwyn.

Mae gan drigolion Crymlyn yn arbennig hunaniaeth gref fel pobl y cymoedd, mae ein tirwedd yn enghraifft berffaith o'r cymoedd fel cymuned lofaol.

Ystyriwch ein hunaniaeth a dychwelyd i'r awgrym gwreiddiol.

Yn gywir,

[redacted]

**BCW-10472 / [redacted] / Wrecsam**

Mae hwn yn gynnig hollol chwerthinllyd gyda phobl o ardaloedd y Bers a Rhostyllen yn cael eu had-drefnu allan o dde Clwyd i ardal lle mae swyddfa'r AS yn debygol o fod 25 i 30 milltir i ffwrdd, â'r AS etholedig yn gwybod dim am yr ardal! Gadewch lonydd i'r gogledd a symudwch y bandiau oddi mewn, os oes angen. Beth am Wrecsam neu Ddwyrain Clwyd?

Mae Rhostyllen a'r Bers 1 filltir (neu lai) yn unig o Wrecsam ond eto'n cael eu gwthio i ganolbarth Cymru.

**BCW-10473 / [redacted] / Hengoed**

Rwy'n llwyr gefnogi lleihau nifer yr aelodau. Gorau po leiaf.

**BCW-10474 / [redacted] / Casnewydd**

Mae eich cynnig newydd ar gyfer Gorllewin Casnewydd ac Islwyn yn llawer gwell na'ch cynnig gwreiddiol, nad oedd yn ystyried realiti cysylltiadau cymunedol o gwbl.

Fodd bynnag, mae eithrio ward Pontllanfraith, ond cynnwys y Coed-duon, Penmaen ac Argoed i'r gogledd ohoni, yn chwerthinllyd.

Dylech chi flaenoriaethu cydlyniant cymunedol dros gydbwyso niferoedd yr etholwyr ym mhob etholaeth. Mae pawb yn gwybod bod y boblogaeth yn dirywio yn y cymoedd ac yn ehangu ar y llain arfordirol yn Ne Cymru, felly bydd eich ymgais i gydbwyso yn dyddio'n fuan, beth bynnag.

**BCW-10475 / [redacted] / Caerffili**

Mae hwn yn gyfluniad llawer gwell nag o'r blaen. Nid oes gan fasn Caerffili unrhyw gysylltiadau â Chasnewydd, er gwaethaf ymdrechion i osod y lle mewn ardal Gwent ehangach. Ceir cysylltiad naturiol rhwng basn Caerffili a Chaerdydd, oherwydd eu hagosrwydd a chysylltiadau trafnidiaeth.

**BCW-10476 / [redacted] / Caerffili**

Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig bod ardal mynydd Caerffili (St Martins) yn Watford, ac ochr arall y mynydd, a ffordd y mynydd, yn cael ei gwasanaethu gan ysbytai yng Nghaerdydd. O ganlyniad, bydd mynediad haws i ambiwlansys a llai o bellter i'w deithio o gymharu â theithio i Ysbyty Brenhinol Gwent.

Mae'n gwastraffu amser parafeddygon, yn gwastraffu tanwydd, ac yn achosi traul ar gerbydau. Yn ogystal, y brif fantais yw y gall llai o amser teithio achub bywydau. Yr ochr wleidyddol i'r llywodraeth yw y byddai'n lleihau'r ôl troed carbon oherwydd y pellteroedd ychwanegol diangen a deithir.

Ar ben hynny, byddai rhoi'r cynnig hwn ar waith yn arbed swm sylweddol o arian i'r gwasanaeth ambiwlans ac yn gwella amseroedd ymateb, sy'n effaith ac yn fantais glir.

**BCW-10477 / [redacted] / Pencoed**

Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr i Bencoed fod yn rhan o RhCT.

Mae Pencoed wedi bod â chysylltiadau cryfach erioed â Phen-y-bont ar Ogwr ar gyfer gwaith, teithio, addysg, gofal iechyd a chymdeithasu. Mae'r materion sy'n effeithio ar Bencoed yn gysylltiedig fel arfer â Phen-y-bont ar Ogwr a'r ardaloedd cyfagos. Mae ymdrech fawr i geisio darparu mwy o opsiynau ar gyfer datblygu Pencoed wrth gau'r groesfan reilffordd, sydd unwaith eto yn fy marn i yn fwy cysylltiedig â chysylltiadau a datblygiad Pen-y-bont ar Ogwr. Mae llawer o'r materion sy'n wynebu Pencoed a datblygiad yr ardal yn y dyfodol yn gysylltiedig neu'n debyg iawn i'r rhai sy'n wynebu Pen-y-bont ar Ogwr, Llangrallo a'r ardaloedd cyfagos, yn hytrach na'r materion sy'n wynebu'r Cymoedd a Rhondda.

Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr mewn gwirionedd i dynnu Pencoed i ffwrdd oddi wrth Ben-y-bont ar Ogwr, nid yw hyd yn oed yn edrych fel syniad ymarferol iawn neu'n synnwyr cyffredin wrth edrych ar y map. Gofynnaf i chi adolygu'r syniad hwn.

**BCW-10478 / [redacted] / Yr Wyddgrug**

Mae'n ymddangos bod y ffiniau o waelod y Canolbarth i'r Gogledd wedi'u gwneud yn fwy ac mae nifer llai ohonynt, tra bod mwy yn Ne Cymru. Mae angen dileu rhai ffiniau i lawr yn y De i unioni'r sefyllfa a chaniatáu i weddill Cymru gael llais a chael eu clywed. Heb sôn am arbed rhywfaint o arian hefyd.

**BCW-10479 / [redacted] / Pontlotyn**

Cefnogaf yn llawn y cynnig ar gyfer Blaenau Gwent a Rhymni.

## BCW-10480 / Cyng. Sarah Thomas / Cwm-gors

**Oddi wrth:** [redacted]
**Anfonwyd:** 28 Hydref 2022 12:03
**At:** Ymholiadau <enquiries@boundaries.wales>
**Pwnc:** Arolwg Ffiniau Seneddol

Helô,

Atodaf lythyr gan Gyngor Cymuned Gwaun Cae Gurwen mewn ymateb i Gynigion Diwygiedig yr Arolwg Ffiniau Seneddol.

Kind Regards | Cofion Caredig,

**Sarah Thomas**
**Councillor for Tairgwaith | Cynghorydd am Tairgwaith**

# CYNGOR CYMUNED GWAUN CAE GURWEN COMMUNITY COUNCIL

[redacted]

**Comisiwn Ffiniau i Gymru**
Llawr Gwaelod
Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24 0BL

**Dydd Iau 20 Hydref 2022**

**CYFEIRNOD:** **AROLWG FFINIAU SENEDDOL**

Wardiau yr Effeithir Arnynt: Alltwen, Cwmllynfell ac Ystalyfera, Godre'r Graig, Gwaun Cae Gurwen a Brynaman Isaf, Pontardawe, Rhos a Threbanos.

I Bwy Bynnag a Fynno Wybod,

Cynigiwyd symud y wardiau a restrir uchod, a adwaenir ar y cyd fel Cymoedd Aman Uchaf a Thawe, o Etholaeth Seneddol Castell-nedd i Etholaeth Seneddol Aberhonddu a Maesyfed.

Teimla'r Cyngor hwn y byddai hyn yn cael effaith negyddol ar holl aelodau ein cymuned, am y rhesymau canlynol:

- Creu anghyfleustra enfawr i'r unigolion a'r cymunedau yr effeithir arnynt.
- Achosi anawsterau daearyddol sylweddol, o ganlyniad i gynrychiolaeth Seneddol yn cael ei lleoli yn rhanbarth Aberhonddu a Maesyfed, sydd eisoes yn enfawr ac yn dirgloëdig.
- Lleihau hawl pob unigolyn i fynediad cyfleus at gynrychiolaeth Seneddol. Yn wir, nid yw'n bosibl teithio i Swyddfa Etholaeth yr Aelod Seneddol presennol dros Frycheiniog a Sir Faesyfed ac yn ôl eto mewn un diwrnod ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae hyn yn achosi pryder arbennig, gan fod llawer o aelodau ein cymuned yn dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus.
- Torri cysylltiadau hirsefydlog â chymunedau eraill yn y cymoedd yn ardal Castell-nedd.
- Symud cynrychiolaeth Seneddol y tu allan i ffiniau daearyddol yr Etholaeth Seneddol sy'n gwasanaethu'r cymoedd hyn, a chreu rhwystr drwy hynny rhag mynediad hawdd i wasanaethau hanfodol.
- Gosod cynrychiolaeth Seneddol y tu allan i ffiniau Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a'r holl Gynghorau Tref a Chymuned sy'n gwasanaethu'r wardiau hyn, gan greu rhwystr unwaith eto rhag mynediad hawdd a chynefindra.
- Achosi dryswch wrth symud y wardiau hyn yn gyfan gwbl y tu allan i etholaeth Castell-nedd lle maent yn parhau i gael eu cynrychioli yn Senedd Cymru.

- Torri'r cysylltiadau cyfathrebu sy'n bodoli rhwng Senedd San Steffan, Senedd Cymru, Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd, gan o leiaf achosi anghyfleustra sylweddol i unigolion ac o bosibl achosi niwed gwirioneddol.
- Torri cysylltiadau â llawer o bartneriaethau rhanbarthol yng Ngorllewin Morgannwg o fewn y sector statudol a'r sector gwirfoddol. Mae'r partneriaethau hyn yn gwasanaethu'r wardiau hyn yn dda ac yn hyrwyddo cydlyniant cymunedol a darpariaeth integredig.
- Eithrio pobl o Sir Gorllewin Morgannwg, sef sir gadwedig sy'n dyddio'n ôl i Sir Forgannwg hynafol. Mae Gorllewin Morgannwg yn parhau i fod yn sir gadwedig o ran Rhaglawiaeth a Siryfiaeth Ei Fawrhydi. Mae'r swyddogaethau hyn yn nodwedd amlwg ym mywyd dinesig cymunedau'r cymoedd hyn ac maent yn hyrwyddo ac yn annog y sector gwirfoddol a gwirfoddoli unigol.

Mae'r cymunedau hyn yn y cymoedd yn rhannu hanes rhanbarthol, ffordd o fyw, diwylliant, treftadaeth, traddodiadau, iaith, gorffennol diwydiannol a chefndir economaidd-gymdeithasol. Byddai pobl y cymunedau hyn yn teimlo eu bod yn cael eu targedu a'u halltudio wrth gael eu cau allan o'u cartref naturiol.

Mae'r Cyngor hwn a'r cymunedau y mae'n eu cynrychioli yn credu'n bendant y dylai wardiau Cwm Tawe a Chwm Aman Uchaf aros lle maent yn perthyn… o fewn etholaeth Castell-nedd ar gyfer pob cynrychiolaeth wleidyddol ar bob lefel o lywodraeth.

Yr eiddoch yn gywir,

[redacted]

**Cyng. Sarah Thomas**

**CADEIRYDD – CYNGOR CYMUNED GWAUN CAE GURWEN**

[redacted]

**BCW-10481/ [redacted] / Anhysbys**

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod
Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24 0BL

https://www.bcw-reviews.org.uk/

Annwyl Gomisiwn Ffiniau,

Hoffwn leisio fy mhryderon am y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau ar gyfer etholaeth Islwyn. Bu Islwyn yn etholaeth seneddol ers bron i 40 mlynedd ac mae ganddi hunaniaeth etholaethol wirioneddol. Mae'n ymestyn dros ran helaeth o Fwrdeistref Sirol Caerffili, gan gynnwys trefi'r Coed-duon, Trecelyn, Abercarn a Rhisga.

Fodd bynnag, yn ôl y cynigion a ddiwygiwyd yn ddiweddar, byddai'r etholaeth yn peidio â bodoli a byddai'r mwyafrif ohoni'n cael ei boddi yn sedd estynedig Gorllewin Casnewydd.

Roedd y cynigion gwreiddiol ym mis Medi 2021 i ddiwygio map etholiadol Gwent yn gweld Islwyn yn goroesi ac yn cael ei chyfuno â phedair ward yn ardal Caerffili. Byddai ychwanegu Ystrad Mynach, Sant Catwg, Llanbradach a Hengoed at Islwyn yn addas, o ystyried y cymunedau cyfrannol yn yr ardal. Cysylltir Hengoed a Maesycwmer gan y draphont sy'n llifo i Ystrad Mynach a Llanbradach, ac mae Sant Catwg yn ffinio â Phengam. Felly, mae'r cymunedau hyn yn ychwanegiad naturiol i'r etholaeth.

Yn lle hynny, byddai'r gwrthgynnig a fabwysiadwyd yn diwygio etholaethau arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili.

Byddai Pontllanfraith, Cefn Fforest, Maesycwmer a Phengam yn cael eu cymryd o Islwyn, gan greu sedd Caerffili, a byddai'r hyn a elwir yn sedd Gorllewin Casnewydd ac Islwyn yn cael ei chreu o'r hyn sy'n weddill o'r etholaeth bresennol.

Mae gwahanu Trecelyn oddi wrth y Coed-duon a Phontllanfraith yn gwneud dim synnwyr. Mae cysylltiad annatod rhwng ardaloedd Pontllanfraith, Trecelyn a'r Coed-duon o ran eu teuluoedd a'u cymunedau. Nid oes unrhyw ysgolion cynradd yn Islwyn sy'n anfon plant i ysgolion uwchradd y tu allan i'r etholaeth. Mae dalgylch Ysgol Uwchradd Islwyn, sy'n ysgol newydd yn Oakdale, yn cynnwys ysgolion ym Mhontllanfraith. O ran trafnidiaeth, nid oes cyswllt trên rhwng Islwyn a Chasnewydd.

Fel un o breswylwyr Islwyn sy’n pryderu, rwy’n gwrthwynebu’r cynigion newydd hyn ac rwy’n gwrthwynebu’r penderfyniad i ddileu Islwyn fel etholaeth. Nid wyf yn dymuno i’m tref breswyl gael ei chynnwys yng Ngorllewin Casnewydd. Nid wyf yn teimlo bod digon o gysylltiadau lleol, hanesyddol neu ddiwylliannol pwysig â Gorllewin Casnewydd i gyfiawnhau colli etholaeth Islwyn.

Yr eiddoch yn gywir,

[redacted]

**BCW-10482 / [redacted] / Abercarn**

Dymunaf brotestio yn y termau cryfaf posibl ynghylch y newidiadau i'r ffiniau sy'n effeithio ar etholaeth Islwyn.
Mae gwthio Islwyn a Gorllewin Casnewydd at ei gilydd yn gynnig chwerthinllyd dros ben. Mae gan y ddwy etholaeth ychydig neu ddim byd yn gyffredin rhyngddynt. Nid yw dymuniadau, anghenion a phroblemau cymunedau'r cymoedd yn debyg o gwbl i rai Llanfihangel-y-fedw, Maerun, Llanbedr Gwynllŵg ac eraill. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth eu bod hwythau'n teimlo'r un fath.
Mae'r holl fater hwn yn ymarfer "rhifau" nad yw'n rhoi unrhyw sylw i'r bobl sy'n byw yn yr ardaloedd hyn. Rwy'n pwyso arnoch i ailystyried y cynnig hwn.
Ar ben hynny, hoffwn gwyno am eich gwefan, tudalen Facebook, gan mai dyma'r safle anoddaf i mi erioed gael yr anffawd i ddod ar ei draws. Mae'n achosi pryder i mi fod llawer o bobl a fyddai'n hoffi rhoi eu barn, ond sy'n cael eu rhwystro gan y broses… proses annemocrataidd iawn.
Teimlaf fod etholwyr Islwyn yn cael eu hanwybyddu unwaith eto ac ni allaf ond gobeithio y byddwch yn gweld rheswm.

**BCW-10483 / [redacted] / Wrecsam**

Credaf y byddai'n fwy rhesymegol pe bai etholaeth newydd Wrecsam yn cynnwys holl ardal cyngor y ddinas.

**BCW-10484 / [redacted] / Casnewydd**

Ar ôl symud o ardal Casnewydd i ardal Caerffili, rwy'n siomedig iawn y byddwn yn ôl yn ardal Casnewydd.

Mae Caerffili 100% yn well o ran ailgylchu. Nid wyf eisiau mwy nag un bin ar gyfer ailgylchu. Yng Nghasnewydd, roedd yr ardd wedi'i llenwi â blychau. Rwy'n byw ar fryn sy'n dal y gwynt, ac os bydd rhaid i ni gael blychau, bydd sbwriel yn chwythu ym mhobman.

Rwy'n gwerthfawrogi y bydd yr uchod yn ymddangos yn ddibwys i'r rhan fwyaf o bobl, ond mae'n fater pwysig i mi.

**BCW-10485 / [redacted] / Pwllheli**

Mae ehangu Dwyfor Meirionnydd yn gam cadarnhaol gan y bydd yn creu etholaeth fwy amrywiol. Ar hyn o bryd, nid oes digon o bobl fydol-ddoeth, deallus a blaengar yn yr ardal. Mae pobl â meddyliau cul yn gwneud llawer o sŵn ac yn llwyddo i wthio rheolau a rheoliadau sy'n niweidio Cymru gyfan ac sy'n mynd â ni ymhellach i ffwrdd oddi wrth weddill y DU, gan wneud i nifer fawr ohonom ni'r Cymry di-Gymraeg a phreswylwyr di-Gymraeg eraill deimlo'n ddigroeso ac wedi'n rhwystro rhag cael swyddi yma yn y gogledd (ac mae hyn yn digwydd bellach yn y canolbarth a'r de). Pe bawn yn lleihau, byddai ein hardal aros yn ynysig ac ar ei hôl hi. Bydd etholaeth fwy o faint yn rhoi llais mwy cytbwys. Mae'n ymddangos mai dim ond y bobl fwyaf swnllyd yn ein hardal sy'n cael eu clywed a'u safbwyntiau'n cael ei mabwysiadu.

**BCW-10486 / [redacted] / Sheffield**

Gweler yr awgrymiadau atodedig ar newidiadau i etholaethau arfaethedig Rhondda a Maldwyn a Glyndŵr, i wella cysylltedd a chydlyniant.

# Arolwg ffiniau Cymru – cyflwyniad ar gyfer y drydedd rownd

Hydref 29, 2022

## 1 Cyflwyniad a sylwadau cyffredinol

Dyma gyflwyniad ar gyfer trydedd rownd arolwg ffiniau seneddol Cymru. Gwneuthum gyflwyniad ar gyfer y rownd gyntaf, cyfeirnod 9766.


Byddaf yn canolbwyntio ar un neu ddwy ardal lle credaf fod y cynigion diwygiedig wedi gadael ffiniau lletchwith ac etholaethau â chysylltiadau gwael, a lle credaf y gellir gwella'r rhain wrth symud dim ond dyrnaid o wardiau, a heb unrhyw sgil-effeithiau; mae'r rhain yn ymwneud ag etholaethau arfaethedig Rhondda, a Maldwyn a Glyndŵr.

Mae trydedd etholaeth sydd â phroblemau tebyg yn fy marn i, sef etholaeth arfaethedig Castell-nedd a Dwyrain Abertawe. Fodd bynnag, nid wyf wedi gallu dod o hyd i addasiad tebyg i unioni hyn; mae'r holl opsiynau a ystyriais yn arwain at sgil-effeithiau sylweddol.

## 2 Rhondda

Mae etholaeth arfaethedig Rhondda yn cynnwys ardal Pencoed ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Dim ond "gwddf" cul iawn yn yr ucheldiroedd sy'n cysylltu'r ardal hon â gweddill yr etholaeth, ac mae'r "gwddf" hwn ymhell o'r ardaloedd poblog naill ai yn Rhondda ei hun neu ym Mhencoed. Ar ben hynny, nid yw Pencoed yn un o gymunedau'r "Cymoedd" mewn gwirionedd, gan ei bod ar draffordd yr M4 a Phrif Linell De Cymru, ac felly nid yw'n gweddu'n dda. Dylid ailystyried yr etholaeth hon.

Awgrymaf ddau opsiwn isod, sy'n effeithio ar etholaeth arfaethedig Rhondda ac un etholaeth gyfagos yn unig.




Ffigur 1: Etholaethau a awgrymir ar gyfer Rhondda opsiwn 1. Lluniwyd y map gan ddefnyddio Boundary Assistant.
(1) Rhondda ac Aberpennar (2) Pontypridd a Llantrisant

## 2.1 Opsiwn 1: Rhondda ac Aberpennar


Yn fy nghyflwyniad gwreiddiol, awgrymais y dylid ychwanegu ardal Aberpennar yn etholaeth bresennol Cwm Cynon at etholaeth bresennol Rhondda. Er nad oes cysylltiadau da iawn rhwng Aberpennar a Rhondda, mae cysylltiad is-ffordd rhwng Cwm Cynon a Chwm Rhondda Fach, nad yw'n waeth na'r cysylltiad â Phencoed, ac mae'n gymuned yn y Cymoedd o leiaf, â diddordebau a hanes tebyg i Rondda.

Wrth wneud hyn, gellir cydbwyso'r niferoedd wrth gynnwys dwy ward Tonyrefail yn etholaeth Pontypridd, lle maent ar hyn o bryd, a chynnwys Pencoed hefyd yn yr etholaeth hon, sydd â chysylltiad rhesymol ar hyd ffordd yr A473 a Phrif Linell De Cymru. Byddai ffin ogleddol etholaeth bresennol Pontypridd yn cael ei chadw, ond byddwn yn awgrymu y byddai'r enw "Pontypridd a Llantrisant" yn fwy addas ar gyfer yr etholaeth. Mae map i'w weld yn Ffigur 1.

Y wardiau sydd wedi'u cynnwys yn etholaeth Pontypridd yn y cynigion diwygiedig, ac y byddwn yn eu cynnwys yn Rhondda ac Aberpennar, yw **Abercynon, Cilfynydd, Glyn-coch, Dwyrain Aberpennar, Gorllewin Aberpennar, Penrhiw-ceibr, Ynys-y-bwl.** Byddai pob ward arall yn etholaeth Pontypridd yn y cynigion diwygiedig yn cael eu cynnwys ym **Mhontypridd a Llantrisant**.

Y wardiau sydd wedi'u cynnwys yn etholaeth Rhondda yn y cynigion diwygiedig, ac y byddwn yn eu cynnwys ym Mhontypridd a Llantrisant, yw **Felindre, Gilfach Goch, Hendre, Penprysg, Dwyrain Tonyrefail, Gorllewin Tonyrefail**. Byddai pob ward arall yn etholaeth Rhondda yn y cynigion diwygiedig yn cael eu cynnwys yn **Rhondda ac Aberpennar**.

Nifer yr etholwyr: Rhondda ac Aberpennar **71,685**, Pontypridd a Llantrisant **71,822**.




Ffigur 2: Etholaethau a awgrymir ar gyfer Rhondda opsiwn 2. Lluniwyd y map gan ddefnyddio Boundary Assistant.
(1) Rhondda ac Ogwr (2) Pen-y-bont

## 2.2 Opsiwn 2: Rhondda ac Ogwr


Ardal arall yn y Cymoedd sy'n ffinio â Rhondda yw Cwm Ogwr ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ac mae bwlch mynydd yn cysylltu'r ddwy ardal. Byddai'n bosibl cynnwys Pencoed ym Mhen-y-bont ond trosglwyddo Cwm Ogwr a Chwm Garw i etholaeth Rhondda, a byddwn yn awgrymu ei enwi'n "Rhondda ac Ogwr".

Mae map i'w weld yn Ffigur 2.

Y wardiau sydd wedi'u cynnwys yn etholaeth Pen-y-bont yn y cynigion diwygiedig, ac y byddwn yn eu cynnwys yn Rhondda ac Ogwr, yw **Betws, Melin Ifan Ddu, Blaengarw, Llangeinwyr, Nant-y-moel, Bro Ogwr, Pontycymer.** Byddai pob ward arall yn etholaeth Pen-y-bont yn y cynigion diwygiedig yn cael eu cynnwys ym **Mhen-y-bont**.

Y wardiau sydd wedi'u cynnwys yn etholaeth Rhondda yn y cynigion diwygiedig, ac y byddwn yn eu cynnwys ym Mhen-y-bont, yw **Felindre, Hendre, Penprysg**. Byddai pob ward arall yn etholaeth Rhondda yn y cynigion diwygiedig yn cael eu cynnwys yn **Rhondda ac Ogwr**.

Nifer yr etholwyr: Rhondda ac Ogwr **73,557**, Pen-y-bont **72,671**.




Ffigur 3: Etholaethau a awgrymir ar gyfer gogledd a chanolbarth Cymru. Lluniwyd y map gan ddefnyddio Boundary Assistant.
(1) Maldwyn a Rhiwabon (2) Caernarfon Meirionnydd (3) Bryniau Clwyd

# 3 Ardal Corwen

Mae'r cynigion diwygiedig yn cynnig cynnwys dwy ward yn Sir Ddinbych, sef Corwen a Llandrillo, yn etholaeth Maldwyn a Glyndŵr. Nid oes ganddynt unrhyw gysylltiad o gwbl â Sir Drefaldwyn (mae'r ffin yn dilyn mynyddoedd y Berwyn) ac mae eu cysylltiad ag ardal Rhiwabon yn mynd drwy Langollen, nad yw wedi'i chynnwys yn yr etholaeth arfaethedig. Fel y cyfryw, byddent yn ynysig dros ben.

Y dewis arall amlwg ar gyfer Corwen a Llandrillo fyddai eu cynnwys yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Clwyd, ond byddai hynny'n gwneud yr etholaeth honno'n rhy fawr. Dewis arall yw nodi y bu Corwen, yn hanesyddol, yn rhan o Sir Feirionnydd, a bu yn yr etholaeth honno tan 1983. Mae cysylltiadau rhesymol ar hyd ffordd yr A494 a Dyffryn Dyfrdwy i'r Bala, sydd yn sicr yn llawer gwell na'r cysylltiadau â Sir Drefaldwyn, felly awgrymaf adfer y cysylltiad hwn wrth eu hychwanegu at etholaeth arfaethedig Dwyfor Meirionnydd.

Byddai hepgor y ddwy ward hyn o Faldwyn a Glyndŵr yn golygu y gellid cynnwys ward Llangollen Wledig, sydd ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam, a fyddai, er gwaethaf ei henw, yn gweddu'n well â wardiau eraill Wrecsam. Mae'n werth nodi y cafodd y ward hon ei throsglwyddo o Sir Ddinbych i Wrecsam ym 1997; gweler Offeryn Statudol 1996 Rhif 2914.

Byddai Llangollen ei hun yn parhau i fod ychydig yn ynysig yn etholaeth arfaethedig Dwyrain Clwyd, ond o leiaf ceir cysylltiad drwy Fwlch yr Oernant.

O ran enwau, credaf y byddai'n well defnyddio **Maldwyn a Rhiwabon** yn hytrach nag enw rhanbarth a ddiddymwyd ers amser maith ac nad yw ei ffiniau mewn gwirionedd yn gweddu'n dda iawn i'r ardal dan sylw. Byddwn hefyd yn awgrymu'r enw **Caernarfon Meirionnydd**, gan adfer enw'r dref hanesyddol honno ar y map etholaethau, a'r enw **Bryniau Clwyd**, sef y gadwyn o fryniau sy'n ffurfio'r nodwedd bennaf yn etholaeth arfaethedig "Dwyrain Clwyd".

Mae map o'r tair etholaeth hyn i'w weld yn Ffigur 3.

Y wardiau sydd wedi'u cynnwys yn etholaeth Maldwyn a Glyndŵr yn y cynigion diwygiedig, ac y byddwn yn eu cynnwys yng Nghaernarfon Meirionnydd, yw **Corwen, Llandrillo**. Byddai'r holl wardiau eraill yn etholaeth Maldwyn a Glyndŵr yn y cynigion diwygiedig yn cael eu cynnwys ym **Maldwyn a Rhiwabon**, a byddai pob ward yn etholaeth Dwyfor Meirionnydd yn y cynigion diwygiedig yn cael eu cynnwys yng **Nghaernarfon Meirionnydd**.

Byddai un ward, sef **Llangollen Wledig**, yn etholaeth Dwyrain Clwyd yn y cynigion diwygiedig yn cael ei chynnwys ym Maldwyn a Rhiwabon. Byddai pob ward arall yn etholaeth Dwyrain Clwyd yn y cynigion diwygiedig yn cael eu cynnwys ym **Mryniau Clwyd**.

Nifer yr etholwyr: Maldwyn a Rhiwabon **75,854** Caernarfon Meirionnydd **72,533** Bryniau Clwyd **74,764**

**BCW-10487 / [redacted] / Wrecsam**

Mae Cefn Mawr 8 milltir o Wrecsam. I'n symud i Faldwyn a Glyndŵr. Ein prif dref a lleoliad ein swyddfeydd fyddai'r Trallwng, 25 milltir i ffwrdd. Gwallgofrwydd yw hyn. Mae Cefn Mawr mewn swigen fach, pam na allwn ni gael ein hychwanegu at y siroedd cyfagos. Rydym yn colli 10 AS, mae Lloegr yn ennill 10. Beth sy'n digwydd i'n gwlad?

**BCW-10488 / [redacted] / Caerffili**

Rwy'n cefnogi'r cynnig newydd ar gyfer Caerffili. Roedd yr awgrym blaenorol y dylid cysylltu rhan isaf etholaeth bresennol Caerffili â rhan orllewinol Gorllewin Casnewydd yn amlwg yn annerbyniol, o safbwynt ymarferol a chymdeithasol.

Nid yw Caerffili yn uniaethu â Chasnewydd o ran gweithgareddau hamdden neu fusnes, yn hytrach, mae'n ymgysylltu â Chaerdydd. Yn ogystal â'r cysylltiadau hanesyddol ac agosrwydd daearyddol, mae cysylltiadau teithio llawer gwell i Gaerdydd, boed hynny mewn car neu ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae llawer o'r un problemau yn ysgogi dicter ymhlith pobl ym masn Caerffili wrth gael eu gwthio i drefniant ar gyfer Gwent ehangach, ac yn enwedig o ran gorfod defnyddio Ysbyty'r Faenor yng Nghwmbrân sydd ymhell i ffwrdd ac yn anodd ei gyrraedd, pan mae Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd lai na 5 milltir i ffwrdd!

**BCW-10489 / [redacted] / Yr Wyddgrug**

Rwy'n byw yn yr Wyddgrug yn hen etholaeth Delyn.
Byddai etholaeth arfaethedig Dwyrain Clwyd yn gymysgedd o gymunedau annhebyg heb unrhyw gysylltiad hanesyddol sylweddol. Mae gwthio'r Fflint a Threffynnon (sef dwy dref â chysylltiadau cryf â'r Wyddgrug) i etholaeth Glannau Dyfrdwy yn edrych fel cyffindwyllo amlwg. Dylai'r Comisiwn Ffiniau fod yn ddiduedd – mae'r cynnig hwn yn awgrymu nad yw hynny'n wir.

**BCW-10490 / [redacted] / Wrecsam**

Mae gennyf bryderon ynghylch symud ffiniau fel yr awgrymir. Rwy'n byw yn agosach at Wrecsam a'r Wyddgrug nag at ardaloedd ym Maldwyn a Phowys. Bydd y newidiadau arfaethedig yn mynd â ni i ardal wledig iawn. Mae De Clwyd yn gymysgedd da o ardaloedd diwydiannol ac ardaloedd gwledig. Credaf na fydd y cynnig hwn o fudd i'r cyhoedd.

**BCW-10491 / [redacted] / Y Coed-duon**

Mae'r dull trwsgl hwn o ymdrin â'r cynnig i leihau nifer yr etholaethau yng Nghymru yn anodd ei gredu. Mae'n ymddangos mai'r unig bwrpas yw rhwygo cymunedau hirsefydlog yn ddarnau, dim ond er mwyn ail-lunio llinellau ffiniau. Unwaith eto, mae'n fater o fiwrocratiaeth yn cymryd blaenoriaeth dros anghenion a dymuniadau lleol. Mae'r syniad y dylid rhannu etholaeth Caerffili rhwng 4 etholaeth newydd yn chwerthinllyd. Nid yw'r ffordd y mae llinellau'r ffiniau wedi'u gosod yn gwneud unrhyw synnwyr o gwbl. Ni allaf weld sut y byddai'r cynnig hwn yn gweithio'n rhesymegol. Yn hytrach na symleiddio, bydd yn gwneud pethau'n llawer anoddach i bawb ac yn y tymor hir yn costio llawer mwy. Wrth wneud yr etholaethau mor amrywiol ac yn ymestyn dros ardaloedd daearyddol mor fawr, nid oes unrhyw fodd y gellir cynrychioli pob cymuned yn yr etholaeth honno yn ddigonol.

**BCW-10492 / [redacted] / Bae Colwyn**

Rwy'n cael trafferth gweld y cysylltiad rhwng ardal ehangach Bae Colwyn a'r Rhyl/ Prestatyn a Rhuddlan.
Credaf y byddai'n well cysylltu ardal Colwyn â Llandudno.

**BCW-10493 / [redacted] / De Cymru**

Yn lle lleihau nifer yr etholaethau i fodloni syniad San Steffan o reolaeth ac ideolegau llywodraeth sy'n gwasanaethu dim ond 1% o'r boblogaeth... Mae angen i ni frwydro yn ôl dros annibyniaeth lawn a chael rheolaeth lawn ar ein gwlad ein hunain. Dyma'r unig ffordd i oroesi a ffynnu. Mae llywodraeth y DU yn benderfynol o ddinistrio pethau.

**BCW-10494 / [redacted] / Wrecsam**

Rydym yn Sir Wrecsam. Mae gan bentrefi Rhosllannerchrugog, Rhiwabon, Rhosymedre, ardal wledig gogledd Llangollen ac eraill gan gynnwys Cefn-mawr a Chefn-bychan ac Acrefair, gysylltiadau cryf hanesyddol â Wrecsam ar hyn o bryd. Yn wir, mae Safle Treftadaeth y Byd Pontcysyllte wedi'i leoli o fewn ffiniau Wrecsam, ac mae pobl leol a chynghorau wedi gweithio'n galed i godi'r proffil ar gyfer twristiaeth. Ac eto, rydych chi'n symud y clwstwr bach hwn o bentrefi (sy'n sefyll allan yn amlwg), sydd â gorffennol hanesyddol cryf â Sir Wrecsam, i etholaeth wledig sy'n ymestyn yn ddaearyddol dros ardal fawr iawn o'r gogledd i'r de, ac o'r gorllewin i'r dwyrain. Ni allaf weld, o ystyried y diffyg seilwaith a'r mynyddoedd, sut y gall un AS wasanaethu'r etholwyr yn effeithiol.
Awgrymwn eich bod yn cadw'r pentrefi hyn yn ogystal ag ardaloedd cyfagos o fewn etholaeth bresennol Wrecsam. Nid yw'n gytbwys o gwbl (ar wahân i niferoedd, ond mae'r boblogaeth yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru yn fwy gwasgaredig nag yn Ne Cymru, lle mae'r niferoedd yn gweithio'n well, efallai).
Er nad yw'r ardaloedd etholiadol yn ffiniau sirol, maent yn effeithio ar y ffordd y gall AS uniaethu ag ardal a brwydro o'i phlaid yn y Senedd.

**BCW-10495 / [redacted] / Aberdâr**

Mae rhannu Cwm Cynon yn 2 yn gamgymeriad mawr.
Nid yw creu rhanbarth o Aberpennar i Lantrisant yn gwneud synnwyr.
Er fy mod yn siŵr y treuliwyd amser yn ystyried ffiniau, nid yw'r newidiadau arfaethedig yn briodol ac ni fyddant yn gweithio i bobl Cwm Cynon.

**BCW-10496 / Cyngor Tref Castell Newydd Emlyn / Castell Newydd Emlyn**

Dwi'n anghytuno gyda'r cynlluniau arfaethedig am nifer o resymau.

1. Ehangder yr etholaeth a fydd yn gwneud gwaith yr aelod seneddol yn fwy anodd. Mae'r etholaeth yn ymestyn rhyw 100 milltir o'r De i'r Gogledd, hyn yn afresymol i AS fynychu cyfarfodydd, digwyddiadau ayb.

2. Llai o gynrychiolaeth o Gymru yn y Ty Cyffredin ar draws y wlad, un yn llai wrth gyfuno Ceredigion a Gogledd Penfro. Llai o lais i bobl Cymru mewn gwlad Democrataidd.

Y perygl o dorri lawr ar wasanaethau sydd yn gwegian yn barod e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol a chynhaliaeth i bobl cefngwlad.

**BCW-10497 [redacted] Bae Colwyn**

Rwyf newydd ddod o hyd i'r cynigion hyn ar hap ar Facebook, ac mae hon yn ffordd gywilyddus ac amhriodol o roi gwybod i ni am y newidiadau hyn, a gwnaed hyn, yn ôl pob tebyg, i gyfyngu ar wrthwynebiadau. Rwy'n gwrthwynebu'n gryf gosod Llandrillo-yn-Rhos yng Ngogledd Clwyd, mae gennym gysylltiad agosach â Bae Penrhyn, e.e. ar gyfer meddygon teulu, gwasanaethau llyfrgell.

**BCW-10498 / [redacted] / Wrecsam**

Nid wyf erioed wedi clywed unrhyw beth mor wirion. Rwy'n byw 3 milltir o Wrecsam a wn i ddim faint o filltiroedd/oriau o Faldwyn a Glyndŵr.

Dylid gadael Johnstown, Rhosllannerchrugog, Rhiwabon, Ponciau a Phen-y-cae yn Wrecsam. Mae'r pentrefi hyn yn rhan o gymuned Wrecsam a dylent aros yno.

Ni wn sut mae un person yn mynd i gynrychioli ardal mor enfawr, ac mae angen i bwy bynnag luniodd y ffin wirion hon ailystyried.

**BCW-10499 / [redacted] / Wrecsam**

Dylai Rhostyllen fod yn rhan o Wrecsam yn hytrach na'r etholaeth arfaethedig. Nid oes llawer yn gyffredin rhwng lle'r ydym yn byw a'r etholaeth arfaethedig, ac rydym yn rhannu llawer mwy yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol â Wrecsam.
Nid wyf yn cytuno â'r newidiadau i'r ffiniau gan eu bod yn lleihau cynrychiolaeth Cymru yn senedd y DU. Rwy'n meddwl y bydd hyn yn symud Cymru ymhellach tuag at ddymuno annibyniaeth oddi wrth Loegr.

**BCW-10500 / [redacted] / Caerffili**

Er mwyn cynnal parhad hanesyddol ac uniaeth, dylid cadw Bargoed, y Coed-duon, Markham ac Argoed yn etholaeth Caerffili. Er mwyn cydbwyso gofynion o ran maint y boblogaeth, gellid symud Bedwas, Trethomas a Machen, ynghyd â Rhydri a Draethen i Orllewin Casnewydd. Byddai hyn yn adfer afon Rhymni wrth bont Bedwas fel y ffin. Byddai'n yn rhoi poblogaethau mwy cyfatebol yn y ddwy etholaeth a byddai'n hanesyddol briodol gan mai pont Bedwas oedd yr hen ffin sirol rhwng Morgannwg a Sir Fynwy. Hefyd, byddai'n gwneud Rhymni a Glynebwy yn etholaeth "Blaenau'r Cymoedd", gyda chysylltiad trafnidiaeth da ar hyd ffordd yr A465 (a gobeithio'n cryfhau'r achos dros gyswllt llorweddol gogleddol fel rhan o ddatblygiad arfaethedig Metro De Cymru). Nid yw teithio ar hyd echel o'r gogledd i'r de o Fargoed i Rymni ac o'r Coed-duon i Dredegar/Glynebwy yn syml ar hyn o bryd, ac mae gan y cymunedau hyn gysylltiadau gwell o fewn Bwrdeistref Caerffili a chysylltiadau diwylliannol agosach ag etholaeth Caerffili at ddibenion etholiad cenedlaethol.

**BCW-10501 / [redacted] / Casnewydd**

Mae uno Gorllewin Casnewydd ag Islwyn yn wirion, mae'n siŵr mai'r datrysiad rhesymegol yw gwneud Casnewydd yn un ardal

Pam gwneud pethau'n fwy cymhleth

Mae hyn yn nodweddiadol o Gynulliad Cymru

**BCW-10502 / [redacted] / Machynlleth**

Rwy'n byw i'r gogledd o Fachynlleth, yn Sir Drefaldwyn. Mae'r afon ar waelod fy ngardd yn gweithredu fel ffin sirol rhwng Sir Drefaldwyn a'r hen Sir Feirionnydd.

Mae'n destun gofid i mi y byddaf bellach yn cael fy hun mewn etholaeth ogleddol nad yw'n golygu dim i mi, dim o gwbl, oherwydd hwylustod etholiadol.

Bydd yn rhaid i mi deithio ymhell dros awr ar ffyrdd anodd er mwyn cyrraedd y “neuadd sir newydd”, pa le bynnag y bydd honno. Nid oes gwasanaethau bysiau yn bodoli i raddau helaeth, er yr aeth Dr Beeching ati i ddileu'n llechwraidd ac effeithlon yr holl wasanaethau trên i'r cyfeiriad hwnnw. Y dewis arall yw teithio i'r dwyrain i Loegr ac wedyn i'r gogledd yn ôl i Gymru, ac o leiaf i'r cyfeiriad hwnnw mae ffordd sy'n weddol dda i deithio arni ac mae gwasanaeth rheilffordd ar gael.
Y naill ffordd neu'r llall, byddai'n cymryd y rhan fwyaf o ddiwrnod i fynychu unrhyw beth.
Ar hyn o bryd, mae'n ddigon anodd ceisio cyrraedd Llandrindod, sef y dref sy'n gartref i neuadd sir Powys.

Os oes rhaid i unrhyw beth ddigwydd yn y rhan hon o orllewin Sir Drefaldwyn, byddai'n well gennyf fod yn nalgylch Ceredigion gan mai yn Aberystwyth y caf fy holl apwyntiadau iechyd. Yn wir, yr ysbyty cyffredinol agosaf ataf, sydd ag adran damweiniau ac achosion brys gwbl weithredol, yw Bronglais yn Aberystwyth. Mae fy manc agosaf yn Aberystwyth, mae'r rhan fwyaf o'm hanghenion dyddiol yn cael eu gwasanaethu yn Aberystwyth, os nad oes gan Fachynlleth yr hyn sydd ei angen arnaf. Yn sicr, mae'n llawer haws cyrraedd Aberystwyth, mewn hanner awr ar y mwyaf, â ffordd dda, a gwasanaeth bws a rheilffordd.

Mae ardal Machynlleth yn fwy addas o lawer i fod yn nalgylch Ceredigion na thros y mynyddoedd i'r gogledd, sef ardal sy'n anodd ei chyrraedd, heb unrhyw gysylltiadau, nac unrhyw uniaethu, nac unrhyw ofal, nac unrhyw berthynas â'i gilydd.

**BCW-10503 / [redacted] / Castell-nedd**

Mae cyfuno Castell-nedd a Dwyrain Abertawe yn gwneud dim synnwyr oherwydd Castell-nedd Port Talbot yw'r sir. Bydd materion sirol yn cael eu gwahanu os gweithredir y ffiniau arfaethedig. Mae wedi cymryd nifer o flynyddoedd i integreiddio Castell-nedd a Phort Talbot. Yn aml, caiff Castell-nedd ei hanwybyddu er budd Port Talbot. Byddai'n fwy synhwyrol i adlewyrchu ffiniau sirol pan fo hynny'n ymarferol. Nid oes unrhyw gysylltiadau rhwng Castell-nedd a Dwyrain Abertawe.

**BCW-10504 / [redacted] / Prestatyn**

Mae gan Brestatyn gysylltiadau cymdeithasol a diwylliannol cryf â'r Rhyl a dylai fod yn yr un etholaeth, ynghyd â'r trefi arfordirol eraill y mae ganddi fwyaf yn gyffredin â nhw. Felly, credaf yn gryf y dylai Prestatyn fod yn rhan o Ogledd Clwyd yn hytrach na Dwyrain Clwyd.

**BCW-10505 / [redacted] / Aberdaugleddau**

Rwy'n anghyruno â'r cynnig o ran Gogledd Sir Benfro.

**BCW-10506/ [redacted] / Anhysbys**

**Oddi wrth:** [redacted]
**Anfonwyd:** 29 Hydref 2022 09:54
**At:** CFfG <bcw@boundaries.wales>
**Pwnc:** Gorllewin Casnewydd/Islwyn.

I bwy bynnag a fynno wybod.
Mae'r cynnig gan y Comisiwn Ffiniau i greu etholaeth seneddol newydd Gorllewin Casnewydd/Islwyn yn deg, ar y cyfan.
Mae fy mhrif bryder yn ymwneud â phobl sy'n byw yn ward Argoed a fydd i'r gogledd o etholaeth seneddol newydd arfaethedig Gorllewin Casnewydd ac Islwyn. Y pryder yw, os bydd swyddfa'r AS newydd yn cael ei lleoli yng Nghasnewydd, dyweder, bydd llawer o bobl yn ward Argoed sy'n oedrannus, yn ddi-waith, ar incwm isel a heb ddull trafnidiaeth personol ac yn ddibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus, yn ei chael hi'n anodd iawn cyrraedd y swyddfeydd hyn i gysylltu â'u Haelod Seneddol.
Yr eiddoch yn gywir.
[redacted]

**BCW-10507 / Cyng Alex Williams / Pencoed a Phenprysg**

**Oddi wrth:** [redacted]
**Anfonwyd:** 29 Hydref 2022 11:05
**At:** CFfG <bcw@boundaries.wales>
**Pwnc:** Y Cynigion Seneddol Diwygiedig - Pencoed a Phenprysg

Bore da,

Fel un o Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol dros Bencoed a Phenprysg, hoffwn fynegi fy mhryderon ynghylch y cynigion diwygiedig i gynnwys Pencoed a Phenprysg yn etholaeth newydd Rhondda. Nid oes gan Bencoed a Phenprysg unrhyw gysylltiad o gwbl ag unrhyw un o'r cymunedau eraill yn yr etholaeth ddiwygiedig arfaethedig hon, ac mae ein cysylltiadau â Phen-y-bont ar Ogwr. Yn fy marn i, byddai'n llawer mwy priodol cynnwys wardiau Melin Ifan Ddu, Bro Ogwr a Nant-y-moel, sydd yng Nghwm Ogwr, yn etholaeth newydd Rhondda a Chwm Ogwr. Yn fy marn i ac ym marn fy etholwyr, byddai'n gwneud llawer mwy o synnwyr i gynnwys Pencoed a Heol-y-Cyw yn etholaeth newydd Pen-y-bont, o ystyried y ffaith bod gennym gysylltiadau agos â Bryncethin i'r gorllewin a Phen-y-bont ar Ogwr i'r de. I mi a'r etholwyr a gynrychiolaf, mae'n ymddangos bod y cynnig hwn yn seiliedig ar ystadegau poblogaeth yn unig, heb sicrhau bod cymunedau seneddol yn cydnabod cynnal perthnasoedd a chysylltiadau hanesyddol rhwng cymunedau. Felly, anogaf y Comisiwn yn gryf i ailedrych ar y cynigion hyn ar sail yr ystyriaethau hyn.

Cofion cynnes

Alex Williams

**Y Cyng | Cllr Alex Williams (Pencoed & Penprysg)**

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | Bridgend County Borough Council**

**BCW-10508 / [redacted] / Wrecsam**

Mae’r ffin a gynigir ar gyfer yr etholaeth newydd wedi fy syfrdanu.

Mae fel petai rhywun wedi gweithio o Ogledd Cymru i lawr, ac yna o Dde Cymru i fyny, a sylweddoli bod anghysondeb yn y canol sy’n rhaid ei glytio er mwyn cysoni’r niferoedd.

Mae ein hardal wedi’i chysylltu’n fasnachol, yn ddiwydiannol ac yn ddiwylliannol â Gogledd Cymru, ac ardaloedd Dyffryn Dyfrdwy a Wrecsam yn arbennig, felly mae’r cynnig hwn ar gyfer newid y ffiniau wedi alinio ein hardal ddiwydiannol gymharol fach ym mwrdeistref Wrecsam ag ardaloedd gwledig ymhellach i’r de lle mae’r cysylltiadau yn llawer gwannach.

Mae’n amlwg mai “gêm niferoedd” yw hon, a’n hetholaeth newydd arfaethedig sy’n colli. Mae’n amlwg i bawb ei weld ar y map bod hwn yn gynnig chwerthinllyd ac y dylid ei unioni.

**BCW-10509 / [redacted] / Pontardawe**

**Oddi wrth:** [redacted]
**Anfonwyd:** 30 Hydref 2022 13:06
**At:** CFfG <bcw@boundaries.wales>
**Pwnc:** Gwrthwynebiad Parhaus i'r Newidiadau Arfaethedig i Ffiniau sy'n gosod Alltwen yn Etholaeth Aberhonddu, Maesyfed a Chwm-tawe

Annwyl Syr/Madam,
Gweler isod fy ngwrthwynebiad parhaus i'r newidiadau arfaethedig i ffiniau sy'n gosod Alltwen yn etholaeth Aberhonddu, Maesyfed a Chwm-tawe.

## Cynigion ar gyfer newid ffiniau yng Nghymru

Hoffwn fynegi fy **ngwrthwynebiad parhaus** i'r cynnig i ychwanegu Alltwen at etholaeth Aberhonddu, Maesyfed a Chwm-tawe.

### Hygyrchedd swyddfa'r etholaeth

Mae Brycheiniog a Sir Faesyfed yn etholaeth wledig fawr, ond mae fy ward innau'n ôl-ddiwydiannol o ran ei chymeriad, yn hytrach na gwledig. Mae Alltwen tua phedair milltir o ganol tref Castell-nedd ac rwyf bob amser wedi gweld Castell-nedd fel canolbwynt fy nghymuned. Mae gwasanaeth bws rheolaidd a llwybr beicio i Gastell-nedd lle mae swyddfa AS fy etholaeth bresennol. Roedd swyddfeydd pob AS blaenorol wedi'u lleoli yng Nghastell-nedd. Byddai ymweld â swyddfa AS yr etholaeth arfaethedig yn Aberhonddu yn golygu awr o daith o leiaf, ar draws y Bannau, sy'n gallu bod yn frawychus yn y gaeaf oherwydd uchder y Bannau a thywydd garw. Ar fws, mae'r daith yn cymryd o leiaf awr ac 20 munud o Gastell-nedd i Aberhonddu. Mae'n bosibl na fydd car gan deuluoedd tlotach, oedolion ifanc neu bobl oedrannus, ac felly byddai mynediad at AS a democratiaeth yn lleihau'n sylweddol.

### Cynigion a fydd yn arwain at gynnydd mewn allyriadau CO2

O ystyried y cynhesu byd-eang, bydd y pellteroedd teithio ar draws ardal eang o Gymru'n arwain at gynnydd mewn allyriadau carbon os bydd angen ymgynghori â'r AS neu fynychu cyfarfodydd.

### Digwyddiadau yn yr etholaeth

Byddai digwyddiadau etholaethol yn yr etholaeth newydd arfaethedig yn anodd eu mynychu gan y byddai angen taith mewn car sy'n cymryd 2.5 awr, un ffordd, i fynychu digwyddiad yn rhan fwyaf gogleddol yr etholaeth. Yng Nghastell-nedd, gellir cael mynediad i bob digwyddiad etholaethol wrth deithio am 1/2 awr ar y mwyaf. Anogir etholwyr iau i gymryd rhan yn y digwyddiadau hyn, ond byddai teithio ymhellach i ddigwyddiadau yn atal pobl iau rhag gwneud hynny. Nid oes car gan lawer o etholwyr ifanc, neu mae'n bosibl na allant fforddio'r tanwydd i deithio pellteroedd maith.

**Ffiniau Afonydd**

Dywedir bod y ffiniau wedi'u dylanwadu gan afonydd. Mae afon Tawe yn llifo trwy Bontardawe, ac mae Alltwen ar ochr Castell-nedd yr afon. Yn yr etholaeth arfaethedig newydd, ychydig iawn o dai fyddai ar ochr ddwyreiniol yr afon yng Nghwm Tawe, ar wahân i bentref cyfagos Rhos. Mae fy nghartref innau yng Nghwm Clydach, nid Cwm Tawe.

**Yr Eglwys a Bywyd Ysbrydol**

Rwy'n chwarae rhan weithredol ym mywyd yr eglwys yn Alltwen, sydd ym mhlwyf Cilybebyll. Mae fy mhlwyf wedi'i leoli ym mhen pellaf Esgobaeth Llandaf ac afon Tawe yw'r ffin. Mae Pontardawe o fewn Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu.

Cyflwynwyd Ardaloedd Gweinidogaeth ym mis Ionawr 2022, a bydd arweinydd tîm fy Ardal Weinidogaeth wedi'i leoli yn Eglwys Catwg Sant, Llangatwg, Castell-nedd, a bydd fy Neon Gwledig wedi'i leoli yn Eglwys Sant Ioan, Sgiwen, Castell-nedd.

Gyda chyflwyniad y ffiniau newydd arfaethedig, os bydd ymholiadau ynghylch fy eglwys, bydd angen i mi ymweld â'm AS yn Aberhonddu, y tu allan i'm hesgobaeth. Mae fy AS presennol yn mynychu gwasanaethau'r eglwys yn rheolaidd bob wythnos yng Nghastell-nedd; o ystyried y pellteroedd sydd ynghlwm wrth wasanaethu'r etholaeth newydd arfaethedig, bydd gan yr AS yn Aberhonddu bellteroedd mawr i'w teithio, ac mae'n debygol na fydd yn mynychu gwasanaethau neu ddigwyddiadau'r eglwys yn fy mhentref bach. Bydd yn amhosibl iddi gael dealltwriaeth o fywyd ysbrydol fy nghymuned fach. Yn y gorffennol, mae fy ASau wedi mynychu ffair

Nadolig fy eglwys a digwyddiadau eraill. Mae hyn yn gyfle da i'r AS ac etholwyr Castell-nedd gyfarfod â'i gilydd.

**Ysbryd cymunedol**

Ni fydd unrhyw ysbryd cymunedol yn perthyn i'm AS bellach, gan y bydd yn byw ac yn gweithio milltiroedd i ffwrdd. Ni ddewisais fyw mewn etholaeth wledig pan brynais fy nhŷ.

Diwylliant Cymreig trefol ôl-ddiwydiannol yw diwylliant cynhenid fy mhentref, Alltwen, a bydd yn cael ei golli wrth uno yn etholaeth wledig eang Aberhonddu a Maesyfed, lle mae ffermio'n cael blaenoriaeth.

**Ymddiriedolwr Cyfeillion Cwmni Haearn Mynachlog Nedd**

Rwy'n Ymddiriedolwr Cyfeillion Cwmni Haearn Mynachlog Nedd ac yn gwirfoddoli ar safle Gwaith Haearn Mynachlog Nedd bob prynhawn Sul. Wrth wneud ceisiadau am grantiau, yn y gorffennol rydym wedi cysylltu â'r AS, ac mae wedi cefnogi ein ceisiadau. Mae wedi ymweld â'r safle'n rheolaidd i'n cefnogi. Bydd hyn yn anoddach gan y bydd safle Gwaith Haearn Mynachlog Nedd yn etholaeth Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd, a byddaf innau fel ymddiriedolwr yn preswylio yn etholaeth Aberhonddu, Maesyfed a Chwm-tawe.

**Cynrychioli etholwyr**

Dywedir mai dim ond yr etholwyr sy'n byw yn ei hetholaeth y bydd fy AS yn eu cynrychioli, felly yn hytrach na theithio pedair milltir i Gastell-nedd, bydd yn rhaid i mi deithio i Aberhonddu i swyddfa'r etholaeth neu, yn dibynnu ar frys unrhyw faterion, y gymhorthfa etholaethol nesaf a allai olygu taith hyd at ddwy awr a hanner mewn car.

Gobeithiaf y byddwch yn ystyried fy safbwyntiau.

Yr eiddoch yn gywir,

[redacted]

[redacted]

[redacted]

**BCW-10510 / [redacted] / Pontardawe**

[redacted]

30 Hydref 2022

Annwyl Syr/ Madam,

**Cynigion ar gyfer newid ffiniau yng Nghymru**

Hoffwn fynegi fy **ngwrthwynebiad parhaus** i'r cynnig i ychwanegu Alltwen at etholaeth Aberhonddu, Maesyfed a Chwm-tawe.

**Hygyrchedd swyddfa'r etholaeth a chostau cysylltiedig**

- Mae Brycheiniog a Sir Faesyfed eisoes yn etholaeth wledig fawr ond mae fy ward innau'n ôl-ddiwydiannol o ran ei chymeriad, yn hytrach na gwledig.
- Mae Alltwen tua phedair milltir o ganol tref Castell-nedd ac rwyf bob amser wedi gweld Castell-nedd fel canolbwynt fy nghymuned.
- Mae gwasanaeth bws rheolaidd a llwybr beicio i Gastell-nedd lle mae swyddfa etholaeth fy AS presennol.
- Roedd swyddfeydd pob AS blaenorol wedi'u lleoli yng Nghastell-nedd.
- Byddai cael mynediad i swyddfa AS yr etholaeth arfaethedig yn Llandrindod yn golygu taith awr a hanner o leiaf mewn car (61.5 milltir – un ffordd) ar draws y Bannau, sy'n gallu bod yn frawychus yn y gaeaf oherwydd uchder y Bannau a thywydd garw. Mae'n costio £92 i deithio un ffordd mewn tacsi.

- Mae'r daith ar fws yn cymryd 3 awr a 7 munud o leiaf (64 milltir) o Gastell-nedd i Landrindod. Mae prisiau tocynnau yn amrywio o £8 i £12 (un ffordd).
- Mae'r daith ar drên yn cymryd 2 awr a 44 munud o leiaf (77 milltir) o Gastell-nedd i Landrindod. Mae prisiau tocynnau yn amrywio o £40 i £60 (un ffordd).
- Mae'n bosibl na fydd car/trafnidiaeth gan deuluoedd tlotach, oedolion ifanc neu bobl oedrannus, ac felly byddai mynediad at AS a democratiaeth yn lleihau'n sylweddol.

**Cynhesu byd-eang**

- O ystyried y cynhesu byd-eang, bydd y pellteroedd teithio ar draws ardal eang o Gymru – etholaeth Aberhonddu, Maesyfed a Chwm-tawe, ar gyfer cyfarfodydd â'r AS os oes angen - yn arwain at fwy o gynnydd mewn allyriadau carbon.

**Digwyddiadau yn yr etholaeth**

- Byddai digwyddiadau etholaethol yn yr etholaeth newydd arfaethedig yn anodd eu mynychu gan y byddai angen taith mewn car sy'n cymryd 2.5 awr, un ffordd, i fynychu digwyddiad yn rhan fwyaf gogleddol yr etholaeth.
- Yng Nghastell-nedd, gellir cael mynediad i bob digwyddiad etholaethol wrth deithio am 1/2 awr ar y mwyaf.
- Anogir etholwyr iau i gymryd rhan yn y digwyddiadau hyn, ond byddai teithio ymhellach i ddigwyddiadau yn atal pobl iau rhag gwneud hynny. Nid oes car gan lawer o etholwyr ifanc, neu mae'n bosibl na allant fforddio'r tanwydd i deithio pellteroedd maith.

**Ffiniau Afonydd**

- Dywedir bod y ffiniau wedi'u dylanwadu gan afonydd.
- Mae afon Tawe yn llifo trwy Bontardawe, ac mae ward Alltwen ar ochr ddwyreiniol (Castell-nedd) yr afon.

- Nid oes llawer o dai ar ochr ddwyreiniol (Castell-nedd) yr afon yng Nghwm Tawe, ar wahân i bentref cyfagos Rhos yn yr etholaeth newydd arfaethedig.
- **Mae afon Clydach (na ddylid ei drysu â Chlydach, Abertawe, na Chlydach, Y Fenni) yn tarddu yng Nghilybebyll, ar draws y cwm, ac mae fy nghartref yn Alltwen yng Nghwm Clydach, yn hytrach na Chwm Tawe.**

**Yr Eglwys a Bywyd Ysbrydol**

- Rwy'n chwarae rhan weithredol ym mywyd Eglwys Sant Matthew, Dyffryn, Castell-nedd.
- Mae eglwys hon wedi'i lleoli ym mhen pellaf Esgobaeth Llandaf ac afon Tawe yw'r ffin.
- Mae Pontardawe o fewn Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu.
- Cyflwynwyd Ardaloedd Gweinidogaeth ym mis Ionawr 2022, a bydd arweinydd tîm fy Ardal Weinidogaeth wedi'i leoli yn Eglwys Catwg Sant, Llangatwg, Castell-nedd, a bydd fy Neon Gwledig wedi'i leoli yn Eglwys Sant Ioan, Sgiwen, Castell-nedd.
- Gyda chyflwyniad y ffiniau newydd arfaethedig, os bydd ymholiadau ynghylch fy eglwys, bydd angen i mi ymweld â'm AS yn Llandrindod, y tu allan i'n hesgobaeth.
- O ystyried y pellteroedd sydd ynghlwm wrth wasanaethu'r etholaeth newydd arfaethedig, bydd gan yr AS yn Aberhonddu bellteroedd mawr i'w teithio, ac mae'n debygol na fydd yn mynychu gwasanaethau neu ddigwyddiadau'r eglwys yn ein hardal.
- Bydd yn amhosibl iddi gael dealltwriaeth o fywyd ysbrydol fy nghymuned fach.

- Yn y gorffennol, mae fy ASau wedi mynychu ffair Nadolig fy eglwys a digwyddiadau eraill. Mae hyn yn gyfle da i'r AS ac etholwyr Castell-nedd gyfarfod â'i gilydd.

**Ysbryd cymunedol**

- Ni fydd unrhyw ysbryd cymunedol yn perthyn i'm AS bellach, gan y bydd yn byw ac yn gweithio milltiroedd i ffwrdd.
- Ni ddewisais fyw mewn etholaeth wledig pan brynom ein tŷ.
- Diwylliant Cymreig trefol ôl-ddiwydiannol yw diwylliant cynhenid ein pentref, Alltwen, a bydd yn cael ei golli wrth uno yn etholaeth wledig eang Aberhonddu a Maesyfed, lle mae ffermio'n cael blaenoriaeth.

**Y Soroptimistiaid Rhyngwladol**

- Rwyf wedi bod yn aelod o Soroptimistiaid Rhyngwladol Castell-nedd ers dros 25 mlynedd ac rydym yn cyfarfod, fel clwb, bob pythefnos ar nos Lun yng Nghastell-nedd. Gofynnir i ni lobïo ein AS yn rheolaidd ar faterion yn ymwneud â menywod. Mae nifer o'r 40 o aelodau yn byw y tu allan i etholaeth newydd arfaethedig Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd, felly bydd yn anodd lobïo.

**Ymddiriedolwr Cyfeillion Cwmni Haearn Mynachlog Nedd**

- Rwy'n Ymddiriedolwr Cyfeillion Cwmni Haearn Mynachlog Nedd ac yn gwirfoddoli ar safle Gwaith Haearn Mynachlog Nedd bob prynhawn Sul.
- Wrth wneud ceisiadau am grantiau, yn y gorffennol rydym wedi cysylltu â'r AS, ac mae wedi cefnogi ein ceisiadau.
- Mae wedi ymweld â'r safle'n rheolaidd i'n cefnogi. Bydd hyn yn anoddach gan y bydd safle Gwaith Haearn Mynachlog Nedd yn etholaeth Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd, a byddaf innau fel ymddiriedolwr yn preswylio yn etholaeth Aberhonddu, Maesyfed a Chwm-tawe.
- Bydd y cyswllt a'r berthynas agos â'n AS yn lleihau.

**Cynrychioli etholwyr**

- Fe'i gwnaed yn glir yn ddiweddar ar Facebook , o dan Faterion Lleol Castell-nedd, mai dim ond yr etholwyr sy'n byw yn ei hetholaeth y bydd ein AS yn eu cynrychioli, felly yn hytrach na theithio pedair milltir i Gastell-nedd, bydd yn rhaid i ni deithio i Landrindod i swyddfa'r etholaeth neu, yn dibynnu ar frys unrhyw faterion, y gymhorthfa etholaethol nesaf a allai olygu taith hyd at ddwy awr a hanner mewn car.

Gobeithiaf y byddwch yn ystyried fy safbwyntiau.

Dymuniadau gorau,

[redacted]

**BCW-10511 / [redacted] / Anhysbys**

Comisiwn Ffiniau i Gymru Llawr
Gwaelod, Ty Hastings Llys Ffitsalan
Caerdydd
CF24 0BL

https://www.bcw-reviews.org.uk/

Annwyl Gomisiwn Ffiniau,

Hoffwn leisio fy mhryderon am y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau ar gyfer etholaeth Islwyn. Bu Islwyn yn etholaeth seneddol ers bron i 40 mlynedd ac mae ganddi hunaniaeth etholaethol wirioneddol. Mae'n ymestyn dros ran helaeth o Fwrdeistref Sirol Caerffili, gan gynnwys trefi'r Coed-duon, Trecelyn, Abercarn a Rhisga.
Fodd bynnag, yn ôl y cynigion a ddiwygiwyd yn ddiweddar, byddai'r etholaeth yn peidio â bodoli a byddai'r mwyafrif ohoni'n cael ei boddi yn sedd estynedig Gorllewin Casnewydd.
Roedd y cynigion gwreiddiol ym mis Medi 2021 i ddiwygio map etholiadol Gwent yn gweld Islwyn yn goroesi ac yn cael ei chyfuno â phedair ward yn ardal Caerffili. Byddai ychwanegu Ystrad Mynach, Sant Catwg, Llanbradach a Hengoed at Islwyn yn addas, o ystyried y cymunedau cyfrannol yn yr ardal. Cysylltir Hengoed a Maesycwmer gan y draphont sy'n llifo i Ystrad Mynach a Llanbradach, ac mae Sant Catwg yn ffinio â Phengam. Felly, mae'r cymunedau hyn yn ychwanegiad naturiol i'r etholaeth.
Yn lle hynny, byddai'r gwrthgynnig a fabwysiadwyd yn diwygio etholaethau arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili.
Byddai Pontllanfraith, Cefn Fforest, Maesycwmer a Phengam yn cael eu cymryd o Islwyn, gan greu sedd Caerffili, a byddai'r hyn a elwir yn sedd Gorllewin Casnewydd ac Islwyn yn cael ei chreu o'r hyn sy'n weddill o'r etholaeth bresennol.
Mae gwahanu Trecelyn oddi wrth y Coed-duon a Phontllanfraith yn gwneud dim synnwyr. Mae cysylltiad annatod rhwng ardaloedd Pontllanfraith, Trecelyn a'r Coed-duon o ran eu teuluoedd a'u cymunedau. Nid oes unrhyw ysgolion cynradd yn Islwyn sy'n anfon plant i ysgolion uwchradd y tu allan i'r etholaeth. Mae dalgylch Ysgol Uwchradd Islwyn, sy'n ysgol newydd yn Oakdale, yn cynnwys ysgolion ym Mhontllanfraith. O ran trafnidiaeth, nid oes cyswllt trên rhwng Islwyn a Chasnewydd.
Fel un o breswylwyr Islwyn sy'n pryderu, rwy'n gwrthwynebu'r cynigion newydd hyn ac rwy'n gwrthwynebu'r penderfyniad i ddileu Islwyn fel etholaeth. Nid wyf yn dymuno i'm tref breswyl gael ei chynnwys yng Ngorllewin Casnewydd. Nid wyf yn teimlo bod digon o gysylltiadau lleol, hanesyddol neu ddiwylliannol pwysig â Gorllewin Casnewydd i gyfiawnhau colli etholaeth Islwyn.

Yn gywir,

[redacted]

**BCW-10512 / [redacted] / Caersws**

Rwy'n cefnogi'r newid i'r ffiniau.

Comisiwn Ffiniau i Gymru

Boundary Commission for Wales

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, e-byst a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.
Er mwyn cysylltu gyda'r Comisiwn, ysgrifennwch i:

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod, Ty Hastings, Llys Fitzalan
Caerdydd, CF24 0BL

Rhif Ffon: +44 (0)29 20464819
Rhif Ffon: +44 (0)29 21055521
E-bost: bcw@ffiniau.cymru

© Hawlfraint y Goron 2022